Etholiad Senedd Ewrop

Etholiad Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019: canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ym Mhrydain Fawr

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Cynnwys

1 Cyflwyniad 1

Diben 1

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn 1

2 Rolau a chyfrifoldebau 3

Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol 3

Swyddog Canlyniadau Lleol 11

Swyddog Cofrestru Etholiadol 11

3 Safonau perfformiad 12

4 Gwaith cynllunio a threfnu 13

Cynllun prosiect 13

Cofrestr risg 14

Staffio 15

Cynnal uniondeb yr etholiad 15

Cyfathrebu 16

Arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn 20

5 Enwebiadau 22

Canllawiau i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid 22

Y broses enwebu 28

Gofynion enwebu 35

6 Gweinyddu'r bleidlais 50

Asiantiaid yn yr etholiad 50

Paratoi a chyhoeddi hysbysiadau 55

Paratoi papurau pleidleisio 59

Marwolaeth ymgeisydd 62

Pleidleisio absennol 62

7 Prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau 64

Egwyddorion ar gyfer prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau effeithiol 65

Gwneud penderfyniadau ar y prosesau dilysu, cyfrif a throsglwyddo cyfansymiau lleol 66

Coladu'r canlyniad 71
Datgan y canlyniad 79

8 Ar ôl datgan y canlyniad 81
Gweithgarwch ar ôl yr etholiad 81
Gwariant etholiadol ymgeiswyr 82
Heriau i ganlyniad yr etholiad 85
Adolygu gweithdrefnau etholiad 87

Atodiad A – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau 89
Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr 89
Safon perfformiad ar gyfer deiliaid swydd statudol sydd â phŵer cyfarwyddo 95

1 Cyflwyniad

Diben

1.1 Diben y canllawiau hyn yw cefnogi Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol i gyflawni eu rôl mewn etholiad Senedd Ewrop yn y rhanbarth etholiadol y maent yn gyfrifol amdano.

1.2 Lluniwyd y canllawiau hyn yn seiliedig ar y gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd) a dylid eu darllen yn unol â hi:

- Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop 2004 (yn cynnwys y diwygiadau diweddaraf a wnaed gan Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Diwygio) 2013 yn ogystal â'r diwygiadau a wnaed yn flaenorol gan Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Diwygio) 2009)
- Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Etholfraint Dinasyddion Perthnasol yr Undeb) 2001
- Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002
- Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001

1.3 Mae'r rhestr uchod ond yn cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer y meysydd y mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hwy a'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd.

1.4 Yn ogystal, mae'n ofynnol hefyd i chi ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus a geir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth iddynt gyflawni eich dyletswyddau. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yng Nghymru hefyd ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu yn y Gymraeg.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

1.5 Mae'r canllawiau yn cwmpasu:

- Rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol
- Safonau perfformiad
- Gwaith cynllunio a threfnu

- Enwebiadau
- Gweinyddu'r bleidlais
- Prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau
- Ar ôl datgan y canlyniad

1.6 Mae pob un o'r rhannau hyn yn cwmpasu:

- yr hyn y mae'n ofynnol i chi ei wneud yn ôl y gyfraith ('rhaid')
- yr egwyddorion y dylech eu dilyn wrth gyflawni eich rôl a chyflawni eich dyletswyddau statudol
- arfer a argymhellir er mwyn eich helpu i ddeall eich dyletswyddau a'u cyflawni
- yr hyn y disgwyliwn y bydd angen i chi ei roi ar waith a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld er mwyn gallu bodloni ein hunain bod modd sicrhau canlyniadau allweddol safonau perfformiad y Comisiwn

1.7 Mae'r canllawiau hyn wedi'u hategu gan adnoddau y gellir cael gafael arnynt drwy'r dolenni a geir yn y canllawiau.

1.8 Nid yw'r canllawiau hyn yn cwmpasu eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel Swyddog Canlyniadau Lleol. Mae'r canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gael ar wahân yn www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/electoral-administrator/uk-parliamentary-elections.

1.9 Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

1.10 Os bydd gennych unrhyw gwestiwn am y canllawiau neu unrhyw fater arall yn ymwneud â gweinyddu etholiadau, byddwn ar gael i gynnig cymorth parhaus. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori y tu allan i oriau er mwyn ymdrin ag ymholiadau gweinyddu etholiadau brys yn y cyfnod yn arwain at unrhyw etholiadau a drefnwyd ac yn syth wedyn. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth y tu allan i oriau y byddwn yn ei ddarparu drwy ein Bwletin ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.

2 Rolau a chyfrifoldebau

Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

2.1 Mae gan bob un o'r 11 o ranbarthau etholiadol ym Mhrydain Fawr Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am benodi Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol. Yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fod yn Swyddog Canlyniadau Gweithredol, ac yn yr Alban, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fod yn Swyddog Canlyniadau Senedd y DU.

2.2 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, rydych yn gyfrifol yn bersonol am yr agweddau penodol canlynol ar yr etholiad:

- rhoi rhybudd am unrhyw etholiad Senedd Ewrop
- cynnal y gweithdrefnau enwebu
- annog cyfranogiad
- cyfrifo'r pleidleisiau a roddir ar gyfer pob ymgeisydd unigol a phlaid wleidyddol a dyrannu seddau
- datgan y canlyniad

2.3 Mae Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol am y broses gyffredinol o gynnal etholiad Aelodau Senedd Ewrop ar gyfer eu rhanbarth etholiadol ac am gydgysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn y rhanbarth etholiadol a chydlynu eu gwaith. Mae'r swydd ddisgrifiad a luniwyd gan Swyddfa'r Cabinet at ddibenion recriwtio Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn rhoi trosolwg o'u rôl a'u cyfrifoldebau.

2.4 Chi sy'n atebol yn bersonol am drefn cynnal yr etholiad sy'n ymwneud â'ch rôl a'ch dyletswyddau. Dylech fod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau cadarn os bydd yr etholiad yn cael ei herio.

2.5 Yn ogystal â gweithredu fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, chi hefyd fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer eich ardal gyfrif a bydd angen i chi sicrhau bod gennych yr adnoddau priodol i gyflawni'r ddwy swyddogaeth.

2.6 Mae'n rhaid i chi wneud beth bynnag sy'n angenrheidiol i gynnal etholiad Senedd Ewrop yn eich rhanbarth etholiadol. Gallwch roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i Swyddogion Canlyniadau Lleol dros unrhyw ardal gyfrif o fewn eich rhanbarth ynglŷn â chyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau Senedd Ewrop, gan gynnwys

cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Lleol gymryd camau paratoi penodol neu roi gwybodaeth y maent wedi'i chael neu y mae ganddynt hawl i'w chael i chi. Mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd gennych iddynt. Gallwch roi cyfarwyddiadau sy'n gymwys i bob Swyddog Canlyniadau Lleol, neu dim ond i un neu i rai. Ceir rhagor o ganllawiau ar gyhoeddi cyfarwyddiadau o baragraff **2.21**.

2.7 Gallwch benodi un neu fwy o ddirprwyon i'ch helpu i gynnal yr etholiad. Dylech sicrhau eich bod yn penodi un neu fwy o ddirprwyon i ysgwyddo'ch rôl os na allwch weithredu'n bersonol fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Dylech sicrhau bod unrhyw ddirprwyon a benodir yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddynt. Mae'n ofynnol i chi benodiad unrhyw ddirprwy gennych fod yn ysgrifenedig a chynnwys manylion y swyddogaethau y mae'r dirprwy wedi'i awdurdodi i'w harfer ar eich rhan. Dylai'r dirprwy dderbyn y penodiad yn ysgrifenedig hefyd.

2.8 Er y gallwch benodi un neu fwy o ddirprwyon i gyflawni unrhyw un neu bob un o'ch swyddogaethau, ni allwch ddirprwyo'ch cyfrifoldeb personol am drefn cynnal yr etholiad nac unrhyw agweddau arno yr ydych yn gyfrifol am eu cyflawni.

2.9 Rydych hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau tordyletswydd swyddogol. Mae hyn yn golygu os byddwch chi neu'ch dirprwyon penodedig yn euog o unrhyw weithred neu anweithred sy'n torri dyletswydd swyddogol, heb achos rhesymol, rydych chi (a/neu hwy) yn agored i dalu dirwy anghyfyngedig os cewch eich collfarnu'n ddiannod yng Nghymru a Lloegr neu, yn yr Alban, ddirwy o hyd at £5,000.

2.10 Mae gennych y pŵer i gymryd y cyfryw gamau ag sy'n briodol yn eich barn chi i unioni gweithredoedd neu anweithredoedd sy'n codi mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau'r etholiadau ac nad ydynt yn unol â'r rheolau.

2.11 Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i chi gywiro gwallau gweithdrefnol a wnaed gennych chi, fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddog Cofrestru Etholiadol, Swyddog Llywyddu neu berson sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i chi (neu ddirprwyon neu bobl sy'n cynorthwyo unrhyw un o'r rhain). Mae gan Swyddogion Canlyniadau Lleol yr un pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnau a dylech sicrhau eu bod yn ymgynghori â chi cyn arfer y pŵer hwn.

2.12 Lle rydych chi neu Swyddog Canlyniadau Lleol yn defnyddio'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol ar gyfer yr etholiad hwn, dylech sicrhau bod y gwall a'r cam unioni a gymerwyd yn cael eu hesbonio i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys pleidleiswyr a phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid, lle y bo'n gymwys. Dylech sicrhau eich bod cadw cofnod o'r canlynol:

- unrhyw wallau a nodwyd gan gynnwys beth oedd y gwall a sut y digwyddodd

- effaith y gwall
- unrhyw gyngor a gawsoch chi neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol)
- pa gamau a gymerwyd i gywiro'r gwall, a sut y rhoddwyd gwybod am y rhain

2.13 Lle rydych yn unioni anweithred yn llawn drwy ddefnyddio'r pŵer hwn, ni fyddwch yn euog o drosedd o dorri dyletswydd swyddogol. Dylech gofio nad yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn ei gwneud yn bosibl i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan.

Yswiriant ac indemniad

2.14 Dylech sicrhau bod gennych yswiriant priodol a'ch bod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau cadarn os bydd unrhyw her i'r etholiad a hawliad yn erbyn yr yswiriant hwn.

Eich sgiliau a'ch gwybodaeth

2.15 Dylech feddu ar wybodaeth ymarferol am y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n llywodraethu trefn cynnal yr etholiad. Golyga hyn, yn ogystal â dealltwriaeth glir o'ch swyddogaethau statudol, y dylech fod gennych drosolwg o'r hyn sydd yn y ddeddfwriaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae'n effeithio ar weinyddu'r etholiad, fel y gallwch adolygu'r broses gyfan yn y rhanbarth etholiadol, codi cwestiynau yn ei chylch, lle y bo angen, a sicrhau ei hansawdd. Dylech allu rhoi hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff ac, os bydd angen, eu cyfarwyddo wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.

2.16 Er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol y trefniadau angenrheidiol ar waith i gynnal etholiadau wedi'u trefnu'n dda yn eu hardal, dylech:

- roi arweinyddiaeth i Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth etholiadol, a ddylai gael ei hategu gan gyngor, canllawiau a hyfforddiant yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau y gellir trefnu'r etholiad yn dda a bod pleidleiswyr yn cael gwasanaeth o safon uchel lle bynnag maent yn pleidleisio.

- cydgysylltu a gweinyddu'r gwaith o gynllunio'r etholiad ar lefel rhanbarth etholiadol, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau a safonau perfformiad y Comisiwn Etholiadol

- cymryd yr holl gamau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu'r staff sydd eu hangen arnoch er mwyn cyflawni eich rôl, fel y mae'n rhaid iddo ei wneud o dan y gyfraith

- gorchwylio'r gwaith cynllunio, rheoli prosiect a rheoli risg ar gyfer yr etholiad ar lefel rhanbarth etholiadol

- rhoi canllawiau a chymorth i Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth baratoi a chynnal cynllun prosiect a dull rheoli risg priodol ar gyfer yr etholiad
- sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol y cynlluniau a'r trefniadau angenrheidiol ar waith i gynnal yr etholiadau yn eu hardal gyfrif
- rhoi arweiniad a chymorth i'ch staff, monitro cynnydd a chael adborth rheolaidd ar weithgareddau
- helpu Swyddogion Canlyniadau Lleol i weinyddu'r etholiad a goruchwylio eu gwaith mewn modd priodol
- gweithio gyda'r Comisiwn etholiadol, monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol a nodi a goruchwylio unrhyw gamau sydd eu hangen i liniaru unrhyw faterion sy'n codi
- sicrhau bod eich staff, a Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff hwythau, yn cael hyfforddiant priodol i gyflawni'r rolau y mae angen iddynt eu cyflawni
- sicrhau bod cyfrifon etholiadau yn cael eu cwblhau'n amserol
- cynnal cydberthynas waith effeithiol â'ch Pwynt Cyswllt Unigol

Rheoli'r etholiad

2.17 Bydd agweddau ar y broses etholiadol lle y byddwch yn awyddus iawn i sicrhau cysondeb, yn enwedig yn y meysydd sy'n effeithio ar brofiad y pleidleiswyr – er enghraifft, anfon cardiau pleidleisio a phleidleisiau post, a staffio gorsafoedd pleidleisio – a hefyd mewn perthynas â dilysu a chyfrif pleidleisiau.

2.18 Chi sy'n penderfynu, yn seiliedig ar ffactorau megis eich gwybodaeth, eich profiad a'ch cydberthnasau â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal, a chan ystyried materion cwmpas a graddfa, y ffordd orau o gyflawni'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun etholiadol. Mae'ch pŵer i gyfarwyddo yn un adnodd sydd ar gael i chi ei ddefnyddio, ond chi sy'n penderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddiadau, ar ba faterion, ac i bwy.

2.19 Mae amrywiol adnoddau eraill ar gael i chi er mwyn sicrhau cysondeb. Dylech o leiaf gael prosesau ar waith ar gyfer monitro sut mae Swyddogion Canlyniadau Lleol yn cynllunio ar gyfer yr etholiadau yn eu hardaloedd cyfrif ac yn eu gweinyddu, yn cynnwys sut maent yn ystyried unrhyw gyfarwyddiadau a/neu ganllawiau a roddwyd gennych a ph'un a ydynt yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r amcanion allweddol o safbwynt

pleidleiswyr a'r sawl sydd am sefyll yr etholiad, fel y nodi'r yn y fframwaith safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (gweler **Pennod 3**).

2.20 Dylech o leiaf roi prosesau ar waith ar gyfer monitro'r ffordd y cynhelir yr etholiad drwy'r ardal etholiadol, gan gynnwys cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfarwyddiadau a/neu ganllawiau a roddwyd gennych a safonau perfformiad y Comisiwn. Dylech feddwl am y ffordd y byddwch yn helpu Swyddogion Canlyniadau eraill a gweinyddwyr etholiadol yn yr ardal i reoli'r etholiadau ac unrhyw faterion sy'n codi.

2.21 Bydd y Comisiwn ar gael i'ch cynorthwyo drwy gydol yr etholiad.

2.22 Cewch ddewis rhoi canllawiau ysgrifenedig i Swyddogion Canlyniadau Lleol ar agweddau penodol ar yr etholiad. Er mwyn rheoli'r broses o goladu'r canlyniad yn effeithiol, er enghraifft, dylech roi protocol ar waith ar gyfer trosglwyddo a derbyn cyfansymiau dilysu a chyfrif lleol. Pan fyddwn yn cyfeirio at goladu canlyniad yn ystod y rhan hon, byddwn yn cyfeirio at y broses o goladu cyfansymiau dilysu a chyfrif lleol, yn ogystal â choladu a dyrannu seddi.

2.23 At hynny, dylech drefnu hyfforddiant a/neu sesiynau briffio i Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 3, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff yr etholiad ei gynnal mewn ffordd gyson.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi'r ffordd rydych yn bwriadu sicrhau cysondeb, gan gynnwys a ydych wedi rhoi (neu'n bwriadu rhoi) canllawiau, ac a ydych wedi defnyddio (neu'n bwriadu defnyddio) eich pŵer i roi cyfarwyddiadau a sut rydych wedi gwneud hynny.

Rhoi cyfarwyddiadau

2.24 Fel rhan o'ch proses gynllunio dylech nodi unrhyw agweddau ar yr etholiadau rydych yn bwriadu rhoi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau Lleol mewn perthynas â nhw, ond wrth gwrs efallai y bydd materion yn codi'n ddiweddarach lle y bydd yn ddymunol neu'n angenrheidiol i chi roi cyfarwyddiadau ar fyr rybudd. Dylai eich cynllun etholiadol gynnwys cynlluniau ar gyfer datblygu a rhoi cyfarwyddiadau a strategaeth gyfathrebu i gefnogi hyn, os byddwch yn penderfynu bod angen defnyddio eich pŵer i roi cyfarwyddiadau.

2.25 Os ydych yn ystyried rhoi cyfarwyddiadau neu ganllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol dylech ystyried unrhyw feini prawf perthnasol yn fframwaith safonau perfformiad a/neu ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol. Mae fframwaith safonau perfformiad a chanllawiau'r Comisiwn Etholiadol yn adlewyrchu'r hyn rydym ni a Bwrdd Cynghori Etholiadol y DU wedi cytuno y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau a

chynnal etholiadau wedi'u trefnu'n dda. Dylai sicrhau'r cytundeb hwn, ynghyd â'r hyblygrwydd o ran y ffordd y cyflawnir y safonau, leihau'r risg bosibl o wrthdaro rhwng gofynion y safonau a chanllawiau/cyfarwyddiadau a roddir gan Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol.

2.26 Fodd bynnag, er mwyn i Swyddogion Canlyniadau Lleol fod yn glir ynghylch beth yn union a ddisgwylir ganddynt, os ydych yn bwriadu rhoi unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau sy'n wahanol neu'n groes i feini prawf y safonau, a wnewch chi gysylltu â thîm lleol y Comisiwn yn y lle cyntaf er mwyn trafod y goblygiadau fel y gallwn osgoi hyd y gellir sefyllfa lle y gosodir gofynion croes ar Swyddogion Canlyniadau Lleol nad ydynt wedi'u datrys.

2.27 Wrth benderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd ar agwedd benodol ar yr etholiad, a pha gyfarwyddyd y dylid ei roi, dylech anelu at ymgynghori â'ch Swyddogion Canlyniadau Lleol lle y bo modd, er mwyn i chi ystyried unrhyw ffactorau lleol perthnasol - yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw gyfuniad o ddigwyddiadau pleidleisio mewn unrhyw ardaloedd cyfrif - wrth wneud eich penderfyniadau. Dylai'r ymgynghoriad hwn helpu i leihau'r risg o oblygiadau nas bwriadwyd i unrhyw gyfarwyddiadau a sicrhau gallu Swyddogion Canlyniadau Lleol i gydymffurfio â hwy i'r eithaf.

2.28 Dylid cynllunio ar gyfer unrhyw ymgynghoriad ar gyfarwyddiadau posibl a'i gwblhau mewn da bryd er mwyn sicrhau y gellir rhannu eich penderfyniad yn brydlon ac yn amserol ynghyd ag unrhyw gyfarwyddiadau cysylltiedig i Swyddog Canlyniadau Lleol, er mwyn eu galluogi i gynllunio a pharatoi ar gyfer yr etholiad yn unol â hynny.

2.29 Os penderfynwch arfer eich pŵer i gyfarwyddo, dylech wneud hynny gan ystyried yr egwyddorion canlynol:

- ymddiriedaeth: dylai fod modd i bobl ymddiried yn y ffordd y mae ein hetholiadau yn gweithio
- cyfranogi: dylai fod yn syml i bobl gyfranogi yn ein hetholiadau (boed hynny fel ymgyrchwyr, ymgeiswyr neu bleidleiswyr) a dylai pobl fod yn ffyddiog bod eu pleidlais yn cyfrif
- cysondeb drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan: bod pleidleiswyr a'r sawl sy'n sefyll etholiad yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson
- tryloywder: hyder y caiff y broses ei rheoli'n dda, a hyder yn y canlyniadau
- proffesiynoldeb: dylai fod prosesau rheoli prosiect cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod paratoadau digonol wedi'u gwneud cyn yr etholiad, gyda risgiau wedi'u nodi ac wedi'u rheoli'n briodol, fel y gellir cynnal yr etholiad mewn ffordd effeithiol

2.30 Dylech hysbysu Swyddogion Canlyniadau Lleol am unrhyw gyfarwyddiadau cyn gynted â phosibl. Dylech gadw cofnod o'r cyfarwyddiadau a roddwyd, pryd, ac i bwy.

2.31 Dylech sicrhau eich bod yn rhoi trefniadau ar waith er mwyn monitro cydymffurfiaeth Swyddogion Canlyniadau Lleol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwch iddynt. Dylai eich cynlluniau ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau ystyried y ffaith y gall amgylchiadau godi lle na all Swyddogion Canlyniadau Lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd, am ba reswm bynnag y bo. Felly dylech sicrhau eich bod yn datblygu cynlluniau i ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn, a all gynnwys sefydlu proses o ystyried ceisiadau i eithrio rhag eich cyfarwyddiadau Dylech gadw cofnod o unrhyw enghreifftiau lle rydych wedi cytuno y gall Swyddog Canlyniadau Lleol wyro oddi wrth gyfarwyddyd.

Digwyddiadau cyfunol

2.32 Mae deddfwriaeth yn nodi'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i'r bleidlais ar gyfer etholiad Senedd Ewrop gael ei chyfuno â'r bleidlais ar gyfer etholiadau a refferenda eraill neu lle y gallai hynny ddigwydd. Yn achos cyfuno â'r bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu **yn unig**, Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu dros etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fydd yn cyflawni'r swyddogaethau cyfunol. Ym mhob achos arall, y Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif ar gyfer un o'r digwyddiadau pleidleisio eraill fydd yn cyflawni'r swyddogaethau hyn. Yn y rhannau hynny o Loegr lle mae etholiad Senedd Ewrop wedi'i gyfuno â'r bleidlais ar gyfer etholiad llywodraeth leol, bydd y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol yn gyfrifol am elfennau cyfunol y bleidlais, gan gynnwys:

- darparu gorsafoedd pleidleisio
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- cyfarpar gorsafoedd pleidleisio
- hysbysiad gofynion cyfrinachedd gorsafoedd pleidleisio
- llofnodi tystysgrifau cyflogaeth ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio sy'n caniatáu iddynt bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi, yn hytrach na'r un a ddyrannwyd ar eu cyfer
- yr awdurdod i orchymyn bod pobl yn gadael gorsafoedd pleidleisio
- cadarnhau pob papur pleidleisio
- lle y penderfynwyd cyfuno'r broses o anfon pleidleisiau post: -
  - y rhestr rhifau cyfatebol

- y broses o ddosbarthu pleidleisiau post yn cynnwys creu copi o'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post a'i marcio pan y'i hanfonir

- wrth agor pleidleisiau post yn cynnwys marcio datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd ar y rhestrau a dilysu'r dynodwyr personol ar y datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd

2.33 Os yw'r bleidlais ar gyfer etholiad Senedd Ewrop wedi'i chyfuno â'r bleidlais ar gyfer etholiad neu refferendwm arall, bydd y rhan fwyaf o'ch cyfrifoldebau fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn aros yr un fath. Bydd y prif wahaniaethau yn deillio o'r gwahaniaethau i gyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau Lleol, fel y nodir uchod, a fydd yn eu tro yn effeithio ar y broses o roi cyfarwyddiadau ac mewn perthynas â dilysu a chyfrif pleidleisiau. Lle y ceir gwahaniaethau, cânt eu hegluro yn y rhannau perthnasol o'r canllawiau hyn.

2.34 Dylech ystyried, wrth i bob rhanbarth etholiadol gwmpasu nifer o ardaloedd cyfrif, y gall fod rhai mannau o fewn y rhanbarth etholiadol lle caiff y bleidlais ar gyfer etholiad Senedd Ewrop ei chyfuno â phleidlais arall/phleidleisiau eraill, a mannau eraill lle na fydd hyn yn digwydd. Dylech sicrhau bod eich cynlluniau ar gyfer yr etholiad yn ystyried y potensial ar gyfer y sefyllfa hon, yn benodol mewn perthynas â'ch cynlluniau ar gyfer dilysu a chyfrif y pleidleisiau (**ceir rhagor o wybodaeth am y broses dilysu a chyfrif ym Mhennod 7**).

Pŵer i roi cyfarwyddiadau mewn digwyddiadau pleidleisio cyfunol

2.35 Y prif wahaniaeth lle caiff digwyddiadau pleidleisio eu cyfuno a lle nad oes gan y Swyddog Canlyniadau Lleol unrhyw swyddogaethau cyfunol yw mewn perthynas â'ch pŵer i roi cyfarwyddiadau. Yn y sefyllfa hon, dim ond mewn perthynas â'r agweddau hynny ar weinyddu etholiad Senedd Ewrop y maent hwy yn gyfrifol amdanynt y gallwch arfer eich pŵer i gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Lleol, sy'n cynnwys argraffu papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau. Nid yw eich pŵer i gyfarwyddo yn gymwys i'r swyddogaethau hynny nad yw'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yn ymgymryd â hwy.

2.36 Dylech sicrhau, pan fyddwch yn penderfynu ar unrhyw gyfarwyddiadau rydych yn bwriadu eu rhoi, ac wrth gyfathrebu'r cyfarwyddiadau hynny, eich bod wedi ystyried p'un a yw'r cyfarwyddyd yn gymwys mewn ardaloedd lle mae digwyddiadau pleidleisio wedi'u cyfuno, ac ym mha ffordd y mae'n gymwys, yn cynnwys p'un a fydd angen i chi roi cyfarwyddiadau gwahanol i Swyddogion Canlyniadau Lleol yn yr ardaloedd hynny. Dylech egluro pan fyddwch yn rhoi unrhyw gyfarwyddiadau p'un a ydynt yn gymwys mewn amgylchiadau lle mae digwyddiadau pleidleisio wedi'u cyfuno, ac ym mha ffordd y maent yn gymwys.

Swyddog Canlyniadau Lleol

2.37 Penodir Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer pob ardal gyfrif (h.y. ar gyfer pob ardal awdurdod lleol) yn y rhanbarth etholiadol. Mae'r broses o benodi Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yn llifo'n awtomatig o'r broses o gael eu penodi yn Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn yr ardal awdurdod lleol honno.

2.38 Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n bersonol gyfrifol am weinyddu'r etholiad yn eu hardal gyfrif ac wrth wneud hynny, ac wrth gyflawni'r swyddogaethau y maent yn gyfrifol amdanynt yn benodol, dylent ystyried unrhyw arweiniad a roddir gennych, a rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gennych. Mae'r swyddogaethau y maent yn gyfrifol amdanynt yn cynnwys:

- trefn cynnal yr etholiad
- argraffu'r papurau pleidleisio, oni fyddwch yn dweud yn wahanol
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau

2.39 Lle caiff y bleidlais mewn etholiad Senedd Ewrop ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad neu refferendwm arall, ni fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am gyflawni elfennau cyfunol y bleidlais.

Mae rhagor o wybodaeth am swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddog Canlyniadau Lleol Senedd Ewrop ar gael yn Rhan A – Rôl a chyfrifoldebau Swyddog Canlyniadau o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn etholiad Senedd Ewrop ar 22 Mai 2014 lle mae'r bleidlais wedi'i chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol.

Swyddog Cofrestru Etholiadol

2.40 Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am gynnal y gofrestr o etholwyr a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer ei ardal awdurdod lleol ac fel arfer mae'n uwch swyddog yn yr awdurdod lleol a gall fod yn Swyddog Canlyniadau hefyd.

3 Safonau perfformiad

3.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn pennu safonau ac yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau. Mae'r safonau perfformiad sy'n gymwys i'r digwyddiadau pleidleisio hyn ar gael yn Atodiad A – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau.

3.2 Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y canlyniadau allweddol o safbwynt pleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad, ac yn arbennig p'un a yw Swyddogion Canlyniadau yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Gall pobl fwrw eu pleidlais yn hawdd ac maent yn gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli

3.3 Mae'r fframwaith yn cynnwys safon sy'n ymdrin yn benodol â rôl deiliaid swydd statudol sydd â phŵer cyfarwyddo, megis Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, ac yn canolbwyntio ar y gwaith o gydgysylltu a rheoli'r etholiad. Mae elfennau o safonau perfformiad 1 a 2 – sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y ffordd y cynllunnir ar gyfer yr etholiad a'r ffordd y'i cynhelir yn galluogi pleidleiswyr i bleidleisio'n hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt ac yn galluogi pobl sydd am sefyll etholiad i gael gwybod sut i gymryd rhan a chydymffurfio â'r rheolau – hefyd yn gymwys i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol.

3.4 Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r hyn y disgwyliwn y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ei roi ar waith a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld er mwyn gallu bodloni ein hunain bod modd sicrhau canlyniadau allweddol y safonau.

4 Gwaith cynllunio a threfnu

4.1 Rydych yn gyfrifol am gyd-drefnu'r gwaith cynllunio ar gyfer etholiad a chynnal etholiad ledled y rhanbarth etholiadol er mwyn sicrhau profiad cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad.

4.2 Amcan allweddol rhoi prosesau prosiect a rheoli risg ar waith yw sicrhau bod paratoadau digonol wedi'u gwneud cyn yr etholiad, gyda risgiau wedi'u nodi ac wedi'u rheoli'n briodol, fel y gellir cynnal yr etholiad mewn ffordd effeithiol. Dylech nodi yr hyn rydych am ei gyflawni a sut beth fydd llwyddiant i chi, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr amcanion a'r mesurau o lwyddiant a nodir yn eich cynllun prosiect. Dylech rannu eich amcanion â'ch mesurau o lwyddiant â Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn eu galluogi i'w hadlewyrchu yn eu cynlluniau prosiect eu hunain.

Cynllun prosiect

4.3 Dylech baratoi cynllun prosiect, ei drin fel 'dogfen fyw' a'i adolygu'n rheolaidd, gan ei ddefnyddio i fonitro cynnydd ac i lywio'r broses o ddatblygu eich adroddiad ar yr hyn a ddysgwyd.

4.4 Dylech sicrhau bod eich gwaith cynllunio yn cefnogi'r broses o sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- gall pobl fwrw eu pleidlais yn hawdd ac maent yn gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd
- mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 3, bydd angen i chi ddatblygu prosesau rheoli prosiect cadarn a'u rhoi ar waith. Dylai hyn gynnwys gwerthuso gwaith cynllunio etholiadau blaenorol a'r ffordd y cawsant eu cynnal a nodi gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddaru cynlluniau yn ôl yr angen. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi dogfennaeth cynllunio prosiect ar waith a'i hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn nodi'r hyn y dylai'r ddogfennaeth cynllunio prosiect hon ei gwmpasu.

Mae'r Comisiwn wedi paratoi templed ar gyfer cynllun prosiect y byddwch o bosibl yn awyddus i'w ddefnyddio a'i addasu yn unol â'ch amgylchiadau lleol. Mae'r templed yn cynnwys nifer o enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gyflawni a thasgau gan gynnwys pob un o'r rhai y dylid eu cynnwys er mwyn gallu dangos bod modd sicrhau'r canlyniadau a nodwyd yn y safonau perfformiad.

Yn ogystal â'r hyn a nodwyd yn y templed dylech hefyd ychwanegu unrhyw bethau y gellir eu cyflawni a thasgau eraill y byddwch yn nodi eu bod yn angenrheidiol, gan gynnwys rhai sy'n benodol ar gyfer amgylchiadau'ch rhanbarth etholiadol.

4.5 Mae'r Comisiwn wedi cynnig rhai nodau enghreifftiol ac adnoddau a awgrymir a fydd yn eich galluogi i fesur i ba raddau y mae trefn cynnal yr etholiad wedi bod yn llwyddiannus fel rhan o dempled y cynllun prosiect.

4.6 Dylech nodi unrhyw wersi perthnasol a ddysgwyd o etholiadau tebyg blaenorol, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys agwedd rheoli rhanbarthol – a ddylai helpu i lywio eich gwaith cynllunio. Os nad ydych wedi cynnal etholiad sy'n cynnwys elfen o gydgysylltu rhanbarthol o'r blaen, dylech ystyried sut y gallwch ddysgu o brofiad pobl eraill sydd wedi ymgymryd â'r rôl hon.

4.7 Dylai eich cynllun prosiect gynnwys cynllun i werthuso gweithdrefnau ôl-etholiadol a nodi gwersi a ddysgwyd. Ceir canllawiau ar adolygu gweithdrefnau etholiad ym **Mhennod 8: Ar ôl datgan y canlyniad.**

4.8 Dylai eich cynllun prosiect gwmpasu trefniadau cynllunio wrth gefn a pharhad busnes. Dylai'r trefniadau parhad gynnwys darpariaethau ar gyfer colli staff a cholli lleoliadau yn ystod cyfnod yr etholiad.

4.9 Dylai eich cynllun prosiect hefyd nodi'r adnoddau a'r staff sydd eu hangen. Dylech gymryd yr holl gamau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen arnoch er mwyn cyflawni'ch rôl, fel y mae'n rhaid iddo ei wneud o dan y gyfraith. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi amserlen yn cynnwys y dyddiadau cau statudol fel y'u nodir yn y rheolau etholiadol y gellir eu defnyddio i'ch helpu gyda'ch gwaith cynllunio.

Cofrestr risg

4.10 Dylech baratoi cofrestr risg, ei thrin yn 'ddogfen fyw' a'i hadolygu'n rheolaidd, gan ei defnyddio i fonitro'r risgiau a dogfennu unrhyw newidiadau mewn risg, yn ogystal â sicrhau bod camau lliniaru yn cael eu nodi a'u cymryd, gan gynnwys gan Swyddogion Canlyniadau Lleol fel y bo'n briodol. Dylai eich cofrestr risg ystyried risg a rheoli risg mewn perthynas â'ch swyddogaethau fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ynghyd ag unrhyw risgiau allweddol sy'n berthnasol i'r broses o weinyddu'r etholiad drwy'r rhanbarth etholiadol. Dylid nodi difrifoldeb unrhyw risg gan nodi'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg pe bai'n digwydd.

4.11 Wrth ddatblygu'ch cofrestr risg, dylech sicrhau eich bod yn cydgysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol a gofyn am eu sylwadau fel y bo angen, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau a nodwyd gennych a all effeithio'n uniongyrchol ar yr etholiad yn eu hardal bleidleisio, yn ogystal ag unrhyw gamau lliniaru y maent yn gyfrifol amdanynt.

4.12 Mae'r Comisiwn wedi datblygu templed ar gyfer cofrestr risg y gallwch ei ddefnyddio o bosibl. Mae'r templed yn rhoi rhai risgiau enghreifftiol ac awgrymiadau ar gyfer lliniaru'r risgiau hynny. Yn ogystal â'r risgiau a nodir yn y templed, dylech nodi unrhyw risgiau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n benodol i'ch rhanbarth etholiadol, a sut y byddech yn eu lliniaru.

Staffio

4.13 Dylech sefydlu tîm prosiect er mwyn eich helpu i gyflawni'ch swyddogaethau fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Dylai'r tîm prosiect gynnwys y staff allweddol perthnasol i'ch helpu ym mhob swyddogaeth benodol.

4.14 Ar wahân i chi, dylai eich tîm prosiect gynnwys:

- Swyddogion Canlyniadau eraill yn y rhanbarth etholiadol
- os nad y Swyddog Canlyniadau lleol yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, y Swyddog hwnnw
- unrhyw ddirprwyon a benodir
- aelodau eraill o staff etholiadol
- unrhyw aelodau allweddol eraill o staff sy'n briodol yn eich barn chi (er enghraifft, cydweithwyr o dîm cyfathrebu eich cyngor neu eich Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC) lleol).

4.15 Dylid cadw cofnod o bob cyfarfod fel trywydd archwilio o'r hyn a drafodwyd ac o unrhyw benderfyniadau a wnaed.

Cynnal uniondeb yr etholiad

4.16 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr ac ymgeiswyr fod yn ffyddiog y bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw a'u cyfrif yn y ffordd a fwriadwyd gan bleidleiswyr, bydd angen i chi roi cynlluniau a phrosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau o weithgarwch a allai fod yn arwydd o dwyll etholiadol posibl. Dylai eich cynlluniau gynnwys camau penodol i nodi ac ymdrin ag unrhyw achos posibl o dwyll etholiadau, a dylent hefyd nodi sut y byddwch yn rhoi gwybod am y ffordd y byddwch yn cynnal uniondeb yr etholiad er mwyn ennyn hyder y cyhoedd yn yr etholiad.

4.17 Dylech roi arweiniad ar faterion sy'n ymwneud ag uniondeb er mwyn i un cynllun uniondeb gael ei baratoi i ranbarth etholiadol mewn trafodaeth â'r heddlu a phob Swyddog Canlyniadau Lleol er mwyn ychwanegu at eich cynllun prosiect cyffredinol. Dylai cynlluniau uniondeb y Swyddogion Canlyniadau Lleol eu hunain gydweddu â chynllun y rhanbarth etholiadol a chynnwys unrhyw faterion a nodwyd yn lleol ganddynt. Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â phob un o'r ardaloedd

cyfrif yn y rhanbarth etholiadol cyfan, gan gynnwys ystyried honiadau blaenorol o dwyll etholiadol a'r risg o honiadau o dwyll etholiadol mewn perthynas ag etholiadau eraill sy'n digwydd ar yr un diwrnod ag etholiadau Senedd Ewrop.

4.18 Dylech hefyd rannu'r ffordd rydych yn bwriadu mynd i'r afael â thwyll etholiadol â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid mewn sesiynau briffio a/neu yn y wybodaeth a roddir iddynt ac ystyried gwahodd yr heddlu i fynychu sesiynau briffio o'r fath, lle y bo'n briodol. Mewn rhai achosion, lle y ceir risg sylweddol o honiadau o dwyll etholiadol, dylech hefyd ystyried cyfleu'r ffordd rydych yn bwriadu mynd i'r afael â thwyll yn fwy cyffredinol cyn dydd yr etholiad er mwyn rhoi sicrwydd i bleidleiswyr ac ymgyrchwyr.

4.19 Ar ôl ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau, heddluoedd a phleidiau gwleidyddol, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr yn ystod etholiadau a refferenda. Mae'r Cod yn gymwys i bob ymgyrchwr, ac mae'n nodi safonau ymddygiad priodol y cytunwyd arnynt cyn ac yn ystod etholiad neu refferendwm. Mae'r Cod hefyd yn ei gwneud yn glir, os bydd Swyddog Canlyniadau yn ystyried ei bod yn briodol mynd i'r afael â risgiau lleol penodol eraill, ac wedi ymgynghori â phleidiau cenedlaethol a lleol perthnasol, y byddwn yn ei helpu i gyflwyno darpariaethau lleol ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i delerau'r Cod y cytunwyd arno'n genedlaethol.

4.20 Dylech sefydlu a chynnal cysylltiadau â'r heddlu ar lefel briodol. Bydd swyddog yr heddlu sy'n gweithredu fel y Pwynt Cyswllt Unigol yn gallu rhoi manylion cyswllt i chi am yr uned reoli neu arwain berthnasol yn yr heddlu, a bydd hefyd yn gallu esbonio unrhyw strwythur rhanbarthol yn yr heddlu os yw hynny'n briodol. Dylech sicrhau eich bod yn cael manylion cyswllt unrhyw Bwyntiau Cyswllt Unigol rhanbarthol, a sicrhau bod y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal yn trefnu i fod mewn cysylltiad rheolaidd â hwy.

Ceir canllawiau manylach ar gynnal uniondeb yr etholiad, gan gynnwys ymdrin â honiadau o dwyll etholiadol yn Rhan B – Cynllunio a threfnu ein canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Cyfathrebu

4.21 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol bydd angen i chi roi cynlluniau cyfathrebu ar waith er mwyn helpu i gynnal yr etholiad. Dylai'r cynlluniau hyn eich helpu i gydgysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol a chyd-drefnu eu gwaith yn effeithiol er mwyn sicrhau y caiff yr etholiad ei gynnal mewn ffordd gyson drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan, ac i reoli'r broses o gydgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cysylltu â'r cyfryngau.

4.22 Wrth ddatblygu eich cynlluniau cyfathrebu, dylech ystyried a dogfennu'r canlynol:

- ymgynghori a rhoi canllawiau a chyfarwyddiadau

- lledaenu gwybodaeth
- monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol
- cyfleu eich cynlluniau ar gyfer y prosesau rydych yn gyfrifol amdanynt (fel enwebiadau a choladu'r canlyniad)
- cydgysylltu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- rhoi cyngor a chymorth i Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff, ac ymdrin ag ymholiadau ganddynt.

4.23 Dylid adlewyrchu eich cynlluniau cyfathrebu yn eich cynllun prosiect.

4.24 Dylech drafod opsiynau a materion gyda Swyddogion Canlyniadau lleol o bob rhan o'r rhanbarth etholiadol, gyda'r nod o gael consensws, lle y bo modd, ynglŷn â'r penderfyniadau y mae angen i chi eu gwneud er mwyn cynnal yr etholiad a chyflawni'r amcanion a'r mesurau o lwyddiant a nodwyd. Dylid cadw cofnod fel trywydd archwilio o'r hyn a drafodwyd ac o unrhyw benderfyniadau a wnaed.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 3, bydd angen i chi ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u rhoi ar waith. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau Lleol ar waith.

Codi ymwybyddiaeth

4.25 Mae'n rhaid i chi gymryd y cyfryw gamau ag sy'n briodol, yn eich barn chi, i annog etholwyr i gymryd rhan yn yr etholiad, ac wrth ymgymryd â'r cyfryw weithgarwch mae'n rhaid i chi ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan y Comisiwn Etholiadol. Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech fynd ati i arwain y gwaith o hyrwyddo a rhannu arfer da a chydgysylltu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth drwy'r rhanbarth etholiadol.

4.26 Dylai eich gwaith cynllunio ystyried yr angen i weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth etholiadol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch codi ymwybyddiaeth yn lleol ac yn rhanbarthol wedi'i gydgysylltu a bod negeseuon clir a chyson yn cael eu cyfleu'n effeithiol i etholwyr.

4.27 Wrth gynllunio gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn eich rhanbarth etholiadol dylech ystyried a dogfennu'r canlynol:

- nodi'ch cynulleidfa darged
- amcanion a mesurau o lwyddiant y gweithgarwch
- risgiau – nodi a lliniaru

- adnoddau – ariannol a staffio

4.28 Dylech lunio rhwydwaith cyfathrebu sy'n cynnwys cynrychiolydd i bob Swyddog Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth er mwyn rhannu gwybodaeth a chydgysylltu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan. Gall y rhwydwaith hwn hefyd gael ei ddefnyddio er mwyn helpu i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw wybodaeth ynglŷn ag agweddau penodol ar yr etholiad, megis cyfrif pleidleisiau neu ddatgan canlyniadau, neu faterion sy'n codi, er enghraifft honiadau o dwyll etholiadol neu gamymddwyn, mewn ffordd effeithiol a chyson drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 3, bydd angen i chi ddatblygu strategaeth ar gyfer cydgysylltu a chyflawni gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r rhanbarth cyfan. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi strategaeth ar waith ar gyfer cydgysylltu a chyflawni gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r rhanbarth cyfan.

Gwybodaeth i etholwyr

4.29 Er mwyn cyfleu gwybodaeth i etholwyr yn effeithiol dylech ystyried pwy rydych am ei gyrraedd drwy'ch gweithgarwch codi ymwybyddiaeth a'r dull cyfathrebu i'w ddefnyddio. Dylech ofyn am gyngor staff perthnasol yn eich awdurdod lleol a cheisio eu barn.

4.30 Mae 'gwybodaeth' yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar etholwyr er mwyn cymryd rhan yn llwyddiannus. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- yr etholiad ei hun
- y dyddiad ac oriau pleidleisio
- lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- unrhyw ddyddiadau cau allweddol (e.e. dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais am bleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy)
- sut i bleidleisio (h.y. sut i farcio'r papur(au) pleidleisio)
- pa gymorth sydd ar gael i etholwyr (e.e. gwybodaeth i bleidleiswyr anabl)
- sut a phryd y caiff pleidleisiau eu cyfrif
- sut y caiff y canlyniad ei gyhoeddi

4.31 Dylech hefyd sicrhau bod yr holl ohebiaeth a anfonir yn cynnwys manylion cyswllt priodol fel y gall unrhyw un ymateb a chael rhagor o wybodaeth. Dylech ystyried y manylion cyswllt mwyaf perthnasol ym mhob

achos, gan weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff yn ôl yr angen.

4.32 Efallai y bydd y cyhoedd yn gwneud ymholiadau hefyd a bydd angen i chi ystyried sut y gellir ymdrin ag ymholiadau o'r fath mewn ffordd gyson. Gallech, er enghraifft, ystyried datblygu ymatebion y cytunwyd arnynt i gwestiynau cyffredin i staff rheng flaen. Rydym wedi datblygu Cwestiynau Cyffredin, sydd hefyd yn cynnwys Cwestiynau ac Atebion mewn perthynas ag etholiadau Senedd Ewrop.

Bydd y Comisiwn yn darparu templedi ac adnoddau ar ein gwefan i'ch helpu i ddarparu gwybodaeth am etholiadau. Felly, gallwch hefyd gofrestru ar gyfer Y Gofrestr, cylchlythyr cofrestru pleidleiswyr y Comisiwn, er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am pa adnoddau y byddwn yn eu darparu.

Mae tudalen cwestiynau cyffredin ar Dy Bleidlais Di hefyd, y dylid cyfeirio pobl ati, er enghraifft, drwy roi dolen o'ch tudalennau gwe i wefan Dy Bleidlais Di.

Cysylltu â'r cyfryngau

4.33 Dylech sicrhau bod cydgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid wedi'i ymgorffori drwy gydol eich proses gynllunio, gyda threfniadau penodol ar waith i weithio gyda'r cyfryngau, a ddylai gynnwys:

- cynlluniau ar gyfer cydgysylltu gweithgarwch cysylltu â'r cyfryngau o fewn y rhanbarth etholiadol, a strategaethau ar gyfer ymdrin â chyfathrebu rhagweithiol a hefyd gysylltu â'r cyfryngau mewn perthynas â digwyddiadau penodol megis cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniadau.
- ymdrin ag ymholiadau cyffredinol gan y cyfryngau
- ymdrin yn adweithiol ag unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â'r etholiad, er enghraifft honiadau o dwyll etholiadol neu gamymddwyn

4.34 Mae'n bwysig y caiff gweithgarwch cyfathrebu â'r cyfryngau ei reoli mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan er mwyn cynnal hyder y cyhoedd bod yr etholiad yn cael ei drefnu'n dda. Er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol dylai fod proses glir ar waith i'r rhanbarth etholiadol sy'n cael ei dilyn gennych chi, Swyddogion Canlyniadau Lleol a'ch timau cyfathrebu priodol er mwyn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

Cyfathrebu yn y prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau

4.35 Bydd cyfathrebu da, mewn sesiynau briffio ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid a'r cyfryngau cyn ac yn ystod y prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau, yn galluogi'r rhai sy'n bresennol i graffu'n briodol ar yr holl weithrediadau, a bydd hyn yn helpu i fagu hyder

bod y canlyniad yn gywir. Gall rhoi gwybodaeth am y prosesau i'w dilyn hefyd helpu i leihau nifer yr ymholiadau a geir gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid a'r cyfryngau a phobl eraill sy'n bresennol.

4.36 Mae ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol Rhan D: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau yn cwmpasu'r wybodaeth y dylid ei rhoi yn y broses dilysu a chyfrif, a ffyrdd y gellid gwneud hynny. Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, mae hefyd angen i chi ystyried sut i sicrhau cysondeb a thryloywder yn y rhanbarth etholiadol cyfan o ran y wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses dilysu a chyfrif a phryd a sut y caiff ei chyfathrebu, gan ystyried sut y trefnir y prosesau hyn yn y rhanbarth etholiadol cyfan.

Arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn

4.37 Mae gan arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn yr hawl i arsylwi ar y canlynol:

- anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post
- y bleidlais
- cyfrif y pleidleisiau, yn cynnwys y cyfrifiad o'r canlyniad

4.38 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn yr hawl hefyd i arsylwi ar y prosesau hyn ac, yn ogystal â hynny, mae ganddynt yr hawl i arsylwi ar eich arferion gwaith.

4.39 Nid oes angen i arsylwyr achrededig na chynrychiolwyr y Comisiwn roi rhybudd ymlaen llaw ynghylch ble y bwriadant arsylwi, ond bydd ganddynt gerdyn adnabod â ffotograff a roddwyd gan y Comisiwn.

4.40 Dylech gynnwys yn eich cynllun prosiect brosesau i reoli ymholiadau posibl gan arsylwyr a'u helpu i fod yn bresennol yn y prosesau etholiadol y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddynt.

4.41 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylai hyn gynnwys gwneud trefniadau er mwyn sicrhau y caiff arsylwyr wybodaeth am leoliad ac amseru'r cyfrifiad o'r canlyniad fel sy'n briodol.

4.42 Gallwch gyfyngu ar nifer yr arsylwyr achrededig a all fod yn bresennol yn y broses coladu'r canlyniadau ar y tro. Fodd bynnag, ni allwch wahardd arsylwyr achrededig rhag bod yn bresennol yn y broses coladu'r canlyniadau, na phennu uchafswm nifer yr arsylwyr achrededig a all fod yn bresennol yn unrhyw ran o'r broses etholiadol y mae hawl ganddynt i'w harsylwi. Ni ddylech gyfyngu mynediad i unrhyw ran o'r broses etholiadol gan gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol.

4.43 Os bydd gennych unrhyw amheuon ynglŷn â statws unigolyn penodol sy'n ceisio cael mynediad i brosesau etholiadol, gallwch edrych ar y rhestrau o arsylwyr ar wefan y Comisiwn am gadarnhad.

4.44 Rhaid i chi ystyried Cod Ymarfer y Comisiwn i arsylwyr wrth reoli presenoldeb arsylwyr. Bydd arsylwyr wedi cytuno i gydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yng Nghod Ymarfer y Comisiwn. Os credwch fod y Cod Ymarfer wedi cael ei dorri, rhowch wybod i swyddfa leol y Comisiwn.

Ceir canllawiau manylach ar arsylwyr yn Rhan B – Cynllunio a threfnu ein canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol.

5 Enwebiadau

Dyddiadau cau etholiadol yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr

O ganlyniad i ŵyl y banc yn Gibraltar ar 29 Ebrill ac ar 1 Mai 2019, mae rhai dyddiadau cau etholiadol yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr yn wahanol i'r dyddiadau cau ar gyfer gweddill Prydain Fawr. Yn yr achos hwn, rydym wedi cynnwys dyddiad cau De-orllewin Lloegr mewn cromfachau ynghyd â'r dyddiad cau ar gyfer gweddill Prydain Fawr.

5.1 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, chi sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y broses enwebu mewn etholiad Senedd Ewrop, a dylai eich cynllun prosiect gynnwys cynlluniau i gyflwyno'r broses enwebiadau. Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar eich rôl a'ch dyletswyddau yn ystod y cyfnod enwebu.

Canllawiau i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid

5.2 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech sicrhau bod eich gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl sydd am sefyll etholiad i gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau hyn, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli.

5.3 Bydd angen i chi weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal er mwyn cydgysylltu ymgysylltiad ag ymgeiswyr ac asiantiaid yn lleol ac ar lefel rhanbarth etholiadol fel y gall pob un sydd am sefyll etholiad gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan, yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol. Dylai eich cynllun prosiect gynnwys cynlluniau ar gyfer ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantiaid.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy sicrhau y rhoddir canllawiau ysgrifenedig iddynt. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi canllawiau ysgrifenedig ar waith i'w rhoi i ymgeiswyr.

Canllawiau ar derfynau gwario

5.4 Mae'n ofynnol i bleidiau ac ymgeiswyr ddilyn rheolau penodol o ran faint y gallant ei wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gofnodi ar ôl yr etholiad.

5.5 Dylech sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad, fel sy'n briodol, yn cael gwybodaeth am y terfyn treuliau, ffurflenni gwariant a datganiadau er mwyn eu galluogi i fodloni gofynion adrodd.

5.6 Mae'r Comisiwn wedi llunio canllawiau ar wariant a rhoddion i ymgeiswyr ac asiantiaid ac i bleidiau gwleidyddol y gallwch eu defnyddio i roi gwybodaeth am ffurflenni gwariant a datganiadau i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd.

Canllawiau ar y broses etholiadol

5.7 Dylech sicrhau y caiff ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad ganllawiau ysgrifenedig ar y broses etholiadol, gan gynnwys trefniadau lleol. Dylai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn da bryd er mwyn galluogi ymgeiswyr ac asiantiaid i weithredu arni.

5.8 Diben darparu canllawiau ysgrifenedig yw sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn gallu cael gafael ar ganllawiau awdurdodol a chynhwysfawr er gwybodaeth unrhyw bryd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn etholiad. Nid oes rhaid i ganllawiau ysgrifenedig o'r fath gael eu llunio ar ffurf copi caled bob tro – mewn rhai achosion gall fod yn briodol rhoi dolen i ymgeiswyr ac asiantiaid lle gallant ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ar-lein – a mater i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ym mhob achos fydd sicrhau y gall ymgeiswyr gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd a gwneud beth bynnag sydd ei angen i hwyluso hyn.

5.9 Fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid a'u helpu i gymryd rhan yn yr etholiad, gan weithio gyda'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal, bydd angen i chi benderfynu sut y caiff gwybodaeth am drefniadau lleol ei darparu i ymgeiswyr.

5.10 Bydd trefniadau lleol yn cynnwys manylion gan Swyddogion Canlyniadau Lleol gan gynnwys eu manylion cyswllt a gwybodaeth am y dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliadau ar gyfer y prosesau etholiadol allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- dosbarthu ac agor pleidleisiau post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif pleidleisiau

5.11 Gallech benderfynu coladu a lledaenu gwybodaeth leol yn ganolog, neu gynghori ymgeiswyr ac asiantiaid i gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol yn uniongyrchol. Pa ddull bynnag a ddewiswch, dylech sicrhau y gall ymgeiswyr ac asiantiaid gael gafael ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn yr etholiad.

5.12 Dylech baratoi pecyn enwebu ar gyfer unrhyw blaid wleidyddol neu unigolyn sy'n mynegi diddordeb mewn sefyll etholiad.

5.13 Dylai'r pecyn enwebu ar gyfer pleidiau gwleidyddol gynnwys y canlynol:

- ffurflen enwebu
- ffurflen ar gyfer rhoi enwau'r ymgeiswyr ar y rhestr plaid
- ffurflenni cydsynio ag enwebiad
- ffurflen fel y gall y blaid ofyn am ddefnyddio arwyddlun
- manylion am sut y dylai'r ernes gael ei thalu, gan gynnwys dulliau o dalu a dderbynnir
- ffurflen i blaid sy'n sefyll mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol roi hysbysiad o benodiad yr asiant etholiad cenedlaethol
- ffurflen i blaid sy'n sefyll mewn un rhanbarth etholiadol yn unig roi hysbysiad o benodiad asiant etholiad
- ffurflenni i roi hysbysiad o benodiad unrhyw is-asiantiaid
- ffurflenni i roi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio, asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid cyfrif i Swyddogion Canlyniadau Lleol
- canllawiau ysgrifenedig i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn cwmpasu agweddau allweddol ar y broses etholiadol, gan gynnwys cymhwyso ac anghymhwyso ar gyfer etholiad, y broses enwebu, beth y dylid ac na ddylid ei wneud wrth ymgyrchu, cael gafael ar drafodion etholiadol a'r hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi
- manylion am sut i gael copi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau'r pleidleiswyr absennol ar gyfer pob ardal gyfrif yn y rhanbarth etholiadol, a ffurflenni i wneud y fath geisiadau
- gwybodaeth am derfynau gwariant ymgeiswyr a phleidiau yn yr etholiad a chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid a phleidiau gwleidyddol ar wariant a rhoddion
- gwybodaeth am drefniadau lleol
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall

5.14 Dylai'r pecyn enwebu ar gyfer ymgeiswyr unigol gynnwys y canlynol:

- ffurflen enwebu

- ffurflen cydsynio i'r enwebu
- manylion am sut y dylai'r ernes gael ei thalu, gan gynnwys dulliau o dalu a dderbynnir
- ffurflen i ymgeiswyr roi hysbysiad o benodiad asiant etholiad
- ffurflenni i ymgeiswyr roi hysbysiad o benodiad unrhyw is-asiantiaid
- ffurflenni i ymgeiswyr roi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio, asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid cyfrif i Swyddogion Canlyniadau Lleol
- canllawiau ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantiaid yn cwmpasu agweddau allweddol ar y broses etholiadol, gan gynnwys cymhwyso ac anghymhwyso ar gyfer etholiad, y broses enwebu, beth y dylid ac na ddylid ei wneud wrth ymgyrchu, cael gafael ar drafodion etholiadol a'r hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi
- manylion am sut i gael copi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau'r pleidleiswyr absennol ar gyfer pob ardal bleidleisio yn y rhanbarth, a ffurflenni i wneud y fath geisiadau
- gwybodaeth am derfynau gwariant ymgeiswyr yn yr etholiad a chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar wariant a rhoddion
- gwybodaeth am drefniadau lleol
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall

5.15 Mae canllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ar ein gwefan yn: www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/candidate-or-agent/european-parliamentary-elections. Rydym wedi llunio set o bapurau enwebu ar gyfer ymgeiswyr pleidiau ac ymgeiswyr unigol, y gallwch eu cynnwys yn eich pecyn enwebu, sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sydd eu hangen ar gyfer enwebiad.

Cwestiynau gan ymgeiswyr ar b'un a ydynt yn gymwys i sefyll

5.16 Dim ond ar gyfer yr ymgeisydd y mae cwestiynau ynghylch cymhwysedd neu anghymhwysedd ac ni ddylech roi cyngor ar faterion o'r fath. Dylid cyfeirio'r ymgeisydd at ganllawiau'r Comisiwn i ymgeiswyr ac asiantiaid yn y lle cyntaf. Os oes ganddo unrhyw bryderon pellach, dylid ei gynghori i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

Sesiynau briffio ymgeiswyr ac asiantiaid

5.17 Dylech sicrhau y cynigir sesiwn friffio ar y broses etholiadol, gan gynnwys trefniadau lleol, i bleidiau, ymgeiswyr a/neu asiantiaid etholiad.

Dylai'r sesiynau briffio ddarparu ar gyfer y ffaith nad yw rhai pobl o bosibl yn gwybod llawer, os o gwbl, am reolau na gweithdrefnau etholiad neu nad ydynt wedi ymwneud ag etholiadau ers peth amser. Dylai pob sesiwn friffio amlygu pwysigrwydd dilyn rheolau'r etholiad. Yn benodol, dylech roi sesiwn friffio ar y broses enwebu, gan gynnwys terfynau amser, rheolau cyflwyno, defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin, a'r defnydd o enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd am sefyll etholiad yn cael y wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud. Dylech hefyd nodi sut rydych yn disgwyl i gefnogwyr ymddwyn yn yr ardal bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio.

Mae'r Coleg Plismona Arfer Proffesiynol Awdurdodedig wedi darparu canllawiau ar Gadw trefn ac atal dylanwad gormodol y tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Bwriedir i'r ddogfen hon helpu'r heddlu i ystyried y ffordd orau o blismona gorsafoedd pleidleisio ac mae'n cynnig rhai camau ymarferol i'w helpu i leihau'r tebygolrwydd o broblemau a delio ag unrhyw rai sy'n codi. Er ei bod ar gyfer y pwynt cyswllt unigol gall hefyd fod o fudd i chi, yn enwedig wrth gyfleu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan gefnogwyr yn ardal y man bleidleisio i ymgeiswyr ac asiantiaid. Dylai gael ei darllen ar y cyd ag adran 3 o'r Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr: cofrestru etholiadol, pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio.

5.18 Er y dylech wahodd pob darpar ymgeisydd i sesiwn friffio cyn y cyfnod enwebu neu ar ddechrau'r cyfnod enwebu, gallech ddewis cynnal sesiwn friffio ychwanegol ar ôl i'r rhestr o ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad gael ei chadarnhau ar ôl i'r broses enwebu gau.

5.19 Dylai eich sesiwn neu sesiynau briffio hefyd amlygu unrhyw drefniadau diogelwch sydd wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymgynghoriad â'r heddlu. Efallai y byddwch am wahodd eich pwynt cyswllt unigol yn yr heddlu i fynychu unrhyw sesiynau briffio, neu ddarparu deunydd ysgrifenedig y gallwch ei roi i ymgeiswyr ac asiantiaid.

5.20 Mae cyflwyniad templed ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiad Ewrop y gallwch ei ddefnyddio ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn.

5.21 Dylech hefyd gydweithio â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth er mwyn pennu p'un a ddylent gynnig sesiynau briffio yn eu hardal gyfrif a chytuno ar gynnwys unrhyw sesiynau briffio o'r fath, a allai gynnwys eu trefniadau lleol, fel manylion anfon ac agor pleidleisiau post a'r prosesau dilysu a chyfrif.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys

drwy drefnu sesiynau briffio iddynt. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi drefnu sesiynau briffio a pharatoi adnoddau briffio.

Darparu'r gofrestr

5.22 Er nad yw'n ofynnol ar gyfer y broses enwebu, gan nad oes gofyniad i enwebiadau gael eu llofnodi gan etholwyr cofrestredig, gall ymgeisydd unigol (h.y. y sawl nad yw wedi'i gynnwys ar restr plaid) neu asiant etholiad plaid sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr yn yr etholiad ofyn am gopi o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer pob ardal gyfrif yn y rhanbarth lle mae'r ymgeisydd neu restr plaid yn sefyll, at ddibenion etholiadol.

5.23 Dim ond os bydd yr ymgeisydd neu'r asiant etholiad (fel sy'n briodol) wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol y gellir darparu cofrestrau a rhestrau o bleidleiswyr absennol. Dim ond unwaith y bydd person wedi dod yn ymgeisydd unigol neu unwaith y bydd plaid wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ac wedi penodi asiant etholiad y gellir gwneud y cais. Mae'r Comisiwn wedi llunio ffurflenni cais templed ar gyfer cofrestrau etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol y gall ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad eu defnyddio.

Ceir rhagor o fanylion ar pan fydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd a phan gall plaid sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr benodi asiant etholiad yn Rhan 2a a Rhan 2b o'n canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.

5.24 Er mai Swyddog Cofrestru Etholiadol pob ardal gyfrif sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am dderbyn a darparu cofrestrau i ymgeiswyr unigol neu asiantiaid etholiad, dylai fod gennych gynlluniau ar waith ar gyfer rheoli neu gydgysylltu ceisiadau gan ymgeiswyr ac asiantiaid a darparu copïau o'r gofrestr iddynt er mwyn sicrhau y gall pob ymgeisydd unigol ac asiant etholiad plaid wleidyddol gael gafael ar gofrestrau mewn modd amserol a hawdd.

5.25 Er enghraifft, gallwch ystyried darparu'r cofrestrau'n ganolog ar ran y Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a chynnwys ffurflen gais yn y pecyn enwebu ar gyfer pob ardal gyfrif. Mantais y dull gweithredu hwn yw y gallai weithredu fel mai dim ond un ffurflen gais ar gyfer yr holl ardaloedd cyfrif y byddai angen i ymgeiswyr neu asiantiaid etholiad ei chwblhau ac y byddant yn cael eu cofrestrau o un man, yn hytrach na gorfod cysylltu â phob Swyddog Cofrestru Etholiadol ar wahân gyda cheisiadau unigol. Fodd bynnag, byddai hefyd angen i chi ystyried y trefniadau ymarferol o ran cyfuno'r cofrestrau, ac yn enwedig y diweddariadau i'r gofrestr, a thrafod â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chytuno ar sut y gellid dwyn ynghyd y gwahanol gofrestrau a'r diweddariadau iddynt i'w darparu'n amserol, gan gynnwys sut y byddai hyn yn gweithio ar gyfer copïau argraffedig a chopïau data. Mae'n rhaid i'r cofrestrau gael eu darparu ar ffurf data oni ofynnir yn benodol am gopi argraffedig.

Ceir gwybodaeth fanwl am fynediad a chyflenwi'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o bleidleiswyr absennol i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol cofrestredig (a all ofyn am gopi ar unrhyw adeg) ac eraill yn Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn o'n canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Y broses enwebu

Y cyfnod enwebu

5.26 Rhydd yr adran hon ganllawiau ar weinyddu'r broses enwebu yn etholiad Senedd Ewrop. Dim ond ar gyfer yr ymgeisydd y mae cwestiynau ynghylch cymhwysedd neu anghymhwysedd ac ni ddylech roi cyngor ar faterion o'r fath. Dylid cyfeirio'r ymgeisydd at ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn un o etholiadau Senedd Ewrop yn y lle cyntaf. Os oes ganddo unrhyw bryderon pellach, dylid ei gynghori i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

5.27 Gellir dosbarthu papurau enwebu i chi rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan adeg cau'r enwebiadau.

5.28 Adeg cau'r enwebiadau yw 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais (h.y. **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**). Ni ellir symud y terfyn amser hwn am unrhyw reswm. Os na chyflwynwyd set gyflawn o bapurau enwebu a'r ernes â llaw erbyn yr amser hwnnw, nid yw'r enwebiad wedi ei wneud sy'n golygu na allwch ddyfarnu bod yr enwebiad yn ddilys nac yn annilys.

Ffurflenni enwebu

5.29 Bydd angen i ymgeisydd unigol gyflwyno'r ffurflenni canlynol:

- y ffurflen enwebu
- cydsynio i'r enwebu

5.30 Bydd angen i'r ffurflenni canlynol gael eu cyflwyno gan blaid:

- y ffurflen enwebu
- y rhestr o ymgeiswyr
- y cydsyniadau ag enwebiad wedi'u llofnodi gan bob ymgeisydd ar y rhestr

5.31 Nid yw'r ffurflen enwebu, rhestr o ymgeiswyr pleidiau a'r cydsyniadau ag enwebiad (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd o hyn ymlaen fel y 'papurau enwebu') wedi'u rhagnodi, yn wahanol i gynnwys y ffurflenni. Nid oes yn rhaid i bleidiau ac ymgeiswyr ddefnyddio ffurflen enwebu neu gydsyniad a luniwyd gennych chi, ar yr amod bod eu ffurflenni yn cynnwys yr holl wybodaeth

ofynnol. Ceir rhagor o fanylion ar ba wybodaeth sy'n ofynnol o **baragraffau 5.68** ymlaen.

5.32 Os bydd plaid wleidyddol am ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid ar y papur pleidleisio, rhaid iddi wneud cais ysgrifenedig i chi cyn adeg cau'r enwebiadau.

5.33 Dim ond yn Saesneg neu, yng Nghymru, yn Gymraeg a/neu Saesneg, y gellir llunio papurau enwebu, ac nid mewn unrhyw ieithoedd na fformatau amgen.

5.34 Mae'r Comisiwn wedi llunio set o bapurau enwebu ar gyfer ymgeiswyr pleidiau ac ymgeiswyr unigol, sy'n cynnwys yr holl ffurflenni hyn, y gallwch eu rhoi i bleidiau ac ymgeiswyr.

Gofyniad ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ddinasyddion yr UE

5.35 Bydd yn ofynnol i ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd) fel rhan o'i enwebiad wneud datganiad yn nodi, ymysg pethau eraill:

- nad yw'r sefyll fel ymgeisydd yn yr un etholiad Senedd Ewrop mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth arall o'r UE, ac
- nad yw wedi'i amddifadu o'r hawl i sefyll fel ymgeisydd oherwydd penderfyniad barnwrol neu benderfyniad gweinyddol a all fod yn agored i rwymedi barnwrol ('penderfyniad anghymhwyso perthnasol') yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'n ddinesydd ynddi.

5.36 Ni ragnodir ffurf y datganiad gofynnol, er y rhagnodir cynnwys y datganiad. Ceir gofynion hefyd yn ymwneud â gwybodaeth gan y pwynt cyswllt penodol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi. Ceir rhagor o fanylion ym **mharagraff 5.43** ar ofynion perthnasol y datganiad a'r wybodaeth.

Gwiriadau anffurfiol

5.37 Dylech sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu pob ymgeisydd gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol.

5.38 Dylid rhoi cyfle cyfartal i bob ymgeisydd, asiant a swyddog enwebu allu cael gwiriad anffurfiol. Cynllunnir gwiriadau anffurfiol i helpu ymgeiswyr a phleidiau i gymryd rhan effeithiol yn y broses etholiadol fel na fydd unrhyw wallau a wneir ganddynt wrth gwblhau'r gwaith papur yn golygu na chaiff etholwyr gyfle i bleidleisio dros yr ymgeisydd hwnnw neu'r blaid honno, os yw hynny'n bosibl. Dylech ystyried sut rydych yn mynd i reoli'r broses hon, er enghraifft drwy roi system apwyntiadau ar waith.

5.39 Wrth gynnal gwiriad anffurfiol dylid nodi'n glir bod y papurau enwebu yn cael eu hystyried yn anffurfiol. Ar ddiwedd y gwiriad anffurfiol, dylech gynnig

dychwelyd y papurau enwebu os oes problem wedi ei nodi. Os na nodwyd unrhyw broblemau, dylech gynnig eu derbyn yn ffurfiol.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu pob ymgeisydd, asiant a swyddog enwebu pleidiau gwleidyddol cofrestredig gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith ar gyfer gwirio papurau enwebu ymgeiswyr, asiantiaid a swyddogion enwebu pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn anffurfiol.

Cyflwyno papurau enwebu

5.40 Dylid cyflwyno papurau enwebu yn yr union leoliad a nodwyd gennych chi ar yr hysbysiad etholiad.

5.41 Dylech ddarparu arwyddion clir o fynedfa'r adeilad i'r ystafell a neilltuwyd ar gyfer cyflwyno'r papurau. Dylai'r ffordd hon, neu ffordd amgen wedi ei harwyddo'n briodol, fod yn hollol hygyrch.

5.42 Dylech chi neu ddirprwy penodedig fod yn bresennol drwy gydol y cyfnod ar gyfer enwebiadau ac yn ystod y cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau a dim ond chi a'ch staff ddylai ddelio ag enwebiadau. Dylech roi gwybodaeth i staff awdurdod lleol eraill neu i staff eraill yn yr adeiladau rydych yn eu defnyddio, megis staff derbynfa, am beth i'w wneud os bydd rhywun yn ceisio rhoi papur enwebu iddynt, gan nodi'n glir na ddylent ddelio â phapurau enwebu ac na ddylid cynnig eu derbyn ond yn hytrach eu cyfeirio atoch chi.

Amseroedd a dull cyflwyno

5.43 Gallwch gyflwyno papurau enwebu rhwng 10am a 4pm o'r diwrnod ar ôl yr adeg y caiff yr hysbysiad etholiad ei gyhoeddi tan 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad (h.y. **4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**). Ni ellir ymestyn y terfyn amser hwn am unrhyw reswm.

5.44 Lle bydd gofyniad i gyflwyno papur enwebu â llaw, pennir ei fod wedi'i gyflwyno pan gaiff y papur ei gyflwyno â llaw yn y lleoliad a nodir yn yr hysbysiad etholiad. Gellir cyflwyno'r ffurflen gwneud cais am arwyddlun drwy'r post. Yn yr achos hwn, pennir bod y papurau wedi eu cyflwyno pan fyddant wedi eu cyflwyno yn y lle a nodir yn yr hysbysiad etholiad.

5.45 Nid oes angen penodiad er mwyn cyflwyno papurau enwebu, a phan fyddwch chi neu eich staff yn eu derbyn, dylech arnodi'r dogfennau â'r dyddiad a'r amser y cawsant eu cyflwyno.

Cyflwyno datganiadau a gwybodaeth arall gan ymgeiswyr sy'n ddinasyddion Aelod-wladwriaethau penodol yr UE

5.46 Fel y nodir ym **mharagraff 5.32** uchod, rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd), p'un a yw'n sefyll fel ymgeisydd unigol neu fel ymgeisydd ar restr plaid, er mwyn i'w enwebiad fod yn ddilys, wneud datganiad nad yw wedi'i anghymhwyso rhag sefyll etholiad.

5.47 Gellir cyflwyno'r datganiad cyn neu ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad a rhaid iddo gael ei gyflwyno i chi erbyn adeg cau'r enwebiadau **(4pm ar 25 Ebrill 2019 (24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)).**

5.48 Os caiff y datganiad ei gyflwyno i chi **erbyn 4pm ar 15 Ebrill 2019 (4pm ar 12 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr),** nid oes angen i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y pwynt cyswllt penodol yn ogystal â'i ddatganiad (er y gall wneu hynny os bydd yn dymuno). Lle na chaiff y wybodaeth ofynnol ei darparu gan yr ymgeisydd, rhaid i Lywodraeth y DU (drwy Swyddfa'r Cabinet) geisio'r wybodaeth hon gan yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi a'i rhoi i chi.

5.49 Os caiff y datganiad ei gyflwyno **ar ôl 4pm ar 15 Ebrill 2019 (4pm ar 12 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)** rhaid cyflwyno gwybodaeth benodol yn ogystal â'r datganiad. Rhaid i'r wybodaeth hon fod wedi'i rhoi i'r ymgeisydd gan y pwynt cyswllt penodol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi a rhaid iddi nodi naill ai nad yw'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso o'r hawl i sefyll fel ymgeisydd yn y Wladwriaeth honno drwy benderfyniad anghymhwyso perthnasol neu nad oes unrhyw anghymhwysiad o'r fath yn hysbys i'r pwynt cyswllt penodol. Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyflwyno i chi erbyn adeg cau'r enwebiadau **(4pm ar 25 Ebrill 2019 (24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)).**

5.50 Dylech annog unrhyw ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd) i gyflwyno ei ddatganiad i chi cyn gynted â phosibl fel y gall Llywodraeth y DU gael y wybodaeth ofynnol gan yr Aelod-wladwriaeth berthnasol o'r UE a'i rhoi i chi cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risg y canfyddir bod ymgeisydd sydd wedi'i gynnwys ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd wedi'i anghymhwyso rhag sefyll.

5.51 Nid oes angen cyflwyno'r papurau enwebu eraill ar yr un pryd â'r datganiad, ond rhaid iddynt gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebu.

5.52 Rhaid i chi anfon **unrhyw** ddatganiad a gewch **ar unrhyw adeg** (hyd yn oed os yw'n cyd-fynd â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y pwynt cyswllt penodol perthnasol) cyn gynted ag y bo'n ymarferol at yr Ysgrifennydd Gwladol (drwy Swyddfa'r Cabinet). Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r

pwynt cyswllt penodol gadarnhau p'un a yw'r ymgeisydd wedi cael ei amddifadu o'r hawl i sefyll fel ymgeisydd drwy benderfyniad anghymhwyso perthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth honno o'r UE a rhoi unrhyw ymateb i chi.

5.53 Dylech anfon unrhyw ddatganiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol drwy Swyddfa'r Cabinet drwy e-bostio copi i elections@cabinet-office.gsi.gov.uk. Dylech atodi copi o'r datganiad gan yr ymgeisydd a'i gwneud yn amlwg ym maes pwnc yr e-bost bod yr e-bost yn ymwneud â datganiad gan ymgeisydd o'r UE. Dylech hefyd ddarparu cyfeiriad e-bost y dylai Swyddfa'r Cabinet ei defnyddio er mwyn anfon gwybodaeth a gafwyd o wladwriaeth gartref yr ymgeisydd am gymhwysedd yr ymgeisydd i sefyll, a'ch rhif ffôn cyswllt os bydd unrhyw ymholiadau.[1]

Pwy all gyflwyno'r papurau enwebu?

Pleidiau gwleidyddol

5.54 Dim ond y bobl ganlynol all gyflwyno'r ffurflen enwebu a'r rhestr o ymgeiswyr ar gyfer plaid wleidyddol:

- Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid
- person sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu i gyflwyno'r papurau enwebu ar ei ran

5.55 Rhaid i'r ffurflen enwebu a'r rhestr o ymgeiswyr gael eu cyflwyno â llaw gan un o'r bobl a restrir uchod. Os cânt eu cyflwyno gan rywun arall, ni ddylid eu derbyn. Ni ellir cyflwyno'r dogfennau hyn drwy'r post, dros ffacs, dros e-bost neu drwy ddulliau electronig eraill, ac felly ni ddylid derbyn unrhyw rai a dderbynnir drwy'r dulliau hyn. Gall cyflwyno â llaw gynnwys drwy negesydd. Pan fydd unigolyn sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu yn cyflwyno'r dogfennu, dylech ofyn am gael gweld yr awdurdodiad, er mwyn cael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r gofynion.

5.56 Gall unrhyw un gyflwyno'r ffurflen cydsynio ag enwebiad y mae'n ofynnol i bob ymgeisydd ar restr y blaid ei rhoi. Fodd bynnag, rhaid i ffurflenni cydsynio ag enwebiad hefyd gael eu cyflwyno â llaw yn hytrach na thrwy'r post, dros e-bost, dros ffacs neu drwy ddulliau electronig eraill, heblaw mewn amgylchiadau penodol, fel y nodir ym mharagraff 5.106. Gall cyflwyno â llaw gynnwys drwy negesydd.

---

[1] Bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi rhifau ffôn cyswllt i'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn nes at adeg yr etholiad ar gyfer ymholiadau ynghylch delio â datganiadau gan ymgeiswyr o'r UE.

5.57 Gall unrhyw un gyflwyno datganiad a, lle y bo'n briodol, wybodaeth ategol ar gyfer ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd) ond rhaid iddo gael ei gyflwyno â llaw yn hytrach na thrwy'r post, dros e-bost, dros ffacs neu drwy ddulliau electronig eraill. Gall cyflwyno â llaw gynnwys drwy negesydd.

Ymgeiswyr unigol

5.58 Dim ond y bobl ganlynol all gyflwyno'r ffurflen enwebu ar gyfer ymgeisydd unigol:

- yr ymgeisydd
- person sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr ymgeisydd i gyflwyno'r papurau enwebu ar ran yr ymgeisydd

5.59 Rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei chyflwyno â llaw gan un o'r bobl a restrir uchod. Os cânt eu cyflwyno gan rywun arall, ni ddylid eu derbyn. Ni ellir cyflwyno'r ffurflen enwebu drwy'r post, dros ffacs, dros e-bost neu drwy ddulliau electronig eraill, ac felly ni ddylid derbyn unrhyw rai a dderbynnir drwy'r dulliau hyn. Gall cyflwyno â llaw gynnwys drwy negesydd. Pan fydd unigolyn sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr ymgeisydd yn cyflwyno'r dogfennu, dylech ofyn am gael gweld yr awdurdodiad, er mwyn cael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r gofynion.

5.60 Gall unrhyw un gyflwyno ffurflen cydsynio ag enwebiad yr ymgeisydd. Fodd bynnag, rhaid iddi gael ei chyflwyno â llaw ac nid drwy unrhyw ddulliau eraill, heblaw mewn amgylchiadau penodol, fel y nodir ym **mharagraff 5.106**. Gall cyflwyno â llaw gynnwys drwy negesydd.

5.61 Gall unrhyw un gyflwyno datganiad a, lle y bo'n briodol, wybodaeth ategol ar gyfer ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd) ond rhaid iddo gael ei gyflwyno â llaw yn hytrach na thrwy'r post, dros e-bost, dros ffacs neu drwy ddulliau electronig eraill. Gall cyflwyno â llaw gynnwys drwy negesydd.

Newidiadau i ffurflenni enwebu

5.62 Unwaith y bydd ffurflen enwebu ac, yn achos plaid, y rhestr o ymgeiswyr, wedi'u cyflwyno'n ffurfiol, ni ellir eu dychwelyd i'r blaid neu'r ymgeisydd ac ni ellir gwneud unrhyw newidiadau iddynt (yn dibynnu ar eich pŵer i gywiro mân wallau). Ar adeg cyflwyno'r papurau yn ffurfiol dylech felly arnodi'r ffurflen a'r rhestr, fel sy'n briodol, gyda'r dyddiad a'r amser cyflwyno, fel bod gennych gofnod o pryd y cyflwynwyd pob un yn ffurfiol.

5.63 Os bydd plaid neu ymgeisydd unigol yn penderfynu yn ddiweddarach eu bod am wneud newidiadau, er enghraifft os bydd plaid am newid y disgrifiad, yr unig ffordd y gellir gwneud hyn yw i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol gyflwyno ffurflen enwebu newydd ac, yn achos plaid, rhestr o ymgeiswyr (p'un a oes unrhyw newidiadau i'r rhestr ei hun ai peidio) o fewn y terfyn amser statudol.

Yn yr un modd, os bydd y blaid am wneud newidiadau i'w rhestr o ymgeiswyr, rhaid cyflwyno ffurflen enwebu newydd ar yr un pryd (p'un a oes unrhyw newidiadau i'r ffurflen ei hun ai peidio).

5.64 Ym mhob achos, bydd y ffurflen enwebu a gyflwynir yn ddiweddarach (a'r rhestr o ymgeiswyr, lle y bo'n briodol) yn disodli'r ffurflen enwebu/rhestr a gyflwynwyd yn gynharach.

5.65 Nid oes angen cyflwyno'r ffurflenni cydsynio ag enwebiad a'r ernes eto, er os bydd ymgeisydd newydd wedi'i ychwanegu at restr plaid o ymgeiswyr, rhaid cyflwyno ei ffurflen cydsynio ag enwebiad (**ceir rhagor o fanylion ar gyflwyno ffurflenni cydsynio ag enwebiad ym mharagraff 5.104**).

Presenoldeb wrth gyflwyno papurau enwebu

5.66 Dim ond rhai pobl sydd â'r hawl i fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu. Yn ogystal â'r sawl sy'n bresennol er mwyn cyflwyno ffurflen enwebu a chi a'ch staff, y bobl hyn yw:

- ymgeisydd unigol sydd ag enwebiad neu ymgeisydd a enwyd ar restr plaid o'r adeg y byddwch yn derbyn enwebiad ar gyfer yr ymgeisydd hwnnw neu'r blaid dan sylw

- asiant etholiad plaid wleidyddol sydd wedi cyflwyno enwebiad (p'un a yw'r enwebiad yn ddilys ai peidio) neu asiant etholiad ymgeisydd unigol (p'un a yw wedi cyflwyno enwebiad ai peidio)
- person sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig i gyflwyno ffurflen enwebu ar gyfer ymgeisydd unigol neu blaid wleidyddol (p'un a yw wedi gwneud hynny ai peidio)

5.67 Gall y bobl hyn fod yn bresennol a gallant hefyd archwilio ac, o fewn yr amser a ganiateir, wrthwynebu dilysrwydd unrhyw ffurflen enwebu neu restr o ymgeiswyr. Mae **paragraff 5.130** yn rhoi mwy o wybodaeth am wneud gwrthwynebiadau, yn cynnwys y cyfnod y gellir gwneud gwrthwynebiadau.

5.68 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un person a benodir gan bob un o'r ymgeiswyr (y rhai sy'n sefyll yn unigol a'r rhai ar restr plaid, ar yr amod bod gan ymgeisydd enwebiad) hefyd hawl i fod yn bresennol adeg enwebu ymgeiswyr ond ni chaniateir iddynt wrthwynebu unrhyw un o'r enwebiadau.

5.69 Ni chaiff unrhyw un arall fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu. Ni fydd y papurau enwebu ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio; dim ond i'r bobl y sonnir amdanynt yn yr adran hon y byddant ar gael.

Ffurflenni enwebu lluosog

5.70 Nid oes unrhyw derfyn ar nifer y ffurflenni enwebu ac, yn achos plaid, y rhestr o ymgeiswyr y gellir eu cyflwyno ar gyfer yr un ymgeisydd neu blaid. Mae unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir ar ôl ffurflen enwebu a gyflwynwyd yn

flaenorol yn disodli'r ffurflen enwebu gynharach. Mae'r un peth yn gymwys i'r rhestr o ymgeiswyr sy'n cyd-fynd â ffurflen enwebu. Rhaid i ddilysrwydd ffurflen enwebu ymgeisydd neu restr plaid a'r manylion i'w cynnwys ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papurau pleidleisio fod yn seiliedig ar y ffurflen enwebu ddiweddaraf a gyflwynir.

Gofynion enwebu

5.71 Mae'r adran hon yn cynnwys esboniad o'r hyn y mae'n rhaid ei ddarparu ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr sydd ag enwebiad. Bwriedir iddi eich helpu i adolygu ac yn y pen draw benderfynu ar ddilysrwydd ffurflenni enwebu a dogfennau eraill.

5.72 Dylech atgoffa unrhyw unigolyn sy'n cyflwyno dogfen bod gwneud datganiad ffug ar gyfer enw neu gyfeiriad cartref ymgeisydd yn yr etholiad, a hynny'n fwriadol, yn drosedd. Cewch eu rhybuddio mai'r gosb am ddatganiad ffug yw naill ai dirwy anghyfyngedig yng Nghymru a Lloegr, £10,000 yn yr Alban a/neu hyd at flwyddyn o garchar.

Ffurflen enwebu

5.73 Nid yw'r ffurflen enwebu ei hun wedi'i rhagnodi, ond rhaid i'r ffurflen gynnwys gwybodaeth benodol.

5.74 Rhaid i'r ffurflen enwebu ar gyfer plaid wleidyddol:

- nodi enw cofrestredig y blaid
- cynnwys disgrifiad o'r blaid os bydd y blaid yn dymuno defnyddio disgrifiad
- cynnwys datganiad bod y blaid wedi'i henwebu gan neu ar ran Swyddog Enwebu'r blaid gofrestredig
- bod wedi'i llofnodi gan y person sy'n ei chyflwyno
- gyd-fynd â rhestr o ymgeiswyr (ceir rhagor o fanylion ar y rhestr ym mharagraff 5.88)

5.75 Rhaid i'r ffurflen enwebu ar gyfer ymgeisydd unigol:

- nodi enw llawn yr ymgeisydd (cyfenw ac enwau cyntaf yn llawn), gyda'r cyfenw yn gyntaf ac yna ei enwau eraill
- gynnwys ei gyfeiriad cartref yn llawn
- os bydd yr ymgeisydd am i'r gair 'Annibynnol' ymddangos ar y papur pleidleisio, dylid cynnwys datganiad yn nodi hyn. Ni chaniateir unrhyw ddisgrifiadau eraill ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig.
- bod wedi'i llofnodi gan y person sy'n ei chyflwyno

Enwau pleidiau a disgrifiadau o bleidiau/ymgeiswyr

5.76 Mae'r ddeddfwriaeth yn fanwl gywir ynghylch y defnydd o ddisgrifiadau.

5.77 Dim ond y disgrifiad 'Annibynnol' y gall ymgeiswyr unigol ei ddefnyddio, neu ddim disgrifiad o gwbl. Os na fydd yr ymgeisydd am ddefnyddio disgrifiad, dylid gadael yr adran o'r ffurflen enwebu ar gyfer disgrifiad o'r ymgeisydd yn wag.

5.78 Rhaid i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio enw cofrestredig y blaid a gallant hefyd ddefnyddio un o'r disgrifiadau y mae'r blaid wedi'u cofrestru â'r Comisiwn.

5.79 I ddechrau, dylech sicrhau bod enw'r blaid ac, os yw'n berthnasol, y disgrifiad o'r blaid a roddwyd ar y ffurflen enwebu wedi'u cofrestru ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol (https://pefonline.electoralcommission.org.uk/search/searchintro.aspx a'u bod yn cyfateb iddynt yn llwyr. Os nad yw'n cyfateb, rhaid i chi wrthod yr enwebiad hwnnw. Hyd yn oed os yw plaid gofrestredig yn adnabyddus, mae'n hanfodol edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol i gael union fanylion y blaid fel y'u cofrestrwyd gyda'r Comisiwn.

5.80 Gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig ddewis cofrestru hyd at 12 o ddisgrifiadau â'r Comisiwn. Pan fydd plaid wleidyddol gofrestredig wedi dewis peidio â chofrestru unrhyw ddisgrifiadau, dim ond union enw'r blaid fel y'i cofrestrwyd â'r Comisiwn y gellir ei ddefnyddio.

5.81 Yng Nghymru, gall plaid naill ai ddefnyddio'r enw cofrestredig Saesneg, enw cofrestredig Cymraeg neu'r ddau a disgrifiad cofrestredig os bydd yn dymuno. Rhestrir enwau cofrestredig amgen a chyfieithiadau Saesneg o enwau pleidiau nad ydynt yn Gymraeg neu Saesneg ar y wefan o dan 'enw arall'.

5.82 At ddibenion cynnal llwybr archwilio clir ac yn achos unrhyw heriau yn y dyfodol, dylech argraffu copi o'r rhan berthnasol o gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol sy'n dangos y disgrifiadau ac enw'r blaid pan wnaed y penderfyniad.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am bleidiau gwleidyddol cofrestredig, disgrifiadau cofrestredig ac arwyddluniau cofrestredig, dylech edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn yn https://pefonline.electoralcommission.org.uk/search/searchintro.aspx.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu â swyddfa leol y Comisiwn.

5.83 Mae dileu unrhyw ddisgrifiadau cofrestredig neu gyflwyno disgrifiadau newydd yn lle hen rai hyd at a chan gynnwys y diwrnod cyn dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer unrhyw etholiad penodol (noder nad hwn yw'r diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ond yn hytrach y diwrnod cyhoeddi ei hun). Ar ôl hynny, nid yw achosion o ddileu unrhyw ddisgrifiadau pleidiau neu gyflwyno disgrifiadau newydd yn lle hen rai yn berthnasol ar gyfer yr etholiad hwnnw.

5.84 Er enghraifft, os byddwch yn penderfynu cyhoeddi eich hysbysiad etholiad cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad, mae'n bosibl y gellir cyflwyno enwebiad sy'n cynnwys disgrifiad plaid gofrestredig nad yw'n ymddangos mwyach ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol. Os cafodd y disgrifiad ei ddileu ar neu ar ôl y diwrnod y gwnaethoch gyhoeddi eich hysbysiad etholiad, nid yw'r broses o ddileu yn berthnasol i'ch etholiad ac mae'r 'hen' ddisgrifiad yn ddilys o hyd. Mewn unrhyw amgylchiadau o'r fath gallwch holi swyddfa leol y Comisiwn a yw'r disgrifiad a gyflwynwyd o'r blaid yn gymwys ar gyfer eich etholiad.

5.85 Dylech hefyd nodi y gall pleidiau gwleidyddol newid enw ac arwyddluniau cofrestredig eu plaid, ac ychwanegu unrhyw ddisgrifiad newydd os oeddent wedi cofrestru llai na 12 yn flaenorol, unrhyw bryd hyd at [E-19] 25 Ebrill 2019.

Disgrifiadau nad ydynt wedi'u cofrestru eto

5.86 Pan fydd plaid yn ceisio cyflwyno ffurflen enwebu sy'n cynnwys disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, dylech hysbysu'r ymgeisydd i beidio â'i chyflwyno'n ffurfiol, ond i'w thynnu'n ôl a'i chyflwyno unwaith y bydd y disgrifiad wedi'i gofrestru'n llwyddiannus.

5.87 Os bydd plaid yn cyflwyno ei ffurflen enwebu gyda disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, mae'n rhaid i chi nodi bod yr enwebiad yn annilys ar y sail, pan wnaed y penderfyniad, nad oedd y disgrifiad a roddwyd yn cyfateb i unrhyw ddisgrifiad a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn. Efallai y byddwch am gysylltu â'r Comisiwn i gael cadarnhad nad yw disgrifiad wedi'i gofrestru eto cyn gwneud eich penderfyniad. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â swyddfa leol y Comisiwn.

Cais am arwyddlun plaid

5.88 Os gwneir cais, gall plaid wleidyddol ddewis cael arwyddlun cofrestredig ar y papur pleidleisio. Nid oes gan ymgeiswyr unigol hawl i ddefnyddio arwyddlun o unrhyw fath.

5.89 Rhaid i Swyddog Enwebu'r blaid neu rywun ar ei ran wneud y cais yn ysgrifenedig. Lle mae angen llofnodion, rhaid cyflwyno fersiwn wreiddiol wedi'i llofnodi o bob papur a gwblhawyd. Ni ellir derbyn dogfennau heb lofnodion gwreiddiol. Rhaid i chi ei dderbyn cyn yr adeg olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu. Os oes gan y blaid fwy nag un arwyddlun cofrestredig, dylai'r ffurflen nodi pa un y mae am ei ddefnyddio. Os na fydd y blaid yn nodi un dylech geisio cysylltu â'r blaid a gofyn iddi ddewis un, ac egluro, os na fydd yn dewis arwyddlun penodol cyn i enwebiadau gau, na fyddwch yn gallu argraffu arwyddlun wrth ymyl enw'r blaid ar y papur pleidleisio.

5.90 Gall y blaid ddarparu copi eglurder uchel o'r arwyddlun i'w ddefnyddio wrth argraffu papurau pleidleisio, neu gall ofyn i chi lawrlwytho'r arwyddlun o wefan y Comisiwn. Dylech sicrhau bod pa gopi bynnag a ddefnyddir ar yr un

ffurf â'r arwyddlun cofrestredig. Ceir rhagor o ganllawiau ar argraffu papurau pleidleisio yn Rhan C o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Manylion ymgeiswyr

5.91 Rhaid i blaid wleidyddol gyflwyno rhestr o ymgeiswyr ('rhestr plaid') gyda'r ffurflen enwebu. Ni ddylai nifer yr ymgeiswyr ar y rhestr fod yn fwy na nifer yr ASEau i'w hethol yn y rhanbarth etholiadol. Yn y cyfrifiad o'r canlyniad, rhaid i seddi gael eu dyrranu i'r ymgeiswyr yn y drefn y maent yn ymddangos ar restr y blaid.

5.92 Nodir y wybodaeth ofynnol i'w rhoi ar restr y blaid ar gyfer pob ymgeisydd isod.

5.93 Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr unigol roi'r manylion hyn, a rhaid iddynt gael eu darparu ar y ffurflen enwebu ei hun.

Enw llawn yr ymgeisydd

5.94 Rhaid i enw llawn pob ymgeisydd – ei gyfenw a'i holl enwau cyntaf yn llawn – gael eu rhestru ar y ffurflen enwebu (yn achos ymgeisydd unigol) neu ar restr plaid (yn achos ymgeisydd ar restr plaid). Rhaid i ymgeiswyr unigol roi eu cyfenw yn gyntaf ac yna eu holl enwau eraill. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhagnodi sut y dylai enw pob ymgeisydd ymddangos ar restr plaid.

5.95 Dylid cynghori pleidiau ac ymgeiswyr i beidio â chynnwys rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid fel rhan o'u henw llawn. Os caiff rhagddodiad neu ôl-ddodiad ei gynnwys fel rhan o enw gwirioneddol ni fyddai'r enwebiad yn annilys o ganlyniad i hynny, ond ni ddylid trosglwyddo'r rhagddodiad na'r ôl-ddodiad i'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebir na'r papur pleidleisio. Os bydd ffurflen enwebu neu restr plaid yn cynnwys rhagddodiad neu ôl-ddodiad fel rhan o enw gwirioneddol ymgeisydd, dylech hysbysu'r person sy'n cyflwyno'r papur neu'r rhestr na fydd yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd na'r papur pleidleisio, ond nad yw hyn wedi effeithio ar enwebiad y blaid neu'r ymgeisydd.

5.96 Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd deitl, gall ddefnyddio hwn fel ei enw llawn. Er enghraifft, os mai enw gwirioneddol yr ymgeisydd yw Joseph Smith, ond mai ei deitl etifeddol yw Joseph Avon, gall ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel ei enw llawn.

Enwau a ddefnyddir yn gyffredin

5.97 Pan fydd ymgeisydd yn defnyddio cyfenw neu enw cyntaf cyffredin gwahanol, gellir rhoi'r enw a ddefnyddir yn gyffredin ar y ffurflen enwebu neu restr plaid yn ogystal â'i enw llawn.

5.98 Yr unig seiliau sydd gennych ar gyfer gwrthod enw a ddefnyddir yn gyffredin yw'r rhai canlynol:

- mae'n debygol y gall ei ddefnydd gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu

- mae'n aflan neu'n sarhaus

5.99 Nid eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu a yw'r enw cyffredin a roddwyd yn 'enw' fel y cyfryw nac ymgymryd ag unrhyw ymholiadau. Os ydych yn rhoi cyngor anffurfiol, efallai y byddwch am dynnu sylw'r Swyddog Enwebu a/neu yr ymgeisydd at ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ar enwau a ddefnyddir yn gyffredin a nodi y dylai unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin fod yn enw y mae'r ymgeisydd wir yn ei ddefnyddio yn gyffredin.

5.100 Ar y papur pleidleisio, bydd enwau ymgeiswyr ar restr plaid yn ymddangos o dan enw'r blaid ac yn y drefn y cânt eu rhestru ar restr y blaid o ymgeiswyr. Mae enwau ymgeiswyr unigol (h.y. y rhai na chânt eu cynnwys ar restr plaid) yn ymddangos yn nhrefn y wyddor yn ôl y cyfenw ar ôl rhestrau pleidiau, gyda chyfenw'r ymgeisydd yn gyntaf ac yna'r enw(au) cyntaf.

5.101 Ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd, rhaid dangos enwau'r ymgeiswyr sydd wedi'u cynnwys ar restr pob plaid o ymgeiswyr fel y'u rhoddwyd ar y rhestr honno. Os caiff yr enwau ar y rhestr eu rhoi gyda'r enw cyntaf yn gyntaf ac yna'r cyfenw, dylai'r ymgeiswyr ar restr y blaid ymddangos yn y ffordd honno ar y datganiad. Rhaid dangos enwau ymgeiswyr unigol gyda'r cyfenw yn gyntaf ar y datganiad. Ceir rhagor o fanylion o gynnwys y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd a'r broses o'i gyhoeddi ym **mharagraff 6.43**.

5.102 Mae'r tablau isod yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gyfuniadau amrywiol o enwau a ddefnyddir yn gyffredin er mwyn danogs sut y byddent yn effeithio ar ymddangosiad enw'r ymgeisydd ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd a'r papur pleidleisio:

Ymgeiswyr rhestr plaid

Enwau cyntaf gwirioned dol yr ymgeisydd yn llawn	Cyfenw gwirioned dol yr ymgeisydd	Enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin	Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin	Enw i'w nodi ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Enw i'w nodi ar y papur pleidleisio
Ann	Etholwr	Elsie	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Elsie	Elsie Pleidleisiwr
Ann	Etholwr	[*dim*]	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Ann	Ann Pleidleisiwr
Ann	Etholwr	Elsie	[*dim*]	Etholwr, Elsie	Elsie Etholwr

Ymgeiswyr unigol

Cyfenw gwirioned dol yr ymgeisydd	Enwau cyntaf gwirioned dol yr ymgeisydd yn llawn	Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin	Enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin	Enw i'w nodi ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Enw i'w nodi ar y papurau pleidleisio
Etholwr	Ann	Pleidleisiwr	Elsie	Pleidleisiwr, Elsie	Pleidleisiwr, Elsie
Etholwr	Ann	Pleidleisiwr	[*dim*]	Pleidleisiwr, Ann	Pleidleisiwr, Ann
Etholwr	Ann	[*dim*]	Elsie	Etholwr, Elsie	ETHOLWR, Elsie

5.103 Os na roddir unrhyw enwau cyntaf na chyfenw a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ymgeisydd yna bydd ei enwau cyntaf neu ei gyfenw gwirioneddol, fel sy'n briodol, yn mynd ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio.

5.104 Dylech gynghori'r Swyddog Enwebu a/neu yr ymgeisydd bod y defnydd o enwau cyffredin ond yn gymwys i'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd a'r papur pleidleisio. Dylai enw gwirioneddol yr ymgeisydd ymddangos ar unrhyw ddogfennau eraill y mae'n ofynnol iddynt ddangos enw'r ymgeisydd, fel ffurflenni treuliau etholiad yr ymgeisydd.

5.105 Os byddwch yn gwrthod defnyddio enw cyffredin, ni fydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd yr enwebiad. Yn hytrach, effaith hyn fydd y bydd enw gwirioneddol yr ymgeisydd yn ymddangos ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd a'r papur pleidleisio. Dylid egluro hyn i Swyddogion Enwebu ac ymgeiswyr ac asiantiaid ac mae'n rhaid i chi ysgrifennu at yr ymgeisydd a'r blaid (os yw'n berthnasol) yn nodi'r rhesymau dros wrthod caniatáu i'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio.

Cyfeiriad cartref yr ymgeisydd

5.106 Rhaid rhoi cyfeiriad cartref pob ymgeisydd yn llawn ar y ffurflen enwebu (yn achos ymgeisydd unigol) neu ar restr y blaid (yn achos ymgeisydd ar restr plaid).

Cydsyniad ymgeisydd i'r enwebiad

5.107 Rhaid i bob ymgeisydd roi ei gydsyniad ysgrifenedig i'r enwebiad. Rhaid i gydsyniad yr ymgeisydd nodi:

- ar gyfer ymgeisydd sy'n sefyll ar restr plaid, enw'r blaid y mae'r ymgeisydd yn sefyll drosti
- dyddiad geni'r ymgeisydd yn llawn (diwrnod, mis a blwyddyn)
- bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o ddarpariaethau Adran 10 o Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 (h.y. yr anghymwysiadau)
- hyd eithaf gwybodaeth a chred yr ymgeisydd, nad yw wedi'i anghymhwyso o swydd ASE

5.108 Rhaid i'r cydsyniad gael ei lofnodi a'i dyddio gan yr ymgeisydd a rhaid i'r dyddiad fod ar neu o fewn mis cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu. Rhaid tystio'r llofnod, a rhaid i'r tyst lofnodi'r ffurflen a rhoi ei enw a'i gyfeiriad llawn. Lle mae angen llofnodion, rhaid cyflwyno fersiwn wreiddiol wedi'i llofnodi o bob papur a gwblhawyd. Ni ellir derbyn dogfennau heb lofnodion gwreiddiol.

5.109 Mae eithriad i'r gofyniad bod yn rhaid i gydsyniad gael ei roi yn ysgrifenedig. Os byddwch yn fodlon nad yw'n rhesymol ymarferol i ymgeisydd roi cydsyniad yn ysgrifenedig, am nad yw yn y DU, gallwch drin cydsyniad a gyflwynir gan ymgeisydd drwy delegram neu ddull cyfathrebu tebyg fel e-bost, ffacs neu ddogfen wedi'i sganio a anfonir yn electronig, fel cydsyniad

ysgrifenedig. Tybir bod y cydsyniad wedi'i roi ar y dyddiad y caiff ei anfon, ac nid oes angen i neb ei ardystio. Yn achos ymgeisydd sy'n byw yn Gibraltar ac sy'n sefyll yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr, os yw'r man a bennwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol i gyflwyno enwebiadau yn y DU, gall yr ymgeisydd anfon ei gydsyniad yn electronig.

Ernes

5.110 Er mwyn cael ei enwebu'n ddilys, rhaid i ymgeisydd unigol neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd neu rywun sy'n gweithredu ar ran plaid wleidyddol roi ernes o £5,000 i chi. Rhaid i'r swm hwn gael ei dalu erbyn i'r enwebiadau gau. Os caiff yr ernes ei roi i chi gan rywun sy'n gweithredu ar ran plaid neu ymgeisydd, rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i chi, oni fydd wedi darparu'r wybodaeth hon eisoes fel rhan o'i hysbysiad o benodiad fel asiant etholiad.

5.111 Mae gennych rywfaint o ddisgresiwn ynghylch sut y byddwch yn derbyn taliad yr ernes. Rhaid i'r taliad gael ei dderbyn pan gaiff ei wneud gan dendr cyfreithiol (arian parod mewn punnoedd Prydeinig yn unig) neu ddrafft bancwr y DU neu Gibraltar. Gallwch ddewis derbyn cyllid drwy siec cymdeithas adeiladu, cerdyn debyd neu gredyd neu drosglwyddo cyllid yn electronig os oes cyfleusterau ar gael i chi, er nad yw'n ofynnol i chi wneud hynny. Os byddwch yn penderfynu derbyn unrhyw rai o'r dulliau hyn dylech eu rhestru ar yr hysbysiad etholiad ac egluro unrhyw ofynion sydd gennych yn y pecyn enwebu.

Datganiad a gwybodaeth dinesydd yr UE

5.112 Rhaid i ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw am ddinasyddion Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd) roi datganiad em ei gymhwysedd i sefyll etholiad erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

5.113 Rhaid i'r datganiad gael ei wneud gan yr ymgeisydd a rhaid iddo gynnwys y canlynol:

- enw'r ymgeisydd
- cenedligrwydd yr ymgeisydd
- dyddiad a man geni'r ymgeisydd
- cyfeiriad diwethaf yr ymgeisydd yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'n ddinesydd ynddi
- cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn y DU neu Gibraltar
- os yw'r ymgeisydd yn neu wedi bod yn etholwr cofrestredig ar unrhyw adeg mewn ardal neu etholaeth yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'n ddinesydd ynddi, enw'r ardal neu etholaeth lle'r oedd wedi ei gofrestru ddiwethaf, hyd y gwyddai

5.114 Rhaid i'r datganiad hefyd nodi'r canlynol am yr ymgeisydd:

- nid yw'n sefyll fel ymgeisydd yn yr un etholiad Senedd Ewrop mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth arall o'r UE, a
- nid yw wedi'i amddifadu o'r hawl i sefyll fel ymgeisydd oherwydd penderfyniad barnwrol neu benderfyniad gweinyddol a all fod yn agored i rwymedi barnwrol ('penderfyniad anghymhwyso perthnasol') yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi

5.115 Yn ogystal â datganiad yr ymgeisydd, rhaid i chi hefyd gael gwybodaeth gan y pwynt cyswllt penodol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi o ran p'un a yw'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso oherwydd penderfyniad anghymhwyso perthnasol. Rhaid i'r wybodaeth hon nodi p'un a yw'r ymgeisydd wedi cael ei amddifadu o'r hawl i sefyll fel ymgeisydd yn y Wladwriaeth honno drwy benderfyniad anghymhwyso perthnasol neu nad oes unrhyw anghymhwysiad o'r fath yn hysbys i'r pwynt cyswllt penodol. Nid oes angen darparu'r wybodaeth hon yn Saesneg. Mae paragraffau **5.43** i **5.50** yn nodi'r broses ar gyfer caffael y wybodaeth hon a'i darparu i chi. Mae paragraffau **5.121** i **5.123** isod yn nodi effaith y wybodaeth, unwaith y bydd wedi'i derbyn, am enwebiad yr ymgeisydd.

Penderfynu ar enwebiadau

5.116 Ceir cyfraith achosion sy'n egluro na ddylai Swyddogion Canlyniadau archwilio nac ymchwilio i unrhyw ymgeisydd ac nad yw eu dyletswydd yn mynd y tu hwnt i sicrhau bod y ffurflen enwebu yn gywir yn ôl pob golwg. Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ni ddylech, er enghraifft, archwilio p'un a yw enw a roddwyd ar ffurflen enwebu yn ddilys. Bydd hefyd angen i chi ddiystyru unrhyw wybodaeth bersonol a all fod gennych eisoes am yr ymgeisydd. Bydd angen gwneud unrhyw benderfyniadau ar sail y ffurflen ei hun.[2]

---

[2] Mewn amgylchiadau prin iawn, mae eithriad, sydd hefyd yn seiliedig ar gyfraith achosion, i'r egwyddor o dderbyn papurau enwebu ar eu golwg. Efallai y dewch ar draws sefyllfa lle mae'n amlwg bod enwebiad yr ymgeisydd yn ffug ac nad yw'n enwebiad mewn gwirionedd ac nad oes angen gwneud penderfyniad arno – er enghraifft, os caiff ffurflen ei chyflwyno ar gyfer 'Mickey Mouse of Disney Land'

5.117 Dylech wneud penderfyniad ar enwebiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r dogfennau a'r ernes angenrheidiol gael eu cyflwyno'n ffurfiol. Gorau po gyntaf y gwnewch y penderfyniad ffurfiol, oherwydd bydd mwy o siawns y bydd unrhyw Swyddogion Enwebu neu ymgeiswyr sydd wedi gwneud camgymeriad ac y mae eu henwebiad wedi'i wrthod yn gallu cyflwyno papurau newydd cyn i'r enwebiadau gau.

Enwebiadau plaid

5.118 Yr unig seiliau sydd gennych ar gyfer penderfynu bod enwebiad plaid wleidyddol, ynghyd â'r rhestr plaid, yn annilys yw:

- nid yw cynnwys y ffurflen enwebu yn unol â'r gyfraith, neu
- mae nifer yr ymgeiswyr ar restr y blaid yn fwy na nifer yr ASEau i'w hethol yn y rhanbarth etholiadol

5.119 Os nad yw'r papurau enwebu wedi'u darparu i chi erbyn y dyddiad cau, ar gyfer pob ymgeisydd sydd wedi'i gynnwys ar restr plaid, unrhyw un o'r canlynol (fel y bo'n berthnasol):

- cydsyniad i enwebu
- ar gyfer ymgeisydd y mae'n ofynnol iddo wneud datganiad fel dinesydd yr UE ei ddatganiad **a**, lle cafodd y datganiad ei gyflwyno ar ôl **4pm ar 15 Ebrill 2019 (ar ôl 4pmn ar 12 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr),** y wybodaeth ofynnol gan y pwynt cyswllt penodol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi

rhaid i chi ddileu enw'r ymgeisydd hwnnw o restr y blaid o ymgeiswyr. Ni effeithir ar enwebiad y blaid ac enwebiad yr ymgeiswyr eraill ar y rhestr.

5.120 Os yw ymgeisydd yn ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd) a'ch bod wedi derbyn gwybodaeth erbyn yr adeg y byddwch yn penderfynu ar yr enwebiad gan y pwynt cyswllt penodol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi (drwy'r Ysgrifennydd Gwladol) bod yr ymgeisydd wedi'i anghymhwyso rhag sefyll etholiad, rhaid i chi ddileu enw a chyfeiriad yr ymgeisydd hwnnw o restr y blaid o ymgeiswyr. Mae paragraff **4.124** yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar beth i'w wneud os nad ydych wedi derbyn y wybodaeth hon eto.

Enwebiadau ymgeiswyr unigol

5.121 Yr unig sail sydd gennych ar gyfer penderfynu bod enwebiad ymgeisydd unigol yn annilys yw:

- nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith, neu
- mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 neu Erthygl 3(e) o Orchymyn Senedd Ewrop (Anghymhwyso) (y Deyrnas Unedig a Gibraltar) 2009 (h.y., ei fod

wedi cael ei gollfarnu o drosedd, wedi cael ei ddedfrydu i garchar neu ei gadw am fwy na blwyddyn, a'i fod wedi cael ei gadw unrhyw le yn y DU, Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Gibraltar (neu os yw yn rhydd yn anghyfreithlon)), neu

- lle mae'r ymgeisydd yn ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd), yr ydych wedi derbyn gwybodaeth gan y pwynt cyswllt penodol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'n ddinesydd ynddi (drwy'r Ysgrifennydd Gwladol) bod yr ymgeisydd wedi'i anghymhwyso rhag sefyll etholiad (ceir rhagor o ganllawiau ar beth i'w wneud os nad ydych wedi derbyn y wybodaeth hon erbyn yr adeg y byddwch yn penderfynu ar yr enwebiad ym mharagraff **5.121**)

5.122 Rydym wedi llunio rhestr wirio enwebiadau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol sy'n nodi'r hyn y bydd angen i chi ei ystyried a phethau penodol i gadw llygad amdanynt pan fyddwch yn penderfynu ar enwebiad.

5.123 Erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau, os na fyddwch chi wedi derbyn yr ernes o £5,000 sy'n ofynnol, ni fydd y blaid neu'r ymgeisydd wedi cael ei henwebu'n ddilys, ac felly ni fydd angen gwneud penderfyniad ffurfiol.

Beth i'w wneud, ar adeg penderfynu ar enwebiad, na fyddwch wedi derbyn y wybodaeth sy'n ofynnol am ymgeiswyr sy'n ddinasyddion yr UE

5.124 Os ydych yn dal i aros i gael gwybodaeth o un o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE drwy Swyddfa'r Cabinet am p'un a yw ymgeisydd sy'n ddinesydd yr UE (heblaw am ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, Maltaidd neu Gypraidd) wedi'i amddifadu rhag sefyll fel ymgeisydd oherwydd penderfyniad anghymhwyso perthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'n ddinesydd ynddi, gallwch er hynny wneud eich penderfyniad ynghylch yr enwebiad heb y wybodaeth honno. Ar yr amod bod gan yr ymgeisydd hawl i aros ar restr y blaid neu ei fod wedi cael enwebiad fel ymgeisydd unigol, rhaid ystyried bod ei enwebiad yn ddilys.

5.125 Hefyd, rhaid cynnwys enw'r ymgeisydd ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio ar yr amod nad ydych wedi cael gwybodaeth bod yr ymgeisydd wedi'i amddifadu o'r hawl i sefyll fel ymgeisydd oherwydd penderfyniad anghymhwyso perthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'n ddinesydd ynddi cyn cyhoeddi'r datganiad. Os byddwch yn derbyn gwybodaeth o'r fath ar ôl penderfynu bod yr enwebiad yn ddilys ond cyn i chi gyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd, rhaid i chi naill ai ddileu enw a chyfeiriad yr ymgeisydd o restr y blaid o ymgeiswyr neu benderfynu bod ei enwebiad fel ymgeisydd unigol yn annilys, pa bynnag un sy'n briodol.

5.126 Os byddwch yn derbyn gwybodaeth ar ôl cyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol bod ymgeisydd wedi'i amddifadu rhag sefyll fel ymgeisydd oherwydd penderfyniad anghymhwyso perthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae'n ddinesydd ynddi, bydd y bleidlais yn mynd rhagddi a chaiff y pleidleisiau a fwriwyd dros blaid yr ymgeisydd neu'r ymgeisydd unigol eu cyfrif fel pleidleisiau arferol. Fodd bynnag, caiff yr ymgeisydd dan sylw ei ddiystyru at ddibenion dyrannu seddi. Ceir rhagor o ganllawiau ar ddelio ag ymgeiswyr sydd wedi'u hanghymwyso wrth ddyrannu seddi ym mharagraff **7.58**.

Beth i'w wneud ar ôl gwneud eich penderfyniad ffurfiol

5.127 Pan fyddwch wedi penderfynu bod enwebiad yn ddilys, ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad, er y gellir ei herio ar ôl yr etholiad ar ffurf deiseb etholiadol.

5.128 Os penderfynir bod enwebiad yn annilys, mae'n rhaid i chi nodi hynny ar y ffurflen enwebu, nodi'r rhesymau dros ei gwrthod a'i llofnodi. Os byddwch yn dileu enw ymgeisydd oddi ar restr plaid o ymgeiswyr, rhaid i chi nodi hynny hefyd ar y ffurflen enwebu, nodi'r rhesymau dros ei ddileu a'i lofnodi.

5.129 Os penderfynir bod enwebiad yn annilys, mae'n bwysig cymryd camau i gysylltu â'r Swyddog Enwebu a/neu yr ymgeisydd a'r asiant cyn gynted â phosibl fel y gall gael y cyfle pan fo hynny'n bosibl i gyflwyno set arall o bapurau enwebu arall cyn i enwebiadau gau.

Cywiro mân wallau

5.130 Caniateir i chi gywiro mân wallau a wneir ar ffurflenni enwebu neu restrau pleidiau unrhyw bryd cyn i chi gyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol. Mae hyn yn cynnwys cywiro gwallau sillafu amlwg ym manylion ymgeisydd neu ddisgrifiad cofrestredig plaid wleidyddol. Gall fod yn anoddach delio â gwallau sillafu 'amlwg', oherwydd efallai na fydd rhywbeth sy'n amlwg i un person yn amlwg i rywun arall. Dylid bod yn ofalus wrth arfer y pŵer hwn. Dylech geisio cysylltu â Swyddog Enwebu y blaid neu'r ymgeisydd neu'r asiant cyn diwygio unrhyw fân wallau.

5.131 Rhaid i chi ystyried canllawiau'r Comisiwn ar gywiro mân wallau.

5.132 Nid yw gwallau yng nghyfeiriad cartref ymgeisydd, naill ai ar restr plaid o ymgeiswyr neu ar ffurflen enwebu ymgeisydd unigol, yn effeithio ar weithrediad llawn enwebiad, ar yr amod y gellir deall y cyfeiriad yn gyffredinol.

Gwrthwynebiadau i enwebiadau

5.133 Yr unig bobl sydd â hawl i wrthwynebu enwebiad yw'r rhai sydd â hawl i fod yn bresennol, fel y nodir ym mharagraff **5.63**.

5.134 Dim ond dilysrwydd ffurflen enwebu neu restr plaid o ymgeiswyr y gellir ei wrthwynebu.

5.135 Dim ond ar yr adegau canlynol y gellir gwneud gwrthwynebiadau:

- ar gyfer enwebiadau a gyflwynwyd cyn y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau (h.y. ar neu cyn 25 Ebrill 2019 (ar neu cyn 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)): **rhwng 10am a 12 hanner dydd ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau (25 Ebrill 2019 (24 Ebrill 2018 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)).**

- ar gyfer enwebiadau a gyflwynwyd ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau (25 Ebrill 2019 (24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)): **hyd at 5pm ar yr un diwrnod**, oni bai bod y gwrthwynebiad yn ymwneud â pha mor ddigonol yw manylion plaid gofrestredig neu ymgeisydd ar restr y blaid neu natur y manylion hynny neu fanylion ymgeisydd unigol, lle bydd yn rhaid gwneud y gwrthwynebiad ar yr adeg y caiff y papur ei gyflwyno neu yn union ar ôl hynny.

5.136 Dylech ystyried unrhyw wrthwynebiad sy'n dod i law yn ystod y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwrthwynebu. Ni ddylech gynnal unrhyw ymchwiliad na chlywed unrhyw sylwadau sy'n cefnogi neu'n herio unrhyw ffaith neu ddatganiad a roddir ar y ffurflen enwebu neu rhestr plaid o ymgeiswyr. Rhaid i chi benderfynu ar unrhyw wrthwynebiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud ac, ym mhob achos, rhaid i chi wneud hynny o fewn 24 awr i'r enwebiadau gau. (h.y. **cyn 4pm ar 26 Ebrill 2019 (cyn 4pm ar 25 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**).

5.137 Dylech gyfyngu'r broses wrthwynebu i'r ffurflenni enwebu a rhestr pleidiau o ymgeiswyr. Pan fyddwch, o ganlyniad i wrthwynebiad, yn penderfynu y dylai enwebiad rydych eisoes wedi penderfynu arno fod wedi'i bennu'n annilys, rhaid i chi ddangos ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd unrhyw blaid neu berson (p'un a yw ar restr plaid o ymgeiswyr, neu ymgeisydd unigol) nad yw wedi'i enwebu'n ddilys mwyach ynghyd â'r rheswm pam nad oes ganddo enwebiad mwyach, a dylech hysbysu'r ymgeisydd a/neu y blaid, fel sy'n briodol.

5.138 Os yw'n ymddangos i chi fel y gall ymgeisydd unigol gael ei anghymhwyso rhag sefyll etholiad drwy Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 neu Erthygl 3(e) o Orchymyn Senedd Ewrop (Anghymhwyso) (y Deyrnas Unedig a Gibraltar) 2009, (h.y. ei fod wedi'i euogfarnu o drosedd a ac wedi cael ei ddedfrydu i gyfnod yn y carchar neu wedi'i gadw'n gaeth am fwy na blwyddyn, a'i fod unrhyw le yn y DU, Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Gibraltar (neu ei fod yn rhydd yn anghyfreithlon)), rhaid i chi, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cau enwebiadau gyhoeddi drafft o'r rhan o'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd sy'n dangos unigolion sydd wedi ac sy'n cael eu henwebu fel ymgeiswyr unigol. Caniateir cyfnod gwrthwynebu ychwanegol, o ran yr ymgeiswyr hynny, rhwng 10am a 4pm ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cau enwebiadau.

5.139 Rhaid i'r datganiad drafft gynnwys y pennawd 'datganiad drafft ynghylch ymgeiswyr unigol a enwebwyd' ynghyd â hysbysiad sy'n nodi y caiff unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu enwebiad unrhyw ymgeisydd unigol ar y sail ei fod wedi'i anghymhwyso rhag sefyll etholiad o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 neu Erthygl 3(e) o Orchymyn Senedd Ewrop (Anghymhwyso) (y Deyrnas Unedig a Gibraltar) 2009 wneud hynny rhwng 10am a 4pm yn y man a nodwyd gennych yn yr hysbysiad. Rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi ar ba ddyddiad y gellir gwneud gwrthwynebiadau o'r fath (y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cau enwebiadau).

5.140 Os byddwch yn derbyn gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwn, dylech ei ddatrys cyn gynted â phosibl a chyn y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd (ceir canllawiau ar gyhoeddi'r datganiad ym mharagraff **6.43**)

Storio'r papurau enwebu

5.141 Rhaid i chi gadw'r papurau enwebu yn ddiogel a chaniatáu i bobl a restrir yn 'Presenoldeb wrth gyflwyno papurau enwebu' eu harchwilio. Ar ddiwedd y terfyn amser ar gyfer gwrthwynebu, dylech storio'r papurau enwebu yn ddiogel am flwyddyn ar ôl yr etholiad.

Tynnu enwau plaid neu ymgeisydd unigol yn ôl

5.142 Mae'n bosibl i blaid a enwebwyd yn ddilys dynnu ei henwebiad yn ôl, ac i ymgeisydd unigol dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl. Rhaid derbyn hysbysiadau tynnu enw'n ôl â llaw yn bersonol (nid drwy'r post, dros e-bost, dros ffacs na thrwy ddulliau dosbarthu eraill) ac nid drwy'r post, dros e-bost, dros ffacs na thrwy ddulliau electronig eraill i'r man cyflwyno enwebiadau. Gall cyflwyno â llaw gynnwys drwy negesydd. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad tynnu enw yn ôl.

5.143 Er mwyn i blaid wleidyddol dynnu ei henwebiad yn ôl, rhaid i'r Swyddog Enwebu neu berson y mae wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig lofnodi hysbysiad tynnu enw'n ôl, y mae'n rhaid ei gyflwyno erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais (h.y. **erbyn 4pm ar 25 Ebrill 2019 (erbyn 4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth De-orllewin Lloegr)**). Ni all ymgeisydd sydd wedi'i gynnwys ar restr plaid o ymgeiswyr dynnu ei enw'n ôl, er y gall y blaid gyflwyno enwebiad newydd a rhestr o ymgeiswyr ar unrhyw adeg hyd at y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau (ceir rhagor o fanylion am gyflwyno papurau enwebu newydd ym mharagraffau **5.59** i **5.62**).

5.144 Er mwyn i ymgeisydd unigol dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl, rhaid i'r ymgeisydd lofnodi hysbysiad tynnu enw'n ôl, wedi'i ardystio gan un tyst, y mae'n rhaid ei gyflwyno erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais (h.y. **erbyn 4pm ar 25 Ebrill 2019 (erbyn 4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth De-orllewin Lloegr)**).

5.145 Ni phennir yr hysbysiad tynnu enw yn ôl mewn deddfwriaeth. Rydym wedi llunio templed o hysbysiad tynnu enw yn ôl y gallech ei roi i unrhyw blaid neu ymgeisydd sy'n gofyn am un.

5.146 Pan fydd plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol wedi tynnu'n ôl, rhaid i chi gynnwys enw'r blaid a'i hymgeiswyr neu'r ymgeisydd unigol ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd, gan nodi nad ydynt wedi cael eu henwebu mwyach ynghyd â'r rheswm pam nad ydynt wedi cael eu henwebu mwyach. Ceir rhagor o ganllawiau ar gyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd ym **Mhennod 6 isod**.

5.147 Rhaid argraffu manylion unrhyw blaid wleidyddol (a'i rhestr o ymgeiswyr) neu ymgeisydd unigol sydd wedi'u henwebu'n ddilys o hyd ar adeg y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau ar y papurau pleidleisio. Os nad yw plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol wedi tynnu ei enw yn ôl erbyn y dyddiad cau, bydd yn rhaid i'w manylion gael eu cynnwys ar y papur pleidleisio, hyd yn oed os byddant yn newid eu meddyliau ac am dynnu eu henw'n ôl.

Enwebiad mewn mwy nag un ardal

5.148 Mae'n drosedd i unigolyn gydsynio ag enwebiad fel ymgeisydd mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol mewn etholiad Senedd Ewrop a gynhelir ar yr un dyddiad.

Etholiadau diwrthwynebiad

5.149 Os yw cyfanswm nifer yr ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys mewn rhanbarth etholiadol yr un faith neu'n llai na nifer y seddi, bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad a gellir cyhoeddi bod yr ymgeiswyr hynny wedi'u hethol. Ni chynhelir pleidlais. Mae paragraff **6.43** ymlaen yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar gyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd.

Dychwelyd ernesau

5.150 Pan fydd plaid neu ymgeisydd unigol wedi talu ernes ond na ddangosir ei fod wedi'i enwebu yn y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd, er enghraifft am eich bod wedi penderfynu nad yw ei enwebiad yn ddilys, rhaid i chi ddychwelyd yr ernes i'r unigolyn a'i gwnaeth neu ei gynrychiolwyr personol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r datganiad ynghylch y pleidiau a'r ymgeiswyr unigol a enwebwyd. Mae paragraff **6.43** ymlaen yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar gyhoeddi'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd.

6 Gweinyddu'r bleidlais

Dyddiadau cau etholiadol yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr

O ganlyniad i ŵyl y banc yn Gibraltar ar 29 Ebrill ac ar 1 Mai 2019, mae rhai dyddiadau cau etholiadol yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr yn wahanol i'r dyddiadau cau ar gyfer gweddill Prydain Fawr. Yn yr achos hwn, rydym wedi cynnwys dyddiad cau De-orllewin Lloegr mewn cromfachau ynghyd â'r dyddiad cau ar gyfer gweddill Prydain Fawr.

Asiantiaid yn yr etholiad

Asiant etholiad cenedlaethol ar gyfer plaid wleidyddol

6.1 Rhaid i unrhyw blaid sy'n sefyll etholiad mewn mwy nag un rhanbarth etholiad Senedd Ewrop benodi asiant etholiad cenedlaethol sy'n gweithredu fel yr asiant etholiad ar gyfer yr holl ranbarthau etholiadol lle mae'r blaid yn cyflwyno rhestr o ymgeiswyr. Dim ond un asiant etholiad cenedlaethol a all fod ar gyfer pob plaid ar unrhyw adeg. Gall yr asiant cenedlaethol fod yn Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid, ond nid yw hynny'n ofynnol.

6.2 Yn wahanol i asiantiaid etholiad eraill, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael ei hysbysu am benodiad yr asiant etholiad cenedlaethol gan Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid neu ar ei ran erbyn yr amser olaf ar gyfer cyflwyno enwau a gaiff eu tynnu'n ôl, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais (h.y. erbyn **4pm ar 24 Ebrill 2014 (erbyn 22 Ebrill 2014 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**). Os na wneir unrhyw benodiad erbyn y ddyddiad cau hwn, ystyrir bod Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid wedi penodi ei hun fel asiant etholiad cenedlaethol.

6.3 Oni ddatganir mai'r asiant etholiad yw'r Swyddog enwebu, rhaid i'r asiant sy'n cael ei benodi naill ai wneud y datganiad a'i lofnodi neu rhaid iddo gyd-fynd â datganiad derbyn ysgrifenedig sydd wedi'i lofnodi gan yr asiant a gaiff ei benodi. Mae ffurflenni ar gyfer hysbysu o benodiad asiant etholiad cenedlaethol wedi'u datblygu gan y Comisiwn a gallwch eu defnyddio i'w rhoi i bleidiau a Swyddogion Enwebu at y diben hwn.

6.4 Mae'n ofynnol i'r asiant etholiad cenedlaethol gael swyddfa yn y DU. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi enwau, cyfeiriadau a chyfeiriadau swyddfa'r asiantiaid etholiad cenedlaethol (ac unrhyw ddiweddariadau os caiff penodiad asiant ei ddiddymu, neu os bydd asiant farw, a bod asiant newydd yn cael ei benodi). Rydym yn deall y bydd Swyddfa'r Cabinet yn darparu'r wybodaeth hon i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ac mae hefyd yn bwriadu ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Cabinet.

Asiant etholiad ar gyfer plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol

6.5 Rhaid i blaid wleidyddol sy'n sefyll etholiad mewn un rhanbarth etholiad Senedd Ewrop a phob ymgeisydd unigol (h.y. y sawl nad ydynt wedi'u cynnwys ar restr plaid) benodi asiant etholiad. Rhaid datgan enw a chyfeiriad yr asiant yn ysgrifenedig i chi gan neu ar ran Swyddog Enwebu'r blaid (ar gyfer plaid wleidyddol) neu gan neu ar ran yr ymgeisydd unigol erbyn yr amser olaf ar gyfer cyflwyno enwau a gaiff eu tynnu'n ôl, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais (h.y. erbyn **4pm ar 25 Ebrill 2019 (erbyn 4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**). Os na wneir unrhyw benodiad erbyn y dyddiad cau hwn, ystyrir bod Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid neu'r ymgeisydd unigol, fel sy'n briodol, wedi penodi ei hun fel asiant etholiad.

6.6 Oni ddatganir mai'r asiant etholiad yw'r Swyddog Enwebu, neu'r ymgeisydd unigol, rhaid i'r asiant sy'n cael ei benodi naill ai wneud y datganiad a'i lofnodi neu rhaid iddo gyd-fyd â datganiad derbyn ysgrifenedig sydd wedi'i lofnodi gan yr asiant a gaiff ei benodi. Mae ffurflenni ar gyfer hysbysu o benodiad asiant etholiad wedi'u datblygu gan y Comisiwn a gallwch eu defnyddio i'w rhoi i bleidiau a Swyddogion Enwebu ac ymgeiswyr unigol at y diben hwn.

6.7 Mae'n ofynnol i'r asiant etholiad gael swyddfa yn y DU neu, ar gyfer plaid neu ymgeisydd sy'n sefyll etholiad yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr, y DU neu Gibraltar, a rhaid i gyfeiriad y swyddfa gael ei ddatgan i chi ar yr un pryd ag y caiff penodiad yr asiant ei ddatgan i chi. Y cyfeiriad hwn yw'r cyfeiriad y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill iddo a gall fod yn gyfeiriad cartref yr asiant.

6.8 Pan gewch eich hysbysu o enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa asiant etholiad, mae'n ofynnol i chi gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion hynny cyn gynted â phosibl. Dylech ddarparu copi o'r hysbysiad i'r holl Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth etholiadol er mwyn iddynt gael eu cyhoeddi'n lleol.

Marwolaeth asiant neu ddirymu penodiad asiant

6.9 Ni all asiant etholiad ymddiswyddo a rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol ohono oni bai bod y blaid neu'r ymgeisydd unigol yn dirymu ei benodiad a nes i hynny ddigwydd.

6.10 Gall Swyddog Enwebu neu ymgeisydd unigol ddirymu penodiad ei asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad (fel sy'n briodol) unrhyw bryd. Gall y Swyddog Enwebu neu'r ymgeisydd unigol hefyd ddirymu ei benodiad ei hun fel asiant etholiad neu asiant etholiad cenedlaethol (fel sy'n briodol) unrhyw bryd).

6.11 Os bydd asiant etholiad yn marw neu os caiff ei benodiad ei ddirymu, rhaid gwneud penodiad newydd naill ai i'r Ysgrifennydd Gwladol (ar gyfer asiant etholiad cenedlaethol) neu i chi (ar gyfer asiant etholiad).

6.12 Rhaid i'r hysbysiad o benodiad gael ei ddiweddaru os di-rymir penodiad asiant, neu os bydd asiant yn marw, a rhaid nodi manylion yr asiant newydd ar y fersiwn ddiwygiedig. Dylech anfon copi o'r hysbysiad diwygiedig at Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn iddynt gael eu cyhoeddi'n lleol. Mae paragraffau **6.35** a **6.36** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses o gyhoeddi hysbysiadau.

Asiant cenedlaethol neu asiant etholiad plaid wleidyddol

6.13 Yn achos marwolaeth asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad, rhaid gwneud penodiad newydd ar ddiwrnod y farwolaeth neu ar y diwrnod canlynol. Os na wneir unrhyw benodiad newydd, ystyrir bod Swyddog Enwebu'r blaid wedi penodi ei hun fel asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad (fel sy'n briodol) o adeg y farwolaeth. Gellir dirymu'r penodiad tybiedig hwn yn dilyn hynny.

6.14 Os caiff penodiad asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad ei ddirymu, ystyrir bod Swyddog Enwebu'r blaid wedi penodi ei hun fel asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad (fel sy'n briodol).

6.15 Unwaith y byddwch yn fodlon y caiff y Swyddog Enwebu ei drin fel asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad (fel sy'n briodol) rhaid i chi gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r hysbysiad o benodiad asiantiaid etholiad gyda manylion yr asiant newydd.

6.16 Gall penodiad tybiedig gael ei ddirymu yn dilyn hynny yn yr un modd â phenodiad gwirioneddol.

Asiant etholiad ymgeisydd unigol

6.17 Yn achos marwolaeth asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad, rhaid gwneud penodiad newydd ar ddiwrnod y farwolaeth neu ar y diwrnod canlynol. Os na wneir penodiad newydd, ystyrir bod yr ymgeisydd unigol wedi penodi ei hun fel asiant etholiad o adeg y farwolaeth.

6.18 Os caiff penodiad asiant etholiad ei ddirymu, ystyrir bod yr ymgeisydd unigol wedi penodi ei hun fel asiant etholiad.

6.19 Unwaith y byddwch yn fodlon y caiff y Swyddog Enwebu ei drin fel asiant etholiad cenedlaethol neu asiant etholiad (fel sy'n briodol) rhaid i chi gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r hysbysiad o benodiad asiantiaid etholiad gyda manylion yr asiant newydd. Pan gaiff ymgeisydd unigol ei drin fel ei asiant etholiad ei hun, ystyrir bod swyddog yr asiant yn y cyfeiriad a roddir yn y datganid o bleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd.

6.20 Gellir dirymu penodiad tybiedig yn dilyn hynny yn yr un modd â phenodiad gwirioneddol.

Is-asiantiaid

Is-asiantiaid ar gyfer plaid wleidyddol

6.21 Gall asiant etholiad cenedlaethol plaid wleidyddol neu unigolyn a benodir ganddo benodi is-asiant i weithredu mewn unrhyw ranbarth etholiadol neu ran o ranbarth etholiad y mae'r blaid yn sefyll ynddo. Gall asiant etholiad penodol benodi un is-asiant ar gyfer y rhanbarth etholiadol cyfan ac un is-asiant ar gyfer unrhyw ran o'r rhanbarth etholiadol. Gall is-asiant a benodir ar gyfer rhanbarth etholiadol cyfan, unwaith iddo gael ei benodi, benodi is-asiantiaid ar gyfer rhannau o'r rhanbarth etholiadol hwnnw. Pan gaiff is-asiantiaid eu penodi mewn perthynas â rhannau o ranbarth etholiadol, dim ond un is-asiant y gellir ei benodi ar gyfer pob rhan.

6.22 Gall asiant etholiad plaid wleidyddol sy'n sefyll mewn un rhanbarth etholiadol yn unig benodi is-asiant i weithredu yn unrhyw ran o'r rhanbarth etholiadol y mae'r blaid yn sefyll ynddo. Dim ond un is-asiant y gellir ei benodi ar gyfer pob rhan.

6.23 Mae'n ofynnol i is-asiant gael swyddfa yn y DU neu, ar gyfer plaid sy'n sefyll etholiad yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr, y DU neu Gibraltar, a rhaid i gyfeiriad y swyddfa gael ei ddatgan i chi ar yr un pryd ag y caiff penodiad yr is-asiant ei ddatgan i chi. Y cyfeiriad hwn yw'r cyfeiriad y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill iddo.

6.24 Gall is-asiant wneud unrhyw beth y mae gan yr asiant etholiad hawl i'w wneud yn yr ardal lle y'i penodwyd.

6.25 Rhaid i'r asiant etholiad cenedlaethol, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, neu'r asiant etholiad (fel sy'n briodol) ddatgan i chi yn ysgrifenedig enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa pob is-asiant a benodwyd ganddo a'r ardal lle y caiff weithredu erbyn y pumed diwrnod gwaith cyn diwrnod y bleidlais (h.y. erbyn **16 Mai 2019**). Dylech gynnwys ffurflen hysbysu ynghylch penodi is-asiantiaid yn eich pecynnau enwebu. Rydym wedi llunio ffurflen ar gyfer hysbysu ynghylch penodiad is-asiantiaid y gallech ei defnyddio at y diben hwn.

6.26 Caiff yr asiant etholiad cenedlaethol neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, neu asiant etholiad (fel sy'n briodol) ddirymu penodiad is-asiant ar unrhyw adeg. Os bydd is-asiant yn marw neu os caiff ei benodiad ei ddirymu, gall yr asiant etholiad cenedlaethol (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran) neu'r asiant etholiad (fel sy'n briodol) benodi is-asiant newydd drwy roi datganiad ysgrifenedig i chi sy'n nodi enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal penodi'r is-asiant newydd.

6.27 Pan fydd enw, cyfeiriad, cyfeiriad cartref ac ardal is-asiant wedi'u datgan i chi, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad o'r manylion hyn. Dylech anfon yr hysbysiad hwn at y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn y rhanbarth etholiadol (ac unrhyw ddiweddariadau os caiff penodiad is-asiant ei ddirymu a bod is-asiant newydd yn cael ei benodi) ar gyfer ei gyhoeddi'n lleol.

Is-asiantiaid ar gyfer ymgeisydd unigol

6.28 Gall asiant etholiad ymgeisydd unigol benodi is-asiant i weithredu yn unrhyw ran o'r rhanbarth etholiadol y mae'r ymgeisydd yn sefyll ynddo. Dim ond un is-asiant y gellir ei benodi ar gyfer pob rhan.

6.29 Mae'n ofynnol i is-asiant gael swyddfa yn y DU neu, ar gyfer ymgeisydd sy'n sefyll etholiad yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr, y DU neu Gibraltar. Rhaid i gyfeiriad y swyddfa gael ei ddatgan i chi ar yr un pryd ag y caiff penodiad yr is-asiant ei ddatgan i chi. Y cyfeiriad hwn yw'r cyfeiriad y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill iddo.

6.30 Gall is-asiant wneud unrhyw beth y mae gan yr asiant etholiad hawl i'w wneud yn yr ardal lle y'i penodwyd.

6.31 Rhaid i'r asiant etholiad roi hysbysiad ysgrifenedig i chi o enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa pob is-asiant a benodwyd ganddo a'r ardal lle y caiff weithredu erbyn y 15fed diwrnod gwaith cyn yr etholiad h.y. erbyn **15 Mai 2019**). Dylech gynnwys ffurflen hysbysu ynghylch penodi is-asiantiaid yn eich pecynnau enwebu. Rydym wedi llunio ffurflen ar gyfer hysbysu ynghylch penodiad is-asiantiaid y gallech ei defnyddio at y diben hwn.

6.32 Caiff yr asiant etholiad ddirymu penodiad is-asiant ar unrhyw adeg. Os bydd is-asiant yn marw neu os caiff ei benodiad ei ddirymu, gall yr asiant etholiad benodi is-asiant newydd drwy roi datganiad ysgrifenedig i chi sy'n nodi enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal penodi'r is-asiant newydd.

6.33 Pan fydd enw, cyfeiriad, cyfeiriad cartref ac ardal penodi is-asiant wedi'i ddatgan i chi, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad o'r manylion hyn. Dylech anfon yr hysbysiad hwn at y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn y rhanbarth etholiadol (ac unrhyw ddiweddariadau os caiff penodiad is-asiant ei ddirymu a bod is-asiant newydd yn cael ei benodi) ar gyfer ei gyhoeddi'n lleol.

Asiantiaid eraill

6.34 Gall asiantiaid eraill gael eu penodi er mwyn arsylwi'r gwaith o agor pleidleisiau drwy'r post, y bleidlais a'r cyfrif ym mhob ardal bleidleisio. Rhaid rhoi hysbysiad o'r penodiadau hyn i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol. Dylech gael cynlluniau ar waith ar gyfer cydlynu trefniadau i benodi asiantiaid ledled y rhanbarth etholiadol a chydgysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal er mwyn pennu'r ffordd orau o sicrhau bod y broses hon mor syml â phosibl ar gyfer pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid, a sicrhau bod y trefniadau'n cael eu cyfathrebu'n glir.

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses o benodi asiantiaid pleidleisio drwy'r post, asiantiaid pleidleisio ac asiantiaid cyfrif yn Rhan C – Gweinyddu'r etholiad neu yn ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol ag etholiad ar gyfer Senedd Ewrop yn unig, ac ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ag etholiad lleol ac etholiad Senedd Ewrop ar y cyd.

Paratoi a chyhoeddi hysbysiadau

Sut i roi hysbysiad cyhoeddus

6.35 Rhaid i chi roi unrhyw hysbysiad cyhoeddus y mae'n ofynnol i chi ei roi yn ôl y gyfraith drwy osod yr hysbysiad mewn man neu fannau amlwg yn y rhanbarth etholiadol. Mae hyn yn cynnwys swyddfeydd awdurdodau lleol, hysbysfyrddau, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill. Yn ogystal, gellir rhoi'r hysbysiad mewn unrhyw ffordd arall sy'n addas yn eich barn chi.

6.36 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn pryd er mwyn iddynt bleidleisio, dylech sicrhau bod gwybodaeth am yr etholiadau, gan gynnwys yr hysbysiadau etholiad a'r hysbysiadau pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis drwy wefan yr awdurdod lleol.

6.37 Os ydych yn darparu gwybodaeth ar eich gwefan, dylech sicrhau ei bod yn hygyrch i bob pleidleisiwr. Er enghraifft, os ydych yn darparu gwybodaeth ar ffurf PDF, dylech fod yn ymwybodol os na chaiff camau penodol eu dilyn wrth greu PDF efallai na fydd yn cyd-fynd â darllenwyr sgriniau a thechnolegau cynorthwyol eraill. Mae Llywodraeth y DU wedi llunio canllaw ar lunio PDFau hygyrch i chi gyfeirio ato. Gallech hefyd siarad â swyddog cydraddoldeb eich awdurdod am gyngor.

6.38 Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, bydd angen i chi ystyried a yw'n briodol neu'n angenrheidiol i'r hysbysiadau barhau i gael ei gyhoeddi, ar eich gwefan neu rywle arall, ar ôl i gyfnod deiseb yr etholiad hwnnw ddod i ben. Lle mae gan yr hysbysiad ddibenion penodol, h.y. nodi pwy fydd yn ymgeisydd yn yr etholiad, unwaith y bydd yr etholiad drosodd, a bod y cyfle i gwestiynu'r etholiad hwnnw wedi darfod, ni fydd ganddynt unrhyw ddiben pellach mwyach. Felly, dylech naill ai ddileu'r hysbysiadau, neu ddileu'r data personol sydd ynddynt, pan fydd dyddiad cau deiseb yr etholiad wedi mynd heibio.

6.39 Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu cadw data personol am fwy o amser os caiff y data eu prosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd yn unig, neu at ddibenion gwyddonol, hanesyddol neu ystadegol ac yn ddarostyngedig i weithredu mesurau diogelu priodol. Ar gyfer hysbysiadau canlyniadau etholiad, er enghraifft, dylech gadw'r rhain ar eich gwefan gan eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd ac at ddibenion hanesyddol ac ystadegol.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am yr etholiadau, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth am bleidleisio yn hawdd drwy wefan yr awdurdod lleol.

Gweler Rhan B – 'Cynllunio a threfnu' i gael canllawiau mwy cyffredinol ar gyfleu gwybodaeth i etholwyr.

6.40 Dylai prosesau gwirio cadarn fod ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau yn yr hysbysiadau y mae'n ofynnol i chi eu cyhoeddi. Gallai sicrhau bod prosesau prawfddarllen cadarn ar waith helpu i ganfod unrhyw wallau ac osgoi achosion posibl o dorri data cyn iddynt ddigwydd.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad(au) etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael prosesau ar waith i brawfddarllen yr hysbysiad(au).

6.41 Dylech gael cynlluniau ar waith ar gyfer rheoli neu gydlynu'r broses o gyhoeddi hysbysiadau y mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Lleol eu cyhoeddi'n lleol, er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch. Bydd hefyd angen i chi ystyried sut y byddwch yn darparu unrhyw hysbysiadau i'w cyhoeddi'n lleol gan y Swyddog Canlyniadau Lleol er mwyn sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn cael hysbysiadau er mwyn eu cyhoeddi mewn pryd.

Cyfieithu a fformatau hysbysiadau

6.42 Mae'n ofynnol i chi sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyfieithu neu eu darparu mewn fformat arall, lle y credwch ei bod yn briodol gwneud hynny. Cewch eu paratoi:

- mewn Braille
- mewn ieithoedd heblaw Saesneg (neu yng Nghymru, Cymraeg a Saesneg)
- drwy ddefnyddio lluniau
- mewn fformat sain
- drwy ddefnyddio unrhyw ffordd arall o wneud y wybodaeth yn hygyrch

6.43 Nid yw hyn yn cynnwys papurau enwebu, na ellir eu llunio mewn ieithoedd neu fformatau amgen. Fodd bynnag, rhaid i'r copi llaw a'r copi wedi'i chwyddo o'r papur pleidleisio gynnwys y cyfarwyddiadau i bleidleiswyr wedi'u hargraffu ar frig y papur(au), a gellir cyfieithu'r geiriau hyn i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

Hysbysiad etholiad

6.44 Mae'n ofynnol i chi gyhoeddi'r hysbysiad o etholiad heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio(h.y. erbyn **15 Ebrill 2019** (erbyn **12 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr**). Rhaid i chi hefyd roi copi o'r hysbysiad i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer pob ardal gyfrif yn eich rhanbarth etholiadol er mwyn iddo gael ei gyhoeddi'n lleol.

6.45 Mae'n rhaid i'r hysbysiad etholiad gynnwys y canlynol:

- ble a phryd y gellir cyflwyno papurau enwebu, a nodi y gellir cael gafael ar bapurau enwebu yn y fan honno ac o fewn yr amseroedd hynny
- os byddwch wedi penderfynu derbyn taliadau electronig, y trefniadau ar gyfer talu ernesau pleidiau ac ymgeiswyr yn electronig
- dyddiad y bleidlais os caiff yr etholiad ei ymladd
- y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer pleidleisiau absennol (yn cynnwys pleidleisiau argyfwng drwy ddirprwy) ac unrhyw ganslo neu newid trefniadau pleidleisio absennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad.

6.46 Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer cofrestru gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer etholiad.

6.47 Dylai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu fod yn union gywir, a dylai gynnwys unrhyw rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser. Dylid hysbysu holl aelodau staff derbynfa'r adeilad ac adeiladau cysylltiedig eraill na ddylent dderbyn papurau enwebu.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad(au) etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael prosesau ar waith i brawfddarllen yr hysbysiad(au).

Datganiad o bleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd a hysbysiad etholiad

6.48 Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau i bapurau enwebu na rhestrau o ymgeiswyr, mae'n ofynnol i chi gyhoeddi datganiad o bleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd ar gyfer y rhanbarth etholiadol ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, sef 5pm, 19 diwrnod gwaith cyn y bleidlais (h.y. **5pm ddydd lau 25 Ebrill 2019 (5pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**). Os oes unrhyw wrthwynebiadau, rhaid i chi gyhoeddi'r hysbysiad unwaith y bydd y gwrthwynebiadau wedi'u datrys ac erbyn 4pm, 18 diwrnod gwaith cyn y bleidlais (h.y. **4pm ar 26 Ebrill 2019 (4pm ar 25 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr)**).

6.49 Os oes mwy o ymgeiswyr nag sydd o seddi, rhaid cynnal pleidlais. Mewn achos o'r fath, rhaid i chi gynnwys yn y datganiad o'r unigolion a'r pleidiau a enwebwyd yr hysbysiad o etholiad, y mae'n rhaid iddo nodi dyddiad ac oriau'r bleidlais. Mae paragraff **6.53** yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch beth i'w wneud os na chaiff yr etholiad ei ymladd.

6.50 Rhaid i chi roi copi o'r datganiad i bob Swyddog Canlyniadau Lleol cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi'n lleol.

6.51 Rhaid i chi hefyd anfon copi i'r Comisiwn Etholiadol. E-bostiwch PDF o'r datganiad i pef@electoralcommission.org.uk neu anfonwch gopi caled i'r cyfeiriad canlynol:

Cyllid Pleidiau ac Etholiadau

Y Comisiwn Etholiadol

3 Bunhill Row

London

EC1Y 8YZ

6.52 Rhaid i'r datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd gynnwys:

- unrhyw bleidiau sydd wedi cael enwebiad ac sy'n cael enwebiad a'u rhestr o ymgeiswyr
- unrhyw ymgeiswyr unigol sydd wedi cael enwebiad ac sy'n cael enwebiad
- unrhyw bleidiau eraill, ymgeiswyr ar restr plaid neu ymgeiswyr unigol sydd wedi cael eu henwebu ond nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, ynghyd â'r rheswm pam nad ydynt wedi'u henwebu mwyach
- os caiff y bleidlais ei hymladd, yr hysbysiad o etholiad
- os na chaiff yr etholiad ei ymladd, datganiad bod yr holl ymgeiswyr a ddangosir wedi cael eu hethol (gweler hefyd baragraff **6.53 below**)

6.53 Rhaid i'r pleidiau gael eu rhestru i ddechrau, yn nhrefn yr wyddor o ran enwau eu plaid, gydag enw'r blaid wedi'i ddilyn gan ddisgrifiad o'r blaid gofrestredig, os o gwbl. Rhaid i enw cyfan y blaid gael ei ystyried yn y drefn, yn cynnwys y gair 'Y' ('The' yn Saesneg) lle caiff ei ddefnyddio ar ddechrau unrhyw enw plaid.

6.54 Rhaid i enwau a chyfeiriadau cartref yr ymgeiswyr ar restr y blaid o ymgeiswyr hefyd gael eu dangos ar y datganiad gydag enw'r blaid a'i disgrifiad (os o gwbl). Rhaid i enwau'r ymgeiswyr gael eu rhestru yn y drefn y maent yn ymddangos ar restr y blaid o ymgeiswyr.

6.55 Rhaid i enwau unrhyw ymgeiswyr unigol gael eu rhestru ar ôl y pleidiau gwleidyddol a rhaid iddynt ymddangos yn nhrefn yr wyddor ar gyfer eu cyfenw. Pan fydd gan ddau neu fwy o ymgeiswyr yr un cyfenw, trefn yr wyddor yr enwau eraill fydd yn penderfynu pa ymgeisydd a gaiff ei restru yn gyntaf.

6.56 Os bydd unigolyn wedi gofyn am i enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio ar ei ffurflen enwebu neu ar restr plaid o ymgeiswyr, rhaid i'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddangos ar y datganiad yn hytrach na'i enw

gwirioneddol. Fodd bynnag, os ydych wedi gwrthod y defnydd o unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin gan eich bod o'r farn ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anweddus neu'n sarhaus, rhaid i'r enw gwirioneddol gael ei gyhoeddi ar y datganiad ynghylch y pleidiau a'r ymgeiswyr unigol a enwebwyd yn lle'r enw a ddefnyddir yn gyffredin.

6.57 Pan fydd ymgeisydd unigol wedi gofyn am i gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio, rhaid pennu safle'r ymgeisydd yn nhrefn yr wyddor ar y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd ar y papur pleidleisio drwy gyfeirio at eu cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin.

Etholiadau diwrthwynebiad

6.58 Os na chaiff yr etholiad ei ymladd, rhaid i chi gynnwys yn y datganiad o bleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd, yn ogystal ag enwau'r pleidiau, ymgeiswyr ar restrau pleidiau ac ymgeiswyr unigol, ddatganiad bod yr holl ymgeiswyr a ddangosir wedi cael eu hethol.

6.59 Rhaid i chi anfon copi o'r datganiad yn cynnwys y datganiad at yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr hefyd anfon y datganiad at Brif Ysgrifennydd Llywodraeth Gibraltar.

Hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio

6.60 Mae hefyd yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Lleol gyhoeddi hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio ar gyfer eu hardal gyfrif a rhoi copi o'r hysbysiad hwn i bob asiant etholiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl rhoi'r hysbysiad.

6.61 Fel rhan o'ch ystyriaeth ynghylch y ffordd orau o roi gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn modd cydlynol a chyson, dylech gydgysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol, er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o gyflawni eu dyletswydd i ddarparu copïau o'r hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio i asiantiaid etholiad, gan alluogi pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid i gael gafael yn hawdd ar y wybodaeth hon i'r rhanbarth etholiadol cyfan. Fel rhan o'ch trafodaethau, dylech ystyried p'un a gaiff yr hysbysiadau eu coladu a'u dosbarthu'n ganolog gennych chi neu p'un a gânt eu darparu'n uniongyrchol gan bob Swyddog Canlyniadau Lleol.

Paratoi papurau pleidleisio

6.62 Mae Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am lunio papurau pleidleisio ar gyfer eu hardal gyfrif, oni fyddwch yn eu cyfarwyddo'n wahanol (er enghraifft, os byddwch yn penderfynu caffael y papurau pleidleisio yn ganolog). Os bwriadwch ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ar gyfer argraffu papurau pleidleisio dylech hysbysu'r Swyddog(ion) Canlyniadau Lleol perthnasol ar ddechrau'r broses cynllunio etholiad, a rhoi gwybod iddynt mor fuan â phosibl pryd a sut y caiff y papurau pleidleisio eu dosbarthu iddynt i'w

hanfon mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post a'u defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio.

6.63 Rhaid i'r papur pleidleisio fod yn y ffurf berthnasol a nodir yn y ddeddfwriaeth a rhaid iddo fod wedi'i argraffu yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu a nodir yn y rheoliadau hynny.Fodd bynnag, dylech gydgysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol o ran paratoi papurau pleidleisio a chymryd y cyfryw gamau ag sy'n angenrheidiol yn eich barn chi, gan gynnwys rhoi canllawiau neu gyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau Lleol ag sy'n briodol yn eich barn chi, er mwyn sicrhau bod ffurf a chynnwys y papurau pleidleisio yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol a'u bod yn gyson drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan.

Manylebau argraffu

6.64 Mae Rhan C o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol yn cwmpasu'r broses o lunio papurau pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol, argraffu manylion ymgeiswyr a ffurf cefn y papur pleidleisio.

6.65 Os caiff y papurau pleidleisio eu hargraffu'n lleol, dylech ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gynnar yn ystod y broses gynllunio er mwyn eu galluogi i gadarnhau eu gofynion a'u trefniadau argraffu â'u cyflenwyr ar gam cynnar. Yn benodol, dylech sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol drefniadau (yn cynnwys unrhyw drefniadau wrth gefn angenrheidiol) mewn da bryd cyn y bleidlais a fydd yn galluogi papurau pleidleisio i gael eu hargraffu yn ôl y fanyleb ofynnol, yn cynnwys lle y gall fod nifer uwch o bleidiau ac ymgeiswyr sy'n ymladd yr etholiad.

6.66 Er nad oes modd cadarnhau cynnwys terfynol y papur pleidleisio nes bod y broses enwebu wedi cau, bydd angen i chi wneud penderfyniadau ynghylch elfennau canlynol y papur pleidleisio ar gam cynnar:

- lliw
- rhifau'r papur pleidleisio
- marc adnabod unigryw
- y 'marc swyddogol'

6.67 Yn benodol, bydd angen i chi ystyried sut y gellid sicrhau nad oes unrhyw bapurau pleidleisio yn y rhanbarth etholiadol yr un fath. Er enghraifft, os penderfynwch fod y nodau adnabod unigryw i'w defnyddio drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan yn cynnwys ailadrodd rhif y papur pleidleisio ynghyd â rhagddodiad, dylech ystyried datblygu rhagddodiaid unigryw ar gyfer pob ardal gyfrif a fyddai wedyn yn rhoi hyblygrwydd i Swyddogion Canlyniadau Lleol o ran sut maent yn rhifo'r papurau pleidleisio o fewn eu hardal gyfrif.

Lliw'r papur pleidleisio

6.68 Ni ragnodir lliw'r papurau pleidleisio, na'r lliw a ddefnyddir ar gyfer papurau pleidleisio a gyflwynwyd, ond mae'n rhaid i liw papurau pleidleisio a gyflwynwyd fod yn wahanol i liw papurau pleidleisio arferol. Mewn etholiadau cyfun, mae'n rhaid defnyddio papurau pleidleisio o wahanol liw ar gyfer pob etholiad.

6.69 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech benderfynu ar gam cynnar yn y broses gynllunio ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth etholiadol, pa liw fydd papur pleidleisio Senedd Ewrop yn eich rhanbarth etholiadol. Wrth benderfynu ar liw'r papurau pleidleisio dylech ystyried materion hygyrchedd o ran lliw a chyferbyniad. Mae Adran 6 o ganllawiau dylunio arfer da'r Comisiwn *Making your mark* yn cynnwys cyngor ar ddewis lliwiau ar gyfer papurau pleidleisio.

Manylion ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr ar restr plaid

6.70 Oni fyddwch yn cymryd cyfrifoldeb am lunio'r papurau pleidleisio, bydd angen i chi roi manylion y blaid a'r ymgeisydd a fydd yn ymddangos ar y papur pleidleisio i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol, yn ogystal ag unrhyw arwyddluniau y mae pleidiau wedi gofyn amdanynt. Rhaid i bleidiau, ymgeiswyr sydd ar restr plaid ac ymgeiswyr unigol ymddangos ar y papur pleidleisio fel y'u rhestrir fel yn y datganiad ynghylch pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd.

6.71 Mae'r manylion a gaiff eu hargraffu ar flaen y papur pleidleisio ac y mae angen i chi eu darparu fel a ganlyn:

- Ar gyfer pob plaid
- enw'r blaid
- disgrifiad o'r blaid (os yw'n berthnasol)
- arwyddlun y blaid (os yw'n berthnasol)
- enw(au) cyntaf a chyfenw yr ymgeiswyr ar restr plaid

Ar gyfer pob ymgeisydd unigol:

- cyfenw ac enw(au) cyntaf
- disgrifiad (os yw'n berthnasol)

6.72 Os bydd plaid wedi gwneud cais am hynny, rhaid i arwyddlun y blaid y gofynnwyd amdano gael ei argraffu i'r dde o enw'r blaid a'r disgrifiad ohoni (os o gwbl). Lle dylid cynnwys arwyddlun plaid, rhaid iddo fod yn union yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig. Mae paragraffau 2.40-2.45 o Ran C o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol yn nodi sut y dylid argraffu enwau

pleidiau a'r disgrifiadau ohonynt ac arwyddluniau pleidiau ar y papur pleidleisio.

Ar ôl i'r enwebiadau gau

6.73 Unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl wedi mynd heibio, bydd angen i chi roi gwybodaeth glir ac amserol i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol am fanylion terfynol y papur pleidleisio er mwyn eu galluogi i gadarnhau'r union fanylion gyda'u hargraffwyr a dechrau argraffu. Mae hyn yn cynnwys yr union faint a chynllun, a manylion y blaid a'r ymgeisydd.

6.74 Dylech gael prosesau ar waith i sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn argraffu'r papurau pleidleisio yn gywir, gan gynnwys sicrhau bod manylion y blaid a'r ymgeisydd ar y papur pleidleisio yn cael eu hatgynhyrchu'n gywir, a bod yr arwyddluniau cywir a math a maint cywir o ffont wedi'u defnyddio. Dylech ddarparu templed o bapur pleidleisio y gall Swyddogion Canlyniadau Lleol ei ddefnyddio fel sail ar gyfer argraffu'r papur pleidleisio yn ei ardal gyfrif, ac y gall ei ddilyn wrth wirio proflenni argraffu a fersiynau terfynol y papurau pleidleisio.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol drefniadau ar waith ar gyfer prawfddarllen papurau pleidleisio.

Marwolaeth ymgeisydd

6.75 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod ymgyrch etholiad Senedd Ewrop, nid oes unrhyw ddarpariaethau i'r bleidlais gael ei dirymu neu roi'r gorau iddi. Os byddwch yn cael tystiolaeth bod ymgeisydd wedi marw a'ch bod yn fodlon mai dyna yw'r achos, rhaid i chi ofyn i bob Swyddog Canlyniadau Lleol roi nifer ddigonol o hysbysiadau i bob Swyddog Llywyddu er mwyn rhoi gwybod i bledleiswyr bod yr ymgeisydd wedi marw i'w harddangos ym mhob rhan o bob gorsaf bleidleisio.

6.76 Rhaid i chi ddychwelyd ernes ymgeisydd unigol sydd wedi marw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i chi gael eich bodloni bod yr ymgeisydd wedi marw i gynrychiolwyr personol yr ymgeisydd. Bydd angen i chi gymryd gofal er mwyn sefydlu'r ffordd orau o ddychwelyd yr ernes ac i bwy, yn dibynnu ar sut y cafodd ei gwneud a gan bwy.

Pleidleisio absennol

6.77 Dylech ystyried sut y bwriadwch weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn sicrhau bod pob pleidleisiwr absennol drwy'r rhanbarth

etholiadol cyfan yn cael gwasanaeth o safon gyson uchel, lle bynnag y maent wedi'u cofrestru.

6.78 Rhaid anfon pleidleisiau post cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, unwaith y bydd y terfyn amser ar gyfer tynnu enw yn ôl wedi mynd heibio, dylid anfon papurau pleidleisio drwy'r post at etholwyr presennol sydd wedi gwneud cais am bleidlais bost. Dylech gydgysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol ynghylch eu cynlluniau ar gyfer anfon pleidleisiau post yn eu hardal gyfrif er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod etholwyr yn cael eu papurau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl a bod yr amseru ar gyfer dosbarthu pleidleisiau post yn gyson drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan.

6.79 Os oes unrhyw ddigwyddiadau etholiadol ar y cyd yn eich ardal, bydd hefyd angen i chi ystyried pa ddull gweithredu i'w gymryd o ran y cyfuniad o anfon pleidleisiau post, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Canlyniadau/Cyfrif ar gyfer y digwyddiad pleidleisio arall/digwyddiadau pleidleisio eraill. Er enghraifft, dylech ystyried yr effaith ar y pleidleisiwr, arfer blaenorol, mathau o ddigwyddiadau etholiadol, maint tebygol y papurau pleidleisio, gallu'r cyflenwr, a gofynion TG, staffio a'r lleoliad.

7 Prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau

7.1 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, chi sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad yn gyffredinol yn eich rhanbarth etholiadol ac felly dylech gymryd camau angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff ei weinyddu i safon gyson drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan, er mwyn sicrhau profiad o ansawdd uchel cyson i bleidleiswyr a'r sawl sy'n aros i sefyll etholiad. Un o'r agweddau ar y broses etholiadol lle y byddwch yn awyddus i sicrhau bod cysondeb yw dilysu a chyfrif pleidleisiau, yn ogystal â throsglwyddo cyfansymiau lleol.

7.2 Mae gennych y pŵer i roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau yn yr etholiad ar gyfer Senedd Ewrop, yn cynnwys y prosesau dilysu a chyfrif. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer hwn i roi cyfarwyddiadau yn ymestyn i elfennau cyfunol y bleidlais a gaiff eu gweinyddu gan y Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif perthnasol lle mae'r digwyddiadau pleidleisio wedi cael eu cyfuno.

7.3 Lle mae'r bleidlais mewn etholiad ar gyfer Senedd Ewrop wedi cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad neu refferendwm arall, y Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif perthnasol fydd yn gyfrifol am ddilysu'r papurau pleidleisio ym mhob etholiad. Yn yr achos hwn, ni fydd eich pŵer i gyfarwyddo yn ymestyn i'r broses o ddilysu papurau pleidleisio Senedd Ewrop. Fodd bynnag, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn dal i fod yn gyfrifol am gyfrif y pleidleisiau ar gyfer eu hardal gyfrif ac felly bydd gennych y pŵer o hyd i roi cyfarwyddiadau ar y broses o baratoi ar gyfer y cyfrif a'i weinyddu.

7.4 Felly, lle mae digwyddiadau pleidleisio wedi cael eu cyfuno, dylech gydgysylltu â'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif perthnasol er mwyn sicrhau cysondeb y broses ddilysu drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan. Byddem yn disgwyl iddynt weithio mewn ymgynghoriad â chi ac ystyried unrhyw ganllawiau a roddwyd gennych ar y broses ddilysu.

7.5 Rhaid gwneud trefniadau ar gyfer dilysu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cau'r bleidlais ac i'r cyfrifiadau lleol gael eu cwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr 'amser perthnasol', h.y. 10pm ddydd Sul 25 Mai, pan fydd y bleidlais wedi cau ym mhob rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Ni ddylai Swyddogion Canlyniadau Lleol na'u staff ddatgelu nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer unrhyw blaid neu ymgeisydd unigol i unrhyw un heblaw amdanoch chi neu eich clercod ar ôl 10pm ddydd Sul 25 Mai. Ni waeth pa gam y mae'r cyfrif wedi'i gyrraedd erbyn yr amser perthnasol, ni ellir ystyried yn ôl y gyfraith bod y cyfrif wedi'i gwblhau tan ar ôl yr amser hwnnw ac ni all yr un o'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn ar ôl cwblhau'r cyfrif (er enghraifft,

rhannu cyfansymiau lleol dros dro ag unrhyw ymgeisydd ac asiant sy'n bresennol na datgan y cyfansymiau lleol) tan ar ôl yr amser hwnnw.

7.6 Yn ddibynnol ar y ddarpariaeth hon, fel Swyddogion Canlyniadau Lleol, dylech ystyried pryd, ble a sut y dylid cynnal prosesau dilysu a chyfrif pleidleisiau ar gyfer pob ardal gyfrif yn y rhanbarth etholiadol a rhoi arweiniad a chyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau Lleol fel y bo'r angen yn eich barn chi.

7.7 Ar ôl cwblhau'r weithdrefn ddilysu mewn etholiad ar gyfer Senedd Ewrop yn unig, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol eich hysbysu am gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd. Lle mae digwyddiadau pleidleisio wedi cael eu cyfuno, bydd angen i chi gael y datganiad dilysu gan y Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif perthnasol er mwyn eich galluogi i wirio cyfansymiau'r cyfrifon lleol yn erbyn y datganiad dilysu a nodi unrhyw amrywiannau posibl. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol hefyd eich hysbysu am gynnwys y datganiad o gyfansymiau cyfrifon lleol, ar ôl iddo gael ei baratoi.

7.8 Dylech wneud eich penderfyniadau ynghylch sut rydych yn bwriadu trefnu prosesau dilysu, cyfrif a choladu'r canlyniad a'u rheoli ym mhob rhan o'r rhanbarth etholiadol, yn cynnwys y prosesau i'w dilyn wrth goladu'r cyfansymiau lleol, ar gam cynnar yn y broses ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth etholiadol. Unwaith y byddwch wedi cytuno, dylech gyfathrebu eich cynlluniau i Swyddogion Canlyniadau Lleol mewn da bryd iddynt ddatblygu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer dilysu a chyfrif yn unol â hynny.

Egwyddorion ar gyfer prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau effeithiol

7.9 Wrth ddatblygu'ch cynlluniau, eich prosesau a'ch protocolau dylech ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol:

Mae pob proses yn **dryloyw**, gyda thrywydd archwilio clir a diamwys. Dylech sicrhau bod yr holl brosesau yn dryloyw, gyda phopeth yn digwydd o flaen pawb sydd â'r hawl i fod yno, a bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol ar y prosesau i'w dilyn.

Mae'r prosesau dilysu, cyfrif a choladu'r canlyniad yn creu **canlyniadau cywir** a dderbynnir. Sicrhau bod y prosesau hyn yn gallu sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir.

- Mae'r prosesau o ddilysu a chyfrif pleidleisiau a choladu'r canlyniad yn **amserol**. Dylech sicrhau bod adnoddau priodol ar gael er mwyn sicrhau bod y prosesau dilysu, cyfrif a choladu'r canlyniad yn amserol.

- Cedwir **cyfrinachedd** y bleidlais bob amser.

- Bod papurau pleidleisio a deunydd papur arall yn **ddiogel** bob amser, gan gynnwys pan gaiff papurau pleidleisio eu cludo neu'u storio rhwng prosesau.

- Bod gwybodaeth yn cael ei **throsglwyddo mewn ffordd gyson ac agored**.

7.10 Bydd angen i chi ystyried pob cam allweddol sy'n cyfrannu at y canlyniad cyffredinol, gan gynnwys dilysu'r papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau ym mhob un o'r ardaloedd cyfrif, coladu'r cyfansymiau lleol a chyfrifo'r canlyniad, a sicrhau y caiff y rhain eu trefnu, eu rheoli a'u cyflawni yn y fath fodd ag sy'n sicrhau y gellir cydymffurfio â'r egwyddorion hyn.

7.11 Yn ogystal ag ystyried sut i sicrhau y bydd eich prosesau yn eich galluogi i gydymffurfio â'r egwyddorion allweddol, bydd angen i chi ystyried ffactorau ymarferol perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff y broses dilysu a chyfrif ei threfnu a'i hamseriad, megis:

- daearyddiaeth y rhanbarth etholiadol
- nifer yr awdurdodau lleol/ardaloedd cyfrif o fewn y rhanbarth etholiadol
- digwyddiadau etholiadol eraill sy'n cael eu cynnal yn y rhanbarth etholiadol
- maint lleoliadau
- cost
- tryloywder i ymgeiswyr
- yr adeg gynharaf y gellir rhannu cyfansymiau lleol ag ymgeiswyr ac asiantiaid, ac y gellir datgan y canlyniadau

Gwneud penderfyniadau ar y prosesau dilysu, cyfrif a throsglwyddo cyfansymiau lleol

7.12 Dylech ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau Lleol ar eich cynigion o ran pryd a sut i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau, gan nodi unrhyw ragdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd gennych i lywio'ch cynigion. Dylech hefyd gael deialog â'r sawl sydd â diddordeb cyn gwneud eich penderfyniad, gan gynnwys darpar ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol, pleidleiswyr a'r cyfryngau. Dylech esbonio pa ffactorau sy'n berthnasol i'ch penderfyniad ac egluro goblygiadau'ch cynigion o ran pryd y caiff y canlyniad ei ddatgan. Er y dylech geisio barn y rhai yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb er mwyn llywio'ch

penderfyniadau, chi fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud y penderfyniadau.

7.13 Dylech gynllunio a chwblhau'ch gweithgarwch ymgynghori a gwneud penderfyniadau mewn da bryd, cyn i gyfnod ffurfiol yr ymgyrch etholiadol ddechrau, fel y gellir hysbysu Swyddogion Canlyniadau Lleol am eich penderfyniadau er mwyn iddynt gael eu hadlewyrchu yn eu gwaith cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau.

7.14 Ar ôl i chi wneud eich penderfyniadau, dylech eu cofnodi, ynghyd â'r wybodaeth a ystyriwyd gennych wrth wneud y penderfyniadau, a dylech fod yn gallu esbonio'r rhesymau dros eich penderfyniadau os gofynnir i chi wneud hynny. Dylech hysbysu'r Swyddogion Canlyniadau Lleol a'r rhai yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb am eich penderfyniadau, gan gynnwys ymgeiswyr ac asiantiaid, pleidiau gwleidyddol, y cyfryngau ac unrhyw bobl eraill roeddech wedi ceisio eu barn neu wedi cael sylwadau ganddynt cyn gwneud eich penderfyniadau.

7.15 Os bydd trefniadau gwahanol ar waith mewn rhannau gwahanol o'r rhanbarth etholiadol, dylech sicrhau eich bod yn rhoi gwybodaeth glir i ymgeiswyr ac asiantiaid a phleidiau gwleidyddol, ac eraill a all fod yn bresennol neu'n arsylwi ar y prosesau dilysu a chyfrif ynglŷn â pha agweddau ar y prosesau hynny a all fod yn wahanol, a pham.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 3, bydd angen i chi sicrhau y caiff prosesau cyfrif eu cynllunio a'u rheoli er mwyn sicrhau canlyniad cywir. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi gwybodaeth ar waith ynglŷn â sut y caiff y broses dilysu a chyfrif ei threfnu a'i rheoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych wrth wneud eich penderfyniad.

Pryd i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau

7.16 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech ystyried pryd y dylid cynnal prosesau dilysu a chyfrif pleidleisiau ar gyfer pob ardal gyfrif yn y rhanbarth etholiadol a rhoi arweiniad a chyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau Lleol fel y bo'r angen yn eich barn chi a sicrhau y gall Swyddogion Canlyniadau Lleol gadw at yr amseroedd hynny.

7.17 Yn 2012, yn dilyn cyfnod o ymgynghori a nododd faterion yn ymwneud ag amseru cyfrifiadau a oedd wedi codi mewn etholiadau ledled y DU mewn

blynyddoedd diweddar, cyhoeddodd y Comisiwn *Timing of election counts.*[3] Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein casgliadau a'n hargymhellion, ac yn nodi'r egwyddor gyffredinol a ddylai fod yn sail i benderfyniadau Swyddogion Canlyniadau ynglŷn ag amseriad cyfrifon etholiadol, sef yr angen i sicrhau canlyniad cywir y mae pleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn ymddiried ynddo.

7.18 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, mae angen i chi ystyried yr egwyddor hon yn ofalus wrth benderfynu pryd a sut y caiff y pleidleisiau ym mhob ardal gyfrif eu dilysu a'u cyfrif. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn hyderus y caiff eich prosesau chi a phrosesau Swyddogion Canlyniadau Lleol ddigon o adnoddau ac y cânt eu rheoli mewn modd sy'n cefnogi'r broses o sicrhau canlyniad amserol a chywir.

7.19 Dylai eich penderfyniad ynglŷn ag amseriad y cyfrif ystyried y canlynol:

Etholiad unigol yw pob etholiad Senedd Ewrop, sy'n arwain at un canlyniad ar gyfer y rhanbarth etholiadol yn ei gyfanrwydd. Mae cyfanswm pob ardal gyfrif yn cyfrif tuag at ganlyniad ar gyfer y rhanbarth etholiadol yn ei gyfanrwydd ac felly bydd yn bwysig nodi cyfnod penodol pryd y caiff yr holl bleidleisiau eu cyfrif ac y caiff cyfansymiau eu cyhoeddi ar gyfer pob ardal gyfrif.

Mae'n rhaid i ganlyniad yr etholiad fod yn gywir. Yn sail i'r penderfyniad ynglŷn ag amseriad y cyfrif mae'r angen am sicrhau canlyniad cywir y gall pleidleiswyr ac ymgeiswyr ymddiried ynddo. Mae hyn yn golygu, wrth bennu'r cyfnod ar gyfer cynnal y cyfrif, fod yn rhaid pennu'r cyfryw gyfnod fel y bydd modd i Swyddogion Canlyniadau Lleol gael digon o adnoddau ar ei gyfer a chynnal proses gyfrif wedi'i rheoli'n dda.

Y posibilrwydd y caiff digwyddiadau etholiadol eu cyfuno yn y rhanbarth etholiadol a faint o ddigwyddiadau etholiadau a gaiff eu cyfuno. Lle y caiff digwyddiadau etholiadol eu cyfuno, p'un a yw hynny mewn rhai o'r ardaloedd cyfrif neu bob un, bydd angen i chi ystyried hyn wrth nodi'r opsiynau ar gyfer amseriad dilysu a chyfrif y pleidleisiau ar

---

3 *The timing of election counts: Report and recommendations*, Y Comisiwn Etholiadol, Gorffennaf 2012. Ar gael yn http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0003/149511/Timing-of-election-counts.pdf

gyfer etholiad Senedd Ewrop. Dylech gael gwybodaeth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol am yr etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal a'r cynlluniau ar gyfer dilysu a chyfrif yn yr etholiadau eraill, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'ch rhagdybiaethau cynllunio. Pan fyddwch yn rhoi gwybod am eich penderfyniadau, dylech nodi'n glir pa ffactorau sy'n ymwneud â chyfuno etholiadau rydych wedi'u hystyried wrth eu llunio, ac unrhyw oblygiadau penodol i'ch penderfyniadau ar gyfer ardaloedd lle y cyfunir etholiadau. Dylech hefyd sicrhau eich bod yn rhoi gwybodaeth i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad Senedd Ewrop am yr holl ardaloedd cyfrif, gan nodi lle y cyfunir etholiadau a lle mae hyn wedi cael effaith ar y penderfyniad, gan gynnwys lle mae wedi arwain at roi trefniadau gwahanol ar waith.

Dylech barhau i adolygu eich cynlluniau er mwyn ymdrin ag unrhyw sefyllfaoedd sy'n codi, megis cyhoeddi isetholiad ar yr un diwrnod ag etholiad Senedd Ewrop.

Ystyriaethau ymarferol eraill. Mae hefyd nifer o ffactorau ymarferol eraill y byddwch am eu hystyried o bosibl wrth ddatblygu'ch cynigion a gwneud eich penderfyniad ynglŷn â phryd y caiff y pleidleisiau eu cyfrif, megis: daearyddiaeth yr ardal, nifer yr ardaloedd cyfrif yn y rhanbarth etholiadol; ac adnoddau, gan gynnwys y staff a'r lleoliadau sydd ar gael.

Sut i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau

7.20 Mae amrywiaeth o ddulliau o ddilysu'r papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau. Gallwch benderfynu p'un a ddylid ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Canlyniadau Lleol ddefnyddio dulliau penodol, neu adael i bob Swyddog Canlyniadau Lleol ddewis ei ddull ei hun yn seiliedig ar yr hyn sydd fwyaf priodol i'w amgylchiadau lleol. Chi sy'n penderfynu pa ddull i'w ddefnyddio mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal ac ar y cyd â hwy.

7.21 Ni waeth sut y caiff y prosesau dilysu a chyfrif eu trefnu a'u rheoli, dylech allu bodloni eich hun bod cynlluniau'r Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif wedi'u cynllunio a'u rheoli er mwyn sicrhau canlyniad cywir y gall pawb fod yn hyderus ynddo.

7.22 Pa ddull cyfrif bynnag a ddefnyddir dylai fod yn dryloyw ac arwain at ganlyniad cywir. Mae cyfrifo canlyniad cywir yn dibynnu ar ffigurau dilysu a chyfrif cywir, a bydd angen i chi ystyried yn benodol pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod y cyfansymiau lleol a dderbyniwch oddi wrth Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gywir cyn i chi eu derbyn. Dylech baratoi templedi ar gyfer pob dogfen y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol ei

chwblhau yn ystod y broses dilysu a chyfrif er mwyn rhoi trywydd archwilio clir.

7.23 Mae'r dull mini-gyfrif yn un dull cyfrif sy'n arbennig o effeithiol wrth sicrhau canlyniad cywir. Yn y dull gweithredu hwn, caiff y papurau pleidleisio a ddilyswyd eu trefnu yn sypiau llai a chaiff y proses gyfrif ei chynnal o fewn y swp hwnnw. Os oes amrywiant ar ddiwedd y mini-gyfrif, bydd yr amrywiant ond yn gymwys i swp neu sypiau penodol o bapurau pleidleisio, ac felly gellir eu datrys o fewn y mini-gyfrif hwnnw, gan osgoi'r angen i ailgyfrif yr holl bapurau pleidleisio o bosibl.

Cyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus

7.24 Mae'r Comisiwn wedi datblygu canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus. Caiff hyn ei gynnwys yn Rhan D: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau o'r canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol ac mewn llyfryn ar wahanol ar gyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus. Dylech ystyried sut y byddwch yn gweithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth etholiadol er mwyn sicrhau y cyflwynir dyfarniadau cyson ar y papurau pleidleisio ar gyfer y rhanbarth etholiadol cyfan. Dylai hyn gynnwys ystyried yr angen i ddarparu sesiynau briffio neu hyfforddi ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol a ph'un a ddylech roi unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau ychwanegol o ran sut y dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gyflwyno dyfarniadau ar bapurau pleidleisio amheus.

7.25 Mae'r broses o gategoreiddio a chofnodi papurau pleidleisio a wrthodwyd yn ôl y rhesymau dros eu gwrthod yn rhan bwysig o sicrhau bod llwybr archwilio clir ar gyfer y cyfrif, gan ennyn hyder yn y canlyniad. Dylech ystyried sut i sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn deall sut y dylid categoreiddio a chofnodi papurau pleidleisio a wrthodwyd.

Ailgyfrifo

7.26 Gall ymgeiswyr, asiantiaid etholiad (yn cynnwys asiant etholiad cenedlaethol plaid) a'r asiantiaid cyfrif hynny a awdurdodwyd yn benodol i wneud cais am gyfrif wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ailgyfrif y pleidleisiau ar ôl cwblhau'r cyfrif. Ni all unrhyw asiantiaid cyfrif eraill nac unigolion sy'n bresennol yn y cyfrif wneud cais am ailgyfrif. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol wrthod y cyfryw gais os bydd yn ystyried ei fod yn afresymol.

7.27 Dylai unrhyw brotocol rydych wedi'i lunio ar gyfer sut y dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gyfathrebu â chi gynnwys manylion pa broses y dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol ei dilyn os bydd cais am ailgyfrif. Er enghraifft, gallech roi cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau Lleol eich hysbysu am bob cais am ailgyfrif; cynnwys gwybodaeth am amgylchiadau lle byddech yn ystyried ei bod yn briodol i'r Swyddog Canlyniadau Lleol wrthod

ailgyfrif a gofyn i Swyddog Canlyniadau Lleol ymgynghori â chi pan fydd yn ystyried gwrthod cais am ailgyfrif.

Trosglwyddo cyfansymiau lleol

7.28 Er mwyn rheoli'r broses o goladu'r canlyniad yn effeithiol, dylech roi protocol ar waith ar gyfer trosglwyddo a derbyn cyfansymiau dilysu a chyfrif lleol. Dylech hefyd ystyried trefnu sesiynau hyfforddiant a/neu friffio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff ac ystyried cynnal treial o'r broses.

Coladu'r canlyniad

7.29 Rydych cyn gyfrifol am roi proses o goladu'r canlyniad ar waith ar gyfer y rhanbarth etholiadol fel y gallwch gyfrifo canlyniad yr etholiad. Dylech hefyd ddatblygu protocolau a'u rhoi ar waith yn ôl yr angen ar gyfer cyfleu gwybodaeth rhwng Swyddogion Canlyniadau Lleol a chi, yn cynnwys rhoi gwybod am gyfansymiau cyfrif lleol, a rhoi gwybod i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid, y cyfryngau a rhanddeiliaid perthnasol eraill am y wybodaeth. Bydd y protocolau hyn yn ategu ac yn eich helpu chi a Swyddogion Canlyniadau Lleol i reoli'r llif gwybodaeth drwy gydol y prosesau dilysu a chyfrif a thrwodd i adeg cyhoeddi'r canlyniad.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer Senedd y DU yn 2011 brotocol cyfathrebu ar waith a all fod yn ddefnyddiol i chi wrth ddatblygu eich protocol eich hun ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau Lleol. Gallwch lawrlwytho copi ar ein gwefan.

7.30 Dylech sicrhau eich bod wedi paratoi gwybodaeth briodol er mwyn egluro'r prosesau rydych am eu dilyn yn ystod y broses o goladu canlyniadau i unrhyw bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr ac aelodau o'r cyfryngau sy'n bresennol. Dylech o leiaf egluro eich rôl fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a nodi, lle y bo'n briodol, pwy yw eich dirprwyon a staff coladu canlyniadau allweddol ac egluro eu rolau. Dylech hefyd egluro sut y bydd y broses o goladu canlyniadau yn gweithio, yn cynnwys sut mae hyn yn berthnasol i'r prosesau o ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn y rhanbarth etholiadol cyfan, a nodi'r camau allweddol yn y broses.

7.31 Dylech gyhoeddi ar ddechrau'r digwyddiad y cam cynharaf y gellid cyhoeddi'r canlyniad a rhoi awgrym o pryd y byddech yn disgwyl cyhoeddi'r canlyniad. Dylech wneud cyhoeddiadau yn rheolaidd yn ystod y gweithrediadau er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl sy'n bresennol am beth sy'n digwydd ble a phryd.

7.32 Dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r sawl sy'n bresennol yn y broses o goladu canlyniadau ac felly bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn cael gwybodaeth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol ac ar ba gamau o'r broses er mwyn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl sy'n bresennol yn ystod y broses o goladu canlyniadau. Bydd angen i chi gyfleu yn

eich protocolau cyfathrebu pa wybodaeth y mae angen ei rhannu am hynt y prosesau dilysu a chyfrif ym mhob un o'r ardaloedd cyfrif, a sicrhau y caiff gwybodaeth gyson ei chyfathrebu i chi gan Swyddogion Canlyniadau Lleol yn rheolaidd drwy gydol y cyfrif. Bydd hefyd angen i chi sicrhau eich bod yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Swyddogion Canlyniadau Lleol yn rheolaidd ar hynt y prosesau yn y rhanbarth etholiadol, fel y gallant gyfathrebu'r wybodaeth hon yn lleol.

7.33 Hefyd, os bydd asiantiaid neu arsylwyr yn anfodlon o gwbl ar y modd y caiff y gweithrediadau eu cynnal, dylai fod cyfle bob amser iddynt wneud sylwadau'n uniongyrchol i chi ar y cyfle cyntaf posibl fel y gallwch ystyried unrhyw bryderon, rhoi esboniadau a sicrwydd, a chymryd unrhyw gamau unioni os bydd angen.

7.34 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r cynlluniau a'r egwyddorion a ddylai ategu'r gwaith o sefydlu'r broses o goladu'r canlyniad a'r protocolau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, yn ogystal â'r gofynion cyfreithiol allweddol a sut y bydd y digwyddiad yn gweithio yn ymarferol.

Cynllunio ar gyfer coladu cyfansymiau lleol

7.35 Dylech benderfynu ar y prosesau a'r dulliau y byddwch yn eu defnyddio i goladu datganiadau dilysu a chyfansymiau cyfrif lleol gan Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn cyfrifo canlyniad yr etholiad. Dylech hefyd ystyried beth fydd angen i chi ei roi ar waith o bosibl i ategu'r prosesau hyn, gan gynnwys protocolau a systemau, a sicrhau y cânt eu dilyn yn gyson. Pa brosesau a dulliau bynnag y byddwch yn eu defnyddio, bydd angen i chi sicrhau eu bod yn bodloni'r egwyddorion a nodir ym mharagraff **7.9** ac yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth, fel y crynhoir ym mharagraff **7.42 below**.

7.36 Dylech ystyried y ffordd orau o drefnu a rheoli'r broses ddwyffordd o drosglwyddo gwybodaeth rhyngoch chi a Swyddogion Canlyniadau Lleol, a gwirio, cofnodi a choladu gwybodaeth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol drwodd i gyfrifo'r canlyniad. Fel rhan o hyn, dylech benderfynu a oes angen i chi roi systemau neu raglenni TG ar waith er mwyn hwyluso hyn. Dylech o leiaf baratoi protocol ar gyfer cyfleu gwybodaeth rhwng Swyddogion Canlyniadau Lleol a chi a'ch staff sy'n gweithio ar y broses o goladu'r canlyniad, gan gynnwys y broses o wirio cyfansymiau lleol ac awdurdodi iddynt gael eu rhannu'n gyhoeddus.

7.37 Dylech hefyd gynnwys cynlluniau wrth gefn yn eich cynlluniau rhag ofn na fydd unrhyw gyfleuster, adeilad neu dechnoleg rydych yn bwriadu eu defnyddio ar gael. Dylech hefyd gynnal profion ac ymarferion o'r broses ac unrhyw systemau ategol rydych yn bwriadu eu defnyddio, gan gynnwys eich staff a Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff hwy, er mwyn sicrhau bod pawb dan sylw yn deall sut mae'r broses yn gweithio ac yn gyfarwydd â hi a beth yw eu cyfrifoldebau, ac er mwyn sicrhau y gellir nodi a datrys unrhyw broblemau cyn y digwyddiad ei hun.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 3, bydd angen i chi ddatblygu proses ar gyfer derbyn a chyflwyno cyfansymiau lleol. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i reoli'r broses o goladu cyfansymiau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddir i Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Mynediad i'r broses o goladu canlyniadau

7.38 Dylech sicrhau bod yr holl brosesau sy'n rhan o'r broses o goladu'r cyfansymiau lleol o'r ardaloedd cyfrif yn y rhanbarth etholiadol, cyfrifo cyfansymiau'r pleidleisiau a roddwyd a dyrannu'r seddi yn dryloyw ac yn digwydd o flaen pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol ar y prosesau i'w dilyn.

7.39 Dim ond y bobl ganlynol sydd â hawl i fod yn bresennol ar adeg coladu'r canlyniad:

- chi a'ch clercod
- Swyddog Enwebu pob plaid wleidyddol sy'n sefyll etholiad yn eich rhanbarth etholiadol
- asiantiaid etholiadol (neu rywun ar eu rhan, fel is-asiant)
- ymgeiswyr (p'un a ydynt yn sefyll ar restr plaid neu fel ymgeisydd unigol)
- un unigolyn a ddewisir gan bob ymgeisydd
- Cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig

7.40 Gallwch hefyd ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol ar adeg coladu'r canlyniad. Wrth benderfynu p'un a ddylech ganiatáu i eraill fynychu, dylech ystyried p'un a fyddai hyn yn amharu mewn unrhyw ffordd â'r camau.

Y broses goladu

7.41 Mae'r gyfraith yn nodi'r broses goladu y mae'n rhaid ei dilyn. Mae'r camau allweddol fel a ganlyn:

- Mae pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn dilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio ar gyfer ei ardal gyfrif ac yn llunio datganiad ar ganlyniad y broses ddilysu.
- Mae pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o gyfanswm y papurau pleidleisio a ddilyswyd. Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn coladu'r holl ffigurau dilysu ar gyfer y rhanbarth etholiadol.

- Mae pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn cyfrif y pleidleisiau ar gyfer ei ardal gyfrif ac yn rhannu'r canlyniad dros dro â'r ymgeiswyr ac asiantiaid, yn cynnwys yr asiant cyfrif penodol ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol. Os yw'r cyfrif wedi dechrau cyn diwedd pob pleidlais yn yr UE, ni ddylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol na'i glercod ddatgelu nifer y pleidleisiau a roddwyd ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol i unrhyw un heblaw amdanoch chi a'ch clercod tan ddiwedd pob pleidlais yn yr UE. Gall ymgeiswyr ac asiantiaid wneud cais am gyfrif
- Pan fydd yr ymgeiswyr a'r asiantiaid wedi cael cyfle i wneud cais am ailgyfrif (a phan fydd unrhyw ailgyfrif wedi'i gwblhau), bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn llunio datganiad o gyfansymiau lleol yn cynnwys nifer y pleidleisiau a gaiff eu bwrw ar gyfer pob plaid/ymgeisydd unigol, a datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd wedi'u categoreiddio yn ôl y rheswm dros eu gwrthod.
- Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol hysbysu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o gynnwys y datganiad o gyfansymiau lleol.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn awdurdodi pob Swyddog Canlyniadau Lleol i roi hysbysiad o'r datganiadau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd a chyfansymiau lleol (gweler paragraffau **7.43 - 7.50**).
- Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn coladu'r holl gyfansymiau lleol ar gyfer y rhanbarth etholiadol a dderbyniwyd gan Swyddogion Canlyniadau Lleol. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol dderbyn yr holl gyfansymiau lleol ar gyfer y rhanbarth etholiadol, rhaid iddo gyfrifo cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol yn y rhanbarth etholiadol.
- Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyflwyno cyfleusterau rhesymol i'r unigolion sydd â hawl ar gyfer bodloni ei hun bod canlyniadau'r cyfrifiad yn gywir. Yn benodol, gall unrhyw unigolyn sydd â hawl i fod yn bresennol ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wneud y cyfrifiad eto ond gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wrthod gwneud hynny os yw'r cais yn afresymol yn ei farn ef.
- Pan fydd yr asiantiaid wedi cael y cyfle i wirio'r ffigurau (a phan fydd unrhyw ailgyfrifiad wedi'i gwblhau), rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddyrannu'r seddi.
- Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol roi cyfleusterau rhesymol ar gyfer bodloni ei hun bod canlyniadau'r dyraniad yn gywir i'r unigolion sydd â hawl i fod yn bresennol. Yn benodol, gall unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wneud y dyraniad eto ond gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wrthod gwneud hynny os yw'r cais yn afresymol yn ei farn ef.
- Unwaith y bydd yr asiantiaid wedi cael y cyfle i wirio'r ffigurau (a bod unrhyw ailddyraniad wedi'i wneud) bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn datgan bod yr ymgeiswyr hynny ar restr plaid

gofrestredig a'r ymgeiswyr unigol hynny y dyrannwyd seddi iddynt wedi cael eu hethol.

- Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd yn paratoi datganiad yn nodi'r canlynol:
  - Cyfanswm y pleidleisiau dilys a roddwyd i bob plaid ac ymgeisydd unigol.
  - Y cyfansymiau ar gyfer plaid ac ymgeisydd unigol ym mhob cam o'r broses o gyfrifo'r dyraniad seddi.
  - Enw llawn a chyfeiriad cartref yr ymgeiswyr sydd wedi cael eu hethol.
  - P'un a oes ymgeiswyr yn weddill ar bob un o restrau'r pleidiau nad ydynt wedi cael eu hethol.

Gwirio a chymeradwyo cyfansymiau lleol

7.42 Fel Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, chi sy'n gyfrifol am awdurdodi Swyddogion Canlyniadau Lleol i gyhoeddi hysbysiad o'r datganiadau o gyfansymiau lleol o nifer y pleidleisiau a fwriwyd a'r papurau pleidleisio a wrthodwyd. Mae gwirio ac awdurdodi'r cyfansymiau hyn yn gam allweddol o ran sicrhau bod y canlyniad yn gywir a bod llwybr archwilio clir a diamwys. Felly, mae angen i chi roi proses wirio drylwyr a chadarn ar waith i allu bodloni eich hun bod y cyfansymiau lleol yn gywir ac y caiff gwybodaeth a ffigurau eu cofnodi a'u trosglwyddo'n gywir gan Swyddogion Canlyniadau Lleol, a'u cofnodi a'u coladu'n gywir gennych chi a'ch staff.

7.43 Mae cyfrifo canlyniad cywir yn dibynnu ar ffigurau dilysu a chyfrif cywir, a bydd angen i chi ystyried yn benodol pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod y cyfansymiau lleol a dderbyniwch oddi wrth Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gywir cyn i chi awdurdodi'r broses o gyhoeddi'r datganiad lleol.

7.44 Dylech gydgysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth gynllunio a datblygu'r broses ar gyfer coladu, gwirio a chymeradwyo cyfansymiau lleol, a rhoi pa bynnag arweiniad neu gyfarwyddyd sy'n briodol yn eich barn chi er mwyn sicrhau y gallwch gael canlyniad cywir. Dylech baratoi templedi o'r holl ddogfennau y bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol eu cwblhau yn ystod y broses o goladu cyfansymiau lleol (boed yn electronig neu ar ffurf copi caled) er mwyn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei chofnodi a'i throsglwyddo mewn ffordd gyson ac er mwyn darparu llwybr archwilio clir.

7.45 Ym mhob cam, cyn i chi dderbyn unrhyw ffigurau'n ffurfiol, dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol sydd wedi'u darparu eu gwirio, yn cynnwys sicrhau nad oes unrhyw wallau trawsgrifio.

7.46 Yn benodol, dylech ystyried sut i sicrhau y caiff y canlynol eu cofnodi a'u trosglwyddo'n gyson ac yn gywir:

- cyfanswm y papurau pleidleisio sy'n mynd ymlaen i'r cyfrif, gan sicrhau bod y ffigur hwn yn cynnwys yr holl bapurau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio ac agor pleidleisiau post
- cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol
- cyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd a'r niferoedd a gofnodwyd ym mhob categori gwrthod

7.47 Dylai cyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd gyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio sydd wedi mynd ymlaen i'r cyfrif.

7.48 Os bydd y ffigurau hyn yn amrywio o gwbl, dylech ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau Lleol gymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol ac yn briodol yn eich barn chi i geisio datrys yr amrywiant, ac egluro'n ddigonol unrhyw amrywiant sy'n weddill i chi.

7.49 Pan fyddwch yn fodlon â'r cyfansymiau lleol, gallwch awdurdodi'r Swyddog Canlyniadau Lleol i gyhoeddi hysbysiad o'r datganiad o gyfansymiau lleol.

Cyfrifiad o'r cyfanswm rhanbarthol

7.50 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i chi gael gwybod am y cyfansymiau lleol gan yr holl Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth, rhaid i chi gyfrifo cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol ar gyfer pob plaid a phob ymgeisydd unigol drwy ychwanegu'r cyfansymiau o'r holl ardaloedd cyfrif o fewn y rhanbarth etholiadol.

Ailgyfrifo'r cyfanswm rhanbarthol

7.51 Cyn gynted ag y byddwch wedi cyfrifo'r cyfanswm rhanbarthol dylech hysbysu'r bobl hynny sydd â hawl i fod yn bresennol ar adeg coladu'r canlyniad (gweler uchod) ac sy'n bresennol o'r cyfansymiau a gyfrifwyd gennych a rhoi cyfle iddynt fodloni eu hunain bod eich cyfrifiadau'n gywir.

7.52 Gall unrhyw rai o'r bobl hynny sydd â hawl i fod yn bresennol ac sy'n bresennol ofyn i chi ail-gyfrifo'r cyfanswm. Gallwch wrthod y cyfryw gais os byddwch yn ystyried ei fod yn afresymol.

Dyrannu seddi

7.53 Caiff seddi ASEau eu dyrannu gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt. Dyrennir y sedd gyntaf i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd wedi cael y nifer uchaf o bleidleisiau a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol. Dyrennir pob sedd

ddilynol i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau ar ôl y cyfrifiad canlynol, a gynhelir ar ôl dyrannu pob sedd:

- cyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan bob un o'r pleidiau neu ymgeisydd unigol, wedi'i rannu â
- nifer y seddi a dyrannwyd i'r blaid honno/ymgeisydd hwnnw eisoes ac 1

7.54 Ar bob cam o'r cyfrifiad, y ffigur i'w rannu yw cyfanswm **gwreiddiol** y bleidlais ar gyfer y blaid neu'r ymgeisydd unigol. Wrth gyfrifo ffigurau, pan fydd cyfrifo'r cyfanswm ar unrhyw gam yn cynnwys ffracsiwn, rhaid ystyried y ffracsiwn hwnnw ac ni ddylid ei dalgrynnu.

Trefn dyraniad

7.55 Caiff y seddi a ddyrennir i bob plaid wleidyddol eu llenwi gan yr ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr plaid.

7.56 Pan fydd sedd wedi'i dyrannu i ymgeisydd unigol, neu pan fydd yr un faint o seddau ag sydd o ymgeiswyr wedi'u dyrannu i blaid, ni chânt eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer dyrannu'r seddi sy'n weddill.

7.57 Os caiff gwybodaeth ei derbyn gan yr Aelod-wladwriaeth berthnasol o'r UE ar ôl i'r datganiad ynghylch pleidiau ac unigolion a enwebwyd gael ei gyhoeddi sy'n dangos bod ymgeisydd wedi'i amddifadu o'r hawl i sefyll fel ymgeisydd drwy benderfyniad anghymhwyso perthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth y mae'r ymgeisydd yn ddinesydd ynddi (gweler paragraffau **5.121** i **5.123**) ni ddylech gynnwys yr ymgeisydd hwnnw wrth ddyrannu seddi os yw'n ymgeisydd unigol neu os yw'n ymgeisydd ar restr plaid, rhaid i chi drin yr ymgeisydd hwnnw fel petai wedi'i hepgor o restr y blaid o ymgeisydd wrth ddyrannu seddi.

Enghraifft wedi'i chyfrifo o ddyraniad seddi

	Plaid A	Plaid B	Plaid C	Plaid Ch	Plaid D
Pleidleisiau	330,000	280,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 1	**330,000**	280,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 2	165,000	**280,000**	160,000	60,000	15,000
Sedd 3	**165,000**	140,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 4	110,000	140,000	**160,000**	60,000	15,000
Cyfanswm y seddi	**2**	**1**	**1**	**0**	**0**

7.58 Yn yr enghraifft a gyfrifwyd yn y tabl uchod, mae pedair sedd ar gael ac mae'r rhain wedi cael eu dyrannu fel a ganlyn:

- **Sedd 1** – Plaid A gafodd y nifer uchaf o bleidleisiau (330,000) ac felly hi sydd â'r hawl i gael y sedd gyntaf sydd ar gael.
- **Sedd 2** – Cyfrifir dyraniad y sedd nesaf drwy rannu cyfanswm y pleidleisiau a gafodd pob plaid â nifer y seddi a ddyrannwyd iddi eisoes yn y rhanbarth, ac un. O ganlyniad, rhaid rhannu cyfanswm gwreiddiol Plaid A â dau, a chaiff cyfansymiau'r pleidiau eraill eu rhannu ag un ac felly maent yn aros yr un fath. Plaid B, gyda'i chyfanswm o 280,000, sy'n ennill yr ail sedd.
- **Sedd 3** – Er mwyn cyfrifo dyraniad y drydedd sedd, caiff cyfanswm pleidleisiau Plaid A a Phlaid B eu rhannu â dau, ac mae cyfansymiau Plaid C, Plaid Ch a Phlaid D yn dal i gael eu rhannu ag un. Canlyniad hyn yw bod y sedd hon yn cael ei dyrannu i Blaid A gyda'i chyfanswm o 165,000.
- **Sedd 4** – Gan fod gan Blaid A ddwy sedd, caiff ei chyfanswm gwreiddiol o 330,000 ei rhannu â thri. Ar y cam hwn, Plaid C, gyda chyfanswm o 160,000, sy'n ennill y bedwaredd a'r bumed sedd.

Pleidleisiau cyfartal

7.59 Ar unrhyw gam o'r broses o ddyrannu seddi, os bydd gan ddwy blaid/ddau ymgeisydd unigol neu fwy yr un nifer o bleidleisiau ac, ar y cam hwnnw, bod y nifer hon yn uwch na nifer y pleidiau/ymgeiswyr unigol eraill, dyrennir sedd yr un iddynt. Os nad oes digon o seddi heb eu dyrannu ar ôl i hyn ddigwydd, yn cynnwys pan mai dim ond un sedd fydd ar ôl, rhaid ychwanegu un bleidlais i gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob un o'r pleidiau neu ymgeiswyr unigol dan sylw a rhaid i'r cyfrifiad ar gyfer y cam hwn gael ei ailadrodd.

7.60 Ar ôl y cyfrifiad hwn, os bydd y nifer yn gyfartal o hyd, rhaid i chi dynnu enwau ar hap er mwyn penderfynu i ba blaid neu ymgeisydd unigol y dyrennir y sedd (neu bob sedd, os oes mwy nag un). Dyrennir y sedd i ba bynnag blaid neu ymgeisydd y tynnir ei enw ar hap.

7.61 Chi fydd yn penderfynu ar y dull o dynnu enwau ar hap. Mae'r enghreifftiau o brosesau tynnu enwau ar hap yn cynnwys y canlynol:

- caiff papurau pleidleisio, y bydd pob un ohonynt wedi'i farcio â phleidlais ar gyfer un o'r pleidiau/ymgeiswyr unigol sydd â'r un nifer o bleidleisiau, eu gosod mewn cynhwysydd, megis blwch pleidleisio gwag a'u cymysgu, yna caiff un ei dynnu gennych chi

- caiff slipiau o bapur ag enwau'r pleidiau/ymgeiswyr unigol arnynt eu gosod mewn amlenni wedi'u selio a'u cymysgu, yna caiff un ei dynnu gennych chi

7.62 Dylech wneud cyhoeddiad eich bod yn bwriadu mynd ati i dynnu enwau ar hap rhwng y pleidiau neu'r ymgeiswyr unigol sydd â nifer gyfartal o bleidleisiau ar yr adeg honno o'r dyraniad, gan egluro'n union beth sydd ar fin digwydd a'r dull a ddefnyddir. Dylai ymgeiswyr, asiantiaid, cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig fod yn bresennol yn ystod unrhyw waith paratoi ac yn ystod y broses o dynnu enwau ar hap.

7.63 Os byddwch yn defnyddio'r dull cyntaf a ddisgrifir uchod, dylech fynd ati, yng ngolwg unrhyw ymgeiswyr ac asiantiaid, ac ym mhresenoldeb cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig, i blygu papur pleidleisio a gyfrifwyd yn flaenorol ar gyfer pob un o'r pleidiau neu ymgeiswyr unigol sydd â'r un nifer o bleidleisiau, a'i roi mewn blwch pleidleisio gwag. Dylai cynorthwyydd godi'r blwch i uchder lle na allwch weld y papurau y tu mewn i'r blwch, ond lle gallwch roi eich llaw i mewn a thynnu un allan o hyd. Ar ôl cymysgu, dylech dynnu un o'r papurau pleidleisio o'r blwch, ei agor a darllen enw'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r bleidlais wedi'i marcio yn erbyn ei enw yn uchel. Yna dyrennir y sedd i'r blaid honno neu'r ymgeisydd unigol hwnnw.

7.64 Dylid gwneud paratoadau tebyg os byddwch yn penderfynu defnyddio'r dull amgen a amlinellir uchod.

7.65 Dylid ychwanegu datganiad at daflen y canlyniad, yn nodi:

> 'Yn dilyn pleidleisiau cyfartal ar gam X, tynnwyd enwau ar hap ac, o ganlyniad, dyrannwyd y/yr [*ail, drydedd, bedwaredd ac ati*] sedd i X.'

Datgan y canlyniad

7.66 Rhaid i chi ddatgan enw'r ymgeiswyr ar restr plaid a'r ymgeiswyr unigol a gaiff eu hethol.

7.67 Os yw'r ymgeisydd wedi defnyddio ei enw a ddefnyddir yn gyffredin i sefyll etholiad, dylech ddefnyddio ei enw llawn a'r enw a ddefnyddir yn gyffredin ganddo wrth ddatgan y canlyniad.

7.68 Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth ystyried datgan y canlyniad:

- Penderfynwch ar yr union fan yn y lleoliad lle y caiff y canlyniad ei ddatgan a phwy fydd ar y llwyfan ar yr adeg hon. Dylai'r rhai y mae angen iddynt gyrraedd y llwyfan allu gwneud hynny'n hawdd. Mae rhai Swyddogion Canlyniadau yn defnyddio byrddau arddangos fel cefndir i gyhoeddi'r canlyniadau.

- Dylai unrhyw gyfarpar cyhoeddi fod yn ei le a dylid ei wirio cyn i'r cyfrif ddechrau.

- Gwiriwch ddwywaith fod y canlyniadau yn gywir, ac wedi'u hysgrifennu ar ffurf geiriau ar gyfer rhoi'r canlyniad ar lafar er mwyn osgoi unrhyw wallau. Bydd cynrychiolwyr y cyfryngau yn awyddus i sicrhau bod y sylw a roddant i'r canlyniadau yn gywir ac felly efallai y byddant yn gofyn i gopi ysgrifenedig gael ei gyflwyno ar adeg y cyhoeddiad.

7.69 Unwaith y bydd y canlyniad wedi'i ddatgan, bydd yn derfynol ac ni ellir ei newid. Nid yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi i gywiro canlyniad anghywir unwaith y bydd wedi'i ddatgan.

7.70 Ceir rhagor o wybodaeth am yr hysbysiadau ar ôl y canlyniad a gweithdrefnau eraill ar ôl y canlyniad ym Mhennod 8: **After the declaration of the result**.

8 Ar ôl datgan y canlyniad

Gweithgarwch ar ôl yr etholiad

Rhoi hysbysiad o'r canlyniad

8.1 Rhaid i chi roi hysbysiad cyhoeddus o'r datganiad o'r canlyniad (ceir canllawiau ym mharagraffau **6.35** a **6.36** ar yr hyn a olygir wrth 'hysbysiad cyhoeddus' ac ym mharagraff **7.42** ar yr hyn y mae'n rhaid i'r datganiad ei gynnwys). Dylech sicrhau bod yr hysbysiad o'r canlyniad ar gael i bawb sydd â diddordeb cyn gynted â phosibl, yn cynnwys drwy ei gyhoeddi ar eich gwefan neu ar wefan eich awdurdod lleol.

8.2 Dylech hefyd anfon copi at bob Swyddog Canlyniadau Lleol i'w gyhoeddi'n lleol.

8.3 Rhaid i chi anfon copi o'r hysbysiad cyhoeddus hwn at yr Ysgrifennydd Gwladol.[4] Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Lloegr hefyd anfon copi o'r hysbysiad cyhoeddus hwn at Brif Ysgrifennydd Llywodraeth Gibraltar.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael gwybod am y canlyniad mewn ffordd glir ac amserol. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith ar gyfer cyfathrebu canlyniadau i bleidleiswyr.

Ernesau

8.4 Rhaid i chi ddychwelyd ernes unrhyw blaid neu ymgeisydd unigol sydd wedi cael mwy na 2.5% o gyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholiad. Rhaid i chi ddychwelyd yr ernes i'r unigolyn a wnaeth yr ernes neu ei gynrychiolydd personol heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl datgan canlyniad yr etholiad.

8.5 Os byddwch yn dychwelyd ernes ar ffurf siec, ystyrir y caiff ei dychwelyd ar y diwrnod y caiff y siec ei phostio.

8.6 Rhaid i unrhyw blaid neu ymgeisydd unigol nad yw wedi cael mwy na 2.5% o gyfanswm y pleidleisiau dilys fforffedu ei ernes, p'un a ddyrannwyd

[4] Bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi manylion y cyfeiriad y dylid anfon yr hysbysiad iddo i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol.

sedd iddo ai peidio. Rhaid i chi anfon unrhyw ernesau a gollwyd at Ei Mawrhydi. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses hon.

Casglu data ac adborth

8.7 Gofynnir i chi anfon gwybodaeth a data i'r Comisiwn ynglŷn â'r etholiadau.

8.8 Bydd y Comisiwn yn adrodd ar y broses o weinyddu etholiadau Senedd Ewrop, a bydd yn gofyn am adborth gennych i lywio ein hadroddiad.

8.9 Caiff ffurflenni ar gyfer casglu gwybodaeth a data, a nodiadau canllaw ategol ar gyfer eu cwblhau, eu dosbarthu ar wahân a byddant hefyd ar gael ar ein gwefan yn http://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/candidate-or-agent/european-parliamentary-elections.

Cyfrifyddu ar gyfer yr etholiad

8.10 Ariennir etholiadau Senedd Ewrop gan Lywodraeth y DU. Bydd Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau a fydd yn nodi faint y gallwch ei hawlio. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi canllawiau ar gyfrifyddu ar gyfer yr etholiadau.

Gwariant etholiadol ymgeiswyr

8.11 Ceir rheolau ar wariant etholiad gan ymgeiswyr mewn etholiadau Senedd Ewrop, a rheolau ar y rhoddion a gânt tuag at eu hymgyrch. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn monitro ac yn cymryd camau er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr a'u hasiantiaid yn cydymffurfio â'r rheolau hyn.

8.12 Eich rôl chi yw sicrhau y caiff y dogfennau y mae'n rhaid i ymgeiswyr a'u hasiantiaid eu cyflwyno i chi eu cadw'n briodol ac ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

8.13 Mae'r Comisiwn wedi llunio canllawiau ar wariant a rhoddion mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y gallwch eu defnyddio i roi gwybodaeth am ffurflenni gwariant a datganiadau i ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd. Gall pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid hefyd lawrlwytho'r ffurflenni perthnasol a'r nodiadau esboniadol o'n gwefan.[5] Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau i Swyddogion

[5] Mae canllawiau, ffurflenni a nodiadau ar gyfer ymgeiswyr unigol ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/candidate-or-agent/european-parliamentary-elections

Canlyniadau Rhanbarthol i helpu i ddelio ag unrhyw ffurflenni gwariant ymgeiswyr sy'n weddill.

Ffurflenni gwariant ymgeiswyr unigol

8.14 Rhaid i ymgeiswyr roi cyfrif am eu gwariant etholiad a'r rhoddion o fwy na £50 tuag at eu hymgyrch. Rhaid i asiant etholiad pob ymgeisydd unigol gyflwyno ffurflen gwariant ymgyrchu i chi ynghyd ag unrhyw ddogfennau atodol, fel anfonebau a derbynebau perthnasol, a datganiad ynghylch cynnwys y ffurflen o fewn 50 diwrnod calendr i'r dyddiad y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan.

8.15 Rhaid i ymgeiswyr unigol hefyd gyflwyno datganiad ar gynnwys y ffurflen o fewn saith diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd yr asiant etholiad yn cyflwyno'r ffurflen. Os yw'r ymgeisydd y tu allan i'r DU neu, yn achos ymgeisydd unigol sy'n byw yn Gibraltar sy'n sefyll etholiad yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr, y tu allan i Gibraltar, rhaid i'r datganiad gael ei wneud o fewn 14 diwrnod calendr ar ôl i'r ymgeisydd ddychwelyd i'r DU (neu Gibraltar). Os bydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun, dim ond un datganiad y mae'n ofynnol iddo ei gyflwyno.

Cadw ffurflenni gwariant ymgeiswyr unigol

8.16 Rhaid i chi gadw copi o bob ffurflen gwariant a datganiad mewn etholiad Senedd Ewrop, ac unrhyw ddogfennau atodol, am gyfnod o ddeuddeg mlynedd o'r dyddiad y gwnaethoch ei derbyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid i chi sicrhau bod y copïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am ddim yn eich swyddfa neu mewn lle arall cyfleus a ddewisir gennych chi. Rhaid i chi hefyd roi copïau o'r ffurflenni, datganiadau neu unrhyw ddogfennau atodol ar gais.

8.17 Rhaid i chi dynnu cyfeiriadau unigolion sydd wedi gwneud rhoddion i ymgeiswyr unigol o bob copi o ddatganiadau o roddion sydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio neu a ddarparwyd ar gais. Dylech hefyd sicrhau y caiff data personol ei olygu yn addas o'r copïau hyn.

8.18 Ar ddiwedd y cyfnod o ddeuddeg mis, gellir dinistrio'r ffurflenni, y datganiadau a'r dogfennau atodol.

---

ac ar gyfer ymgeiswyr ar restr plaid yn www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/party-or-campaigner/guidance-for-political-parties/campaign-spending.

Cyhoeddi'r amser a'r lleoliad ar gyfer archwilio ffurflenni gwariant a datganiadau ymgeiswyr unigol

8.19 O fewn 10 diwrnod i'r dyddiad cau er mwyn i ymgeiswyr unigol gyflwyno eu ffurflenni gwariant i chi, rhaid i chi gyhoeddi mewn o leiaf un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn y rhanbarth etholiadol (yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr, o leiaf un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn y rhan honno o'r rhanbarth etholiadol sydd yn Lloegr ac o leiaf un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn y rhan honno o'r rhanbarth etholiadol sydd yn Gibraltar) hysbysiad o'r amser a'r lleoliad ar gyfer archwilio'r ffurflenni, y datganiadau a'r dogfennau atodol.

8.20 Os nad ydych wedi cael un o'r ffurflenni neu ddatganiadau gofynnol rhaid i chi nodi hyn yn yr hysbysiad. Os byddwch yn derbyn ffurflen neu ddatganiad yn dilyn hyn, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad, yn yr un ffordd â'r hysbysiad cyntaf, 10 diwrnod ar ôl ei dderbyn o'r amser a'r lleoliad y gellir archwilio'r ffurflen, y datganiad a'r dogfennau ategol.

Datganiadau gan ymgeiswyr rhestr plaid ynglŷn â threuliau personol

8.21 Rhaid i ymgeiswyr rhestr plaid gyflwyno datganiad ar eu treuliau personol i chi o fewn 50 diwrnod calendr i'r dyddiad y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan.

Ffurflenni y dylid eu hanfon ymlaen i'r Comisiwn Etholiadol

8.22 Rhaid i chi anfon copïau o'r holl ffurflenni ymgeiswyr a datganiadau a dderbyniwch gan ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr ar restr plaid ymlaen i'r Comisiwn. Gall y Comisiwn hefyd ofyn i chi ddarparu copïau o anfonebau a derbynebau ar gais.

8.23 Anfonwch gopïau PDF dros e-bost i pef@electoralcommission.org.uk. Neu, gallwch anfon copïau o'r holl ddogfennau i'r cyfeiriad canlynol:

Party and Election Finance

Y Comisiwn Etholiadol

3 Bunhill Row

London

EC1Y 8YZ

Heriau i ganlyniad yr etholiad

Deisebau etholiadol

8.24 Gellir defnyddio deisebau etholiadol i herio canlyniad etholiadau Senedd Ewrop.

8.25 Gall deiseb etholiadol gael ei chyflwyno gan:

- rywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- rywun sy'n honni bod ganddo hawl i gael ei ethol neu ddychwelyd yn yr etholiad
- rywun a bleidleisiodd fel etholwr yn yr etholiad neu yr oedd ganddo hawl i bleidleisio yn yr etholiad, heblaw etholwr a gofrestrwyd yn ddienw

8.26 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb yw:

- na chafodd ymgeisydd llwyddiannus ei ethol yn llwyddiannus
- na chafodd y canlyniadau eu datgan yn briodol
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd yr arferion llygredig neu anghyfreithlon canlynol:
  - cam-bersonadu: pan fydd unrhyw unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug)
  - troseddau pleidleisio eraill a nodir yn rheoliad 24 o Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop 2004 yn cynnwys troseddau fel pleidleisio neu weithredu fel dirprwy pan fydd wedi'i anghymhwyso neu weithredu fel dirprwy ar gyfer mwy na dau berson nad ydynt yn perthyn yn agos; pleidleisio ddwywaith yn yr un etholiad; penodi dau ddirprwy ar gyfer yr un etholiad yn fwriadol

8.27 Ni ellir cynnal deiseb ar y sail bod ymgeisydd wedi'i anghymhwyso rhag sefyll. Ceir proses farnwrol ar wahân ar gyfer herio etholiad ASE ar y sail ei fod wedi'i anghymwyso ar y pryd neu yn y gorffennol (gweler paragraff **8.33**).

8.28 Mae'n debygol iawn y caiff yr unigolyn y ceir amheuaeth ynghylch ei ethol ei wneud yn atebydd i'r ddeiseb. Fel Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, byddwch yn atebydd i'r ddeiseb hefyd os yw'r ddeiseb yn ymwneud â'ch trefn o gynnal yr etholiad, ac os yw'n ymwneud â threfn cynnal yr etholiad gan Swyddog(ion) Canlyniadau Lleol, bydd hefyd yn atebydd.

8.29 Rhaid cyflwyno deiseb o fewn 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y datganwyd canlyniad yr etholiad.

8.30 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno deiseb etholiadol i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun. Ar gyfer unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud

â deisebau etholiadol, yn cynnwys cadarnhau'r dyddiadau cau, dylech gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol.

8.31 Yng Nghymru a Lloegr, dylech gysylltu â'r canlynol:

The Election Petitions Office

Room E15

Royal Courts of Justice

Strand

London WC2A 2LL

E-bost: geraint.evans@hmcts.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 7947 6687/6926

Ffacs: 0870 324 0024

8.32 Yn yr Alban dylech gysylltu â:

The Election Petitions Office

Court of Session

Parliament House

Parliament Square

Edinburgh EH2 1RQ

Ffôn: 0131 240 6747
Ffacs: 0131 240 6755

Penderfyniad anghymhwyso barnwrol

8.33 Gall unrhyw berson wneud cais i'r llys priodol am ddatganiad bod ASE wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod o Senedd Ewrop yn y presennol neu'r gorffennol o dan Adran 10 o Ddeddf Etholiadau Seneddol 2002.

8.34 Yng Nghymru a Lloegr, y llys priodol yw'r Uchel Lys. Yn yr Alban, y Llys Sesiwn yw'r llys priodol.

8.35 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais am ddatganiad anghymhwyso barnwrol geisio ei gyngor ei hun.

Adolygu gweithdrefnau etholiad

8.36 Dylai eich cynllun prosiect ar gyfer yr etholiad gynnwys cynlluniau i gynnal gwerthusiad trylwyr o'r holl brosesau ar ôl yr etholiad a llunio adroddiad o'r gwersi a ddysgwyd y gellir ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol. Dylai eich proses werthuso gynnwys ceisio adborth gan y Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol yn eich rhanbarth etholiadol a rhanddeiliaid priodol eraill.

8.37 Mae'r Comisiwn wedi darparu, fel rhan o'r templed ar gyfer cynllun prosiect, rai nodau enghreifftiol ac adnoddau a awgrymir a fydd yn eich galluogi i fesur i ba raddau y mae trefn cynnal yr etholiad wedi bod yn llwyddiannus.

Yr adolygiad

8.38 Dylai cwmpas yr adolygiad gwmpasu pob agwedd ar yr etholiad. Dylai eich cynllun prosiect gael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad, a dylai pob proses y cynlluniwyd ar ei chyfer ac a gyflawnwyd gael ei hadolygu.

8.39 Rhan allweddol o'r adolygiad fydd ystyried y nodau a'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun prosiect a mesur eich perfformiad yn eu herbyn.

8.40 Dylech dalu sylw arbennig i adolygu'r canlynol:

- eich gwaith cynllunio prosiect
- p'un a oeddech yn gallu sicrhau digon o adnoddau
- effeithiolrwydd eich strwythur rheoli a chydweithredu, yn cynnwys monitro gwaith Swyddogion Canlyniadau Lleol o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i chynnal
- effeithiolrwydd eich strategaethau a'ch dulliau cyfathrebu
- recriwtio a hyfforddi staff
- rheoli'r broses enwebu
- trefnu a chyflwyno'r broses o goladu canlyniadau
- addasrwydd y lleoliadau a ddefnyddiwyd
- y gwaith o brosesu ac ymdrin ag ymholiadau
- unrhyw faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch/uniondeb yr etholiad

8.41 Fel rhan o'r adolygiad dylech geisio adborth gan randdeiliaid allweddol, yn cynnwys:

- staff
- etholwyr
- ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol
- Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff
- sefydliadau lleol o bobl anabl, pobl hŷn a grwpiau ethnig lleiafrifol, a swyddogion mynediad y cyngor

8.42 Ar ôl i chi adolygu pob agwedd ar yr etholiad a cheisio adborth gan randdeiliaid priodol, dylech lunio dogfen yn nodi'r gwersi a ddysgwyd. Dylai'r ddogfen honno gynnwys dadansoddiad o ba arferion fu'n llwyddiannus a ble arall y gellid eu defnyddio, beth fyddech chi'n ei wneud eto neu'n wahanol, ac argymhellion allweddol. Dylai'r adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd gael ei ddefnyddio wedyn i lywio eich cynllun prosiect ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol. Dylech hefyd roi adborth i Swyddogion Canlyniadau Lleol fel rhan o'u hadolygiad o'r broses o gynnal yr etholiad yn eu hardal bleidleisio.

Atodiad A – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau

Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr

Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl i fwrw eu pleidlais yn hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau ei wneud i gyflawni hyn	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
Pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn da bryd i fwrw eu pleidlais	• Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn • Gwerthuso'r gwaith o gynllunio ar gyfer etholiadau blaenorol a'u cynnal a nodi'r gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddaru cynlluniau fel y bo angen • Rhoi trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r fanyleb	• Dogfennaeth cynllunio prosiect a adolygir yn rheolaidd • Dogfennaeth gynllunio sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd • Trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr • Prosesau ar gyfer prawfddarllen deunyddiau pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio a hysbysiad etholiad

	• Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio na hysbysiad etholiad • Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth • Sicrhau bod gwybodaeth am bleidleisio, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad a'r hysbysiad pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol	• Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny • Gwybodaeth pleidleisio ar gael yn hawdd ar wefan yr awdurdod lleol
Pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon	• Sicrhau bod anghenion mynediad yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'u sefydlu • Penderfynu ar y ffordd y pennir etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau bod	• Asesu anghenion mynediad, gan nodi unrhyw broblemau a chamau gweithredu i'w datrys • Y ffordd yr eir ati i bennu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio

	gorsafoedd pleidleisio yn cael eu staffio'n gywir fel bod pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon, gan ystyried y ffactorau a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn • Sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio wedi'u hyfforddi i sefydlu gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd sy'n ystyried anghenion pleidleiswyr • Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth	• Canllawiau/hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio • Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny
Gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd	• Cynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post • Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y	Trefniadau i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb

	dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath • Cadw papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel drwy'r amser • Rhoi adnoddau ar waith i sicrhau bod y gwaith dilysu a chyfrif yn amserol • Sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu cyfleu i bleidleiswyr mewn ffordd glir ac amserol • Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir	Trefniadau i storio papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel Gwybodaeth am sut y caiff y gwaith dilysu a chyfrif ei drefnu a'i reoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych i ddod i'ch penderfyniad Trefniadau ar gyfer cyfleu canlyniadau i bleidleiswyr Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif

Safon perfformiad 2: Y sawl sydd am sefyll etholiad

Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl sydd am sefyll etholiad i gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau ei wneud i gyflawni hyn	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
Mae'r sawl sydd am sefyll etholiad yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny	Sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy ddarparu sesiynau briffio a sicrhau eu bod yn cael canllawiau ysgrifenedig Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y cyfle i'w papurau enwebu gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol	Canllawiau ysgrifenedig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr Dyddiad(au) sesiynau briffio ac adnoddau briffio Trefniadau ar waith i ymgeiswyr gael eu papurau enwebu wedi'u gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol
Gall ymgeiswyr fod yn hyderus y caiff y broses ei rheoli'n dda, a chael hyder yn y canlyniadau	Sicrhau bod y rhai sydd â'r hawl i fynd i sesiynau agor pleidleisiau post yn	Cynllun o sesiynau agor pleidleisiau post

	gallu dilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd Sicrhau bod prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r broses dilysu a chyfrif yn digwydd o flaen pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi iddynt ar y prosesau i'w dilyn Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath	Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post Cynllun y cyfrif Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol yn y cyfrif Trefniadau ar waith i rannu hynt y cyfrif Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb

Safon perfformiad ar gyfer deiliaid swydd statudol sydd â phŵer cyfarwyddo

Safon perfformiad 3: Cyd-drefnu a rheoli'r etholiad **Cyd-drefnu'r gwaith cynllunio ar gyfer etholiad a chynnal etholiad er mwyn sicrhau profiad cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad**		
Canlyniad	Beth sydd angen i'r deiliad swydd statudol ei wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
Sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau lleol y trefniadau angenrheidiol ar waith i gynnal etholiadau wedi'u trefnu'n dda yn eu hardal	Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn Datblygu canllawiau a rhoi cyfarwyddiadau lle y bo angen i sicrhau y caiff yr etholiadau eu gweinyddu'n effeithiol yn ardal pob Swyddog Canlyniadau lleol Datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau lleol Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer cydgysylltu a darparu	Dogfennaeth cynllunio prosiect a adolygir yn rheolaidd Trefniadau ar gyfer sicrhau y caiff yr etholiad ei gynnal mewn modd cyson, gan gynnwys canllawiau a gyhoeddwyd a ph'un a ydych wedi defnyddio eich pŵer i roi cyfarwyddiadau a sut rydych wedi gwneud hynny Cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau lleol

	gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r ardal gyfan Lle y bo'n briodol, datblygu proses ar gyfer derbyn a chyflwyno canlyniadau lleol	Strategaeth ar gyfer cydgysylltu a darparu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r ardal gyfan Trefniadau ynglŷn â sut rydych yn bwriadu rheoli'r broses o goladu canlyniadau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddwyd i Swyddogion Canlyniadau lleol